ATHROFA PRIFYSGOL CYMRU, CAERDYDD

Y GANOLFAN ER YMCHWIL ADDYSG GYMHWYSOL

GWERTHUSIAD O GYNLLUN PEILOT ATHRO SIARTREDIG YNG NGHYMRU

ADRODDIAD LLAWN

Yr Athro David Egan

Medi, 2009

Diolchiadau

Gyda diolch i Frances Charles, Mike Griffiths, Rhian Morgan ac Emmajane Milton am eu cymorth a'u barn broffesiynol amhrisiadwy wrth wneud y gwerthusiad hwn; i Joan James, Ysgol Addysg Caerdydd, Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd, am ei chymorth gweinyddol cyffredinol ac yn arbennig am y gwaith a wnaeth ar yr arolwg holiadur, Margery McMahon o Brifysgol Glasgow am ei chymorth gyda materion yn ymwneud â'r cynllun Athro Siartredig yn yr Alban a darparwyr llwybrau portffolio a rhaglen y Cynllun Peilot Athro Siartredig am eu cydweithrediad parod.

CYNNWYS

	Tudalennau
1. Cyflwyniad	4-9
2. Manylion y Cynllun Peilot	11-17
3. Methodoleg y Gwerthusiad	18-23
4. Adolygiad o Bolisi a Thystiolaeth Ymchwil	24-40
5. Canfyddiadau: Y Llwybr Portffolio	41-46
6. Canfyddiadau: Y Llwybr Rhaglen	47-65
7. Crynodeb o'r Canfyddiadau Cyffredinol	66-72
8. Argymhellion	73-78
9. Atodiadau	79-

1. CYFLWYNIAD

Cefndir

1.1 Yn 2003, gwahoddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC) i arwain, gan gydweithio â phartneriaid eraill, i ddatblygu Fframwaith Datblygiad Proffesiynol ar gyfer athrawon yng Nghymru.

1.2 Ym mis Gorffennaf 2005, yn ei ddarn cyntaf o gyngor i Lywodraeth y Cynulliad mewn perthynas â'r gwaith hwn, nododd CyngACC nad oedd unrhyw drefniadau cenedlaethol ym maes datblygiad proffesiynol i'r mwyafrif helaeth o athrawon nad ydynt ym mlynyddoedd cynnar addysgu nac yn anelu at swyddi pennaeth neu uwch arweinydd yn eu gyrfaoedd.

1.3 Er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa hon argymhellodd y Cyngor y dylid unioni hyn trwy gyflwyno rhaglen genedlaethol o ddatblygiad proffesiynol strwythuredig – y Rhaglen Athro Siartredig, a fyddai'n cynnig cyfle i athrawon profiadol yng nghanol eu gyrfaoedd gael datblygiad ac astudiaeth broffesiynol strwythuredig, pe baent yn dymuno hynny.

1.4 Argymhellodd y Cyngor hefyd y dylai'r athrawon sy'n cwblhau'r Rhaglen Athro Siartredig yn llwyddiannus gael cydnabyddiaeth broffesiynol am eu cyflawniadau, er mwyn i'w statws gael ei gydnabod yn y proffesiwn addysgu a'r tu allan iddo. Byddai hyn yn rhoi cydraddoldeb gyda cherrig milltir proffesiynol presennol Statws Athro Cymwys, Sefydlu a Phrifathrawiaeth, sydd i gyd yn cynnig rhaglenni datblygiad proffesiynol cenedlaethol sy'n arwain at gydnabyddiaeth broffesiynol. Cynghorodd y Cyngor y dylai'r gydnabyddiaeth fod ar ffurf dyfarniad "Statws Athro Siartredig" a allai gynnwys defnyddio llythrennau ar ôl eu henwau.

1.5 Derbyniodd y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yng Nghymru argymhelliad y Cyngor, ar yr amod y câi rhagor o gyngor ei ddarparu ar fanylion rhaglen o'r fath. Cafodd y manylion hyn eu darparu ym mis Gorffennaf 2006. Ar y sail honno mae Llywodraeth y Cynulliad wedi caniatáu i CyngACC ddefnyddio arian yr oedd eisoes wedi'i ddarparu ar gyfer gweithgarwch DPP i beilota'r rhaglen Athro Siartredig. Mae wedi dweud y bydd yn dymuno cymryd y gwerthusiad o'r cynllun peilot i ystyriaeth fel rhan o adolygiad ehangach o ddatblygiad proffesiynol ar draws y sector addysg sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd.

Nodweddion Allweddol y Rhaglen Athro Siartredig yng Nghymru

1.6 Nodweddion allweddol y rhaglen, fel y'i sefydlwyd yn y cyngor a gynigiwyd gan CyngACC ac a gymeradwywyd gan Lywodraeth y Cynulliad, oedd:

- **Y Safonau ar gyfer Athro Siartredig (AS)**. Byddai safonau proffesiynol yn sylfaen i statws AS. Drwy ddilyn y rhaglen genedlaethol ar gyfer AS a'i chwblhau'n llwyddiannus, byddai athrawon yn dangos eu bod wedi cyrraedd y safonau hyn. Sefydlodd CyngACC weithgor i ddatblygu safonau AS. Yn dilyn proses ymgynghori cyhoeddwyd fersiwn derfynol y safonau ym mis Mai 2007. Roedd y safonau'n nodi elfennau allweddol yr hyn y dylai Athrawon Siartredig ei wybod, ei ddeall a'i wneud. Gellir eu gweld yn Atodiad 1.

- **Llwybrau at Statws AS**. Dylai fod dau lwybr at ddod yn Athro Siartredig, sef llwybr rhaglen a llwybr portffolio.

- **Y Llwybr Rhaglen.** Bwriedid i hwn fod yn berthnasol i athrawon dosbarth, arweinwyr canol a'r rhai sy'n cyflawni'r ddwy rôl. Y syniad oedd y dylai gael ei seilio ar set gyffredin o fodiwlau craidd, gyda rhagor o fodiwlau wedi'u targedu'n benodol ar arfer yn y dosbarth neu arweinyddiaeth ganol. Byddai hyn yn cynnig digon o hyblygrwydd i athrawon deilwra'r rhaglen i'w anghenion o ran datblygiad proffesiynol a'u dyheadau o ran gyrfa. Ni fyddai nifer y modiwlau'n cael ei phennu ar y dechrau, ond o ddilyn y model sy'n cael ei weithredu yn yr Alban, rhagwelwyd y byddai model gwaith rhesymol yn cynnwys deuddeng modiwl, sef 4 modiwl craidd, 4 modiwl dewisol a phrosiect seiliedig ar waith cyfwerth â 4 modiwl arall. Byddai yna bwyslais cryf ar ddadansoddi, adfyfyrio a gwella ymarfer. Byddai cyfuniad o ddulliau cyflenwi, gan gynnwys rhaglenni a addysgir, hunan-astudio, hyfforddiant wyneb yn wyneb, sesiynau gweithdy, arsylwi yn y dosbarth, profiad preswyl a dysgu o bell ac ar y we yn cael eu defnyddio. Byddai cyfleoedd i athrawon gael credyd am ddysgu blaenorol yn cael eu caniatáu. Hefyd rhagwelwyd y posibilrwydd y byddai rhai athrawon yn cyflawni nifer fach o fodiwlau, fel rhan o'u datblygiad proffesiynol, heb gwblhau'r Rhaglen AS gyfan.

- **Y Llwybr Portffolio.** Byddai yna gyfle i athrawon profiadol iawn gyflwyno tystiolaeth (trwy bortffolio) a fyddai'n dangos eu bod eisoes wedi cyrraedd y safonau proffesiynol ar gyfer AS. Unwaith eto, cyfeiriwyd at brofiad yr Alban wrth gynnig y llwybr hwn at statws AS.

Cynllun Peilot y Modiwlau Rhaglen

1.7. Penderfynodd CyngACC mai'r ffordd fwyaf effeithiol o fwrw ymlaen â'r modiwlau rhaglen oedd gwneud cynllun peilot dwy flynedd o'r llwybr Rhaglen a'r llwybr Portffolio. Dechreuodd y cynllun peilot cychwynnol ym mis Medi 2007 ac aeth ymlaen hyd fis Gorffennaf 2009. Caiff estyniad o'r cynllun peilot ei gynnal o fis Medi

2009 hyd fis Gorffennaf 2010. Mae'r gwerthusiad hwn yn ymwneud â'r cynllun peilot cychwynnol yn unig.

1.8. Mewn perthynas â chynllun peilot y **Llwybr Rhaglen**, penderfynwyd fel a ganlyn:

- Peilota'r modiwlau craidd a dewisol, ond nid y prosiect seiliedig ar waith.

- Ymchwilio i'r posibilrwydd o achrediad Addysg Uwch ar gyfer y rhaglen AS. Gofynnodd y Cyngor i ddarparwyr y cynllun peilot nodi'n glir y gwerth credydau y gallai athro/athrawes ei gael am gwblhau modiwl neu fodiwlau o'r cynllun peilot, yng nghyd-destun Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru.

- Peidio â nodi pwy ddylai darparwyr y Rhaglen AS fod, ond i'r darparwyr gynllunio rhaglenni oedd yn adlewyrchu'r Safonau ar gyfer AS.

- Sicrhau, fodd bynnag, bod cynnwys rhaglenni'r darparwyr yn berthnasol i athrawon dosbarth profiadol, arweinwyr canol a'r rheiny â gofynion mwy penodol o ran datblygiad proffesiynol.

- Bod y rhaglen ar gael ledled Cymru gyfan.

- Bod sefydliadau addysg uwch, AALlau ac eraill yn gweithio mewn partneriaeth wrth gynllunio a chyflenwi rhaglenni.

- Bod yna amrywiaeth fawr o ddulliau cyflenwi.

- Bod y modiwlau rhaglen yn berthnasol i arfer athrawon yn y dosbarth a bod ganddynt sylfaen gadarn mewn damcaniaeth addysgol. Teimlir mai un ffordd effeithiol o gyflawni hyn oedd nodi y dylai'r holl raglenni gael eu cyflenwi mewn partneriaeth er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng damcaniaeth ac ymarfer yn arbenigedd y darparwyr.

- Ni ragnodwyd y fath bartneriaethau posibl, ond awgrymwyd y byddai'r partneriaethau hyn fel arfer yn cynnwys dau neu ragor o sefydliadau addysg uwch, AALlau, cymdeithasau pwnc, cwmnïau preifat, darparwyr rhyngwladol a chyrff eraill.

- Wrth beilota'r llwybr rhaglen, roedd y Cyngor yn dymuno sicrhau cynllun peilot cytbwys a fyddai'n cynnwys amrywiaeth o wahanol ddulliau cyflenwi, darparwyr o wahanol leoedd, amrywiaeth o ddarparwyr yn cymryd rhan, gweithio mewn partneriaeth, peilota'r holl fodiwlau craidd ac amrywiaeth o fodiwlau dewisol, cynnwys perthnasol i athrawon dosbarth a hefyd arweinwyr canol, ymdrin â Safonau AS, cynnwys perthnasol i'r sector cynradd a'r sector uwchradd, ac un neu ragor o gynlluniau peilot i gael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd yr ymgais hwn i beilota amrywiaeth fawr o ymagweddau a

dulliau cyflenwi'n un o nodweddion allweddol y ffordd y cynlluniodd CyngACC y cynllun peilot.

1.9 Mewn perthynas â'r **Llwybr Portffolio**, nodwyd y nodweddion allweddol canlynol:

- Portffolio o dystiolaeth ac adroddiad adfyfyriol o tua 10,000 o eiriau i gael ei roi at ei gilydd.

- Ar sail profiad yr Alban byddai'r portffolio'n:

    - Cynnwys adran ragarweiniol yn nodi tri phrofiad allweddol a ddewiswyd gan yr athro/athrawes i ddangos cymhwysedd cyson yn erbyn y safonau ar gyfer AS.
    - Rhoi crynodeb o'r dystiolaeth a gyflwynir yn erbyn y safonau ar gyfer AS ar ffurflen a ddarperir.
    - Cyflwyno amrywiaeth fawr o dystiolaeth a ddewiswyd yn ofalus a fyddai'n dangos bod y gweithredoedd proffesiynol cyson a gyflawnwyd yn berthnasol ac yn gyfredol ac yn ddigon i gyrraedd y safonau ar gyfer AS.

- Dylai'r adroddiad adfyfyriol ychwanegu at y portffolio. Drwy'r adroddiad adfyfyriol, dylai'r athro/athrawes roi disgrifiad beirniadol o'i d/dysgu trwy weithredoedd proffesiynol sy'n dangos ei d/datblygiad proffesiynol. Yn sylfaen i'r adroddiad byddai cyfeiriadau at lenyddiaeth berthnasol mewn meysydd priodol. Byddai'r adroddiad yn dangos bod athro / athrawes:

    - Wedi dangos ac adfyfyrio ar ddysgu o'r gweithgareddau a nodir yn y portffolio.
    - Yn gallu nodi egwyddorion canolog mewn perthynas â gweithredu proffesiynol a'u dadansoddi'n feirniadol.
    - Yn dangos gwybodaeth feirniadol o lenyddiaeth berthnasol.
    - Yn gosod safonau uchel yn gyson ar gyfer ei berfformiad / pherfformiad proffesiynol yn y dosbarth a/neu ar lefel arweinyddiaeth ganol.

1.10 Penderfynodd CyngACC y dylai **amcanion allweddol** y cynllun peilot fod fel a ganlyn:

- Peilota modiwlau rhaglen (a addysgir) a llwybr portffolio tuag at ennill statws AS.

- Darparu cyfres o brofiadau dysgu cadarnhaol sy'n canolbwyntio ar anghenion ymarferwyr dosbarth ac arweinwyr canol sy'n anelu at ragoriaeth yn eu dysgu a'u hymarfer proffesiynol.

- Rheoli'r cynllun peilot yn y fath fodd fel ag i roi prawf ar fuddion canfyddedig Rhaglen AS yng Nghymru a thynnu sylw at y gwersi y gellir eu dysgu ar gyfer y dyfodol.

- Galluogi'r Cyngor a'i bartneriaid i fynd i'r afael â materion hanfodol wrth gynllunio a datblygu rhaglen AS yng Nghymru, ac i ddod o hyd i atebion posibl.

- Rhoi prawf ar gynigion y Cyngor ar gyfer y rhaglen, fel y'u nodir yn y ddogfen dendro ar gyfer y Llwybr Rhaglen a'r Llwybr Portffolio.

- Sicrhau systemau effeithlon ac effeithiol ar gyfer rheoli'r rhaglen yn nhermau perthnasoedd contractiol, rhwydweithiau darparwyr a datblygiad partneriaethau.

1.11 Wrth baratoi ar gyfer y cynllun peilot, sefydlodd CyngACC broses dendro gystadleuol i ganfod y darparwyr i beilota'r modiwlau ar gyfer y llwybrau Rhaglen a Phortffolio arfaethedig. Gwahoddwyd darparwyr posibl y cynllun peilot i gyflwyno cynigion i beilota un neu ragor o fodiwlau; gallent fod yn fodiwl craidd, yn fodiwl dewisol neu'n gyfuniad o'r ddau. Cynigiodd y Cyngor gymorth ariannol o **hyd at** £20,000 am bob modiwl i bob darparwr. Lle'r oedd cynnig ar gyfer y cynllun peilot yn cynnwys mwy nag un modiwl, roedd y Cyngor yn disgwyl gweld rhai arbedion maint.

1.12 Ar gyfer y Llwybr Portffolio, penderfynodd y Cyngor benodi dau unigolyn â chymwysterau/profiad addas i fod yn ymgynghorwyr/aseswyr ar gyfer y cam peilota. Byddai'r naill a'r llall yn cynorthwyo pedwar athro fel ymgynghorwyr wrth iddynt baratoi eu portffolio tystiolaeth a'u hadroddiad adfyfyriol. Yna byddai'r naill a'r llall yn asesu portffolio ac adroddiad y pedwar athro arall oedd yn cymryd rhan yn y cynllun peilot yn erbyn y safonau drafft ar gyfer AS. Yn nhermau dethol yr ymgynghorwyr/ aseswyr, barnwyd bod cefndir a phrofiad cryf ym meysydd addysgu, datblygiad proffesiynol ac asesu/achredu staff proffesiynol yn hanfodol. Rhagwelwyd y byddai pobl addas yn unigolion o sefydliadau addysg uwch, staff ymgynghorol AALlau neu'n gyn-athrawon oedd yn gweithio fel ymgynghorwyr.

1.13 Mynychodd y sefydliadau a'r unigolion a lwyddodd yn yr ymarfer tendro gyfres o gyfarfodydd cwmpasu gyda CyngACC i roi gwedd derfynol ar drefniadau ac amserlenni eu cyfraniad. Rhoddir manylion y cyfnod peilot, enwau'r darparwyr a'r amserlen ar gyfer cyflenwi yn adran 2 isod.

1.14 Rhoddodd CyngACC nifer o gyfleoedd i athrawon unigol ddatgan diddordeb mewn cymryd rhan yn y cynlluniau peilot, a chafodd fwy na 500 o ddatganiadau o ddiddordeb oddi wrth athrawon. Anfonwyd pecyn gwybodaeth am y cynlluniau peilot oedd i fod i ddechrau ym mlwyddyn academaidd 2007-08 at yr holl athrawon oedd

wedi datgan diddordeb. Yn ogystal â nodi manylion am y cynlluniau peilot, roedd yn gwahodd athrawon i gofrestru eu diddordeb mewn modiwlau penodol o'r cynllun peilot a addysgwyd neu yn y llwybr portffolio. Ar ôl cael y manylion hyn, dechreuwyd ar y gwaith o ddethol yr athrawon a fyddai'n cymryd rhan ym mhob cynllun peilot. Ar gyfer y llwybr portffolio, gofynnodd CyngACC i'r athrawon lenwi ffurflen ychwanegol yn nodi eu profiad yn erbyn y safonau newydd ar gyfer AS. Cafodd y dogfennau hyn eu defnyddio hefyd gan swyddogion y Cyngor a'r ymgynghorwyr/aseswyr i ganfod pobl i gymryd rhan. Blaenoriaethau'r broses ddethol hon oedd sicrhau y câi'r holl geisiadau eu trin yn gyfartal ac yn deg trwy weithredu gweithdrefnau cytunedig yn gyson, a dethol rhai i gymryd rhan a fyddai'n sicrhau cynllun peilot cytbwys. Lle bynnag yr oedd yn bosibl, daethpwyd o hyd i gyfleoedd eraill i'r athrawon nad oeddent yn gallu cael eu dewis cychwynnol.

1.15 O ganlyniad i'r broses ddethol hon, canfuwyd 8 o bobl o bob cwr o Gymru i gymryd rhan yng nghynllun peilot y Llwybr Portffolio, a rhwng 12 ac 16 o athrawon i gymryd rhan ym mhob un o'r modiwlau oedd yn cael eu peilota fel rhan o'r Llwybr Rhaglen ym mlynyddoedd academaidd 2007/08 a 2008/09.

1.16 Pennodd CyngACC ofynion i ddarparwyr y rhaglen AS o ran rheoli'r contract a chyflwyno adroddiadau. Dibenion y trefniadau hyn oedd:

- Datrys unrhyw broblemau contractiol ac egluro disgwyliadau CyngACC lle'r oedd angen.
- Monitro cynnydd ac ymateb i anghenion y darparwyr unigol wrth iddynt ddatblygu, cyflenwi ac adolygu eu cynlluniau peilot.
- Darparu prif fan cyswllt gyda phob darparwr a sicrhau cysondeb y neges ynglŷn â'r Rhaglen Athro Siartredig.

1.17 Cytunwyd ar restr o ofynion adrodd a threfniadau monitro gyda phob darparwr, ar sail cyfres o adroddiadau cynnydd, datganiadau ystadegol a dogfennau ategol.

1.18 Sefydlodd CyngACC Rwydwaith Darparwyr ar gyfer y Rhaglen AS, er mwyn:

- Adeiladu ar y gymuned ddysgu broffesiynol sydd eisoes yn bodoli ar draws y rhwydwaith o ddarparwyr oedd yn ymwneud â'r cynllun peilot.

- Nodi a rhannu arferion da wrth gynllunio a chyflenwi elfennau'r rhaglen sy'n cael eu peilota.

- Galluogi'r darparwyr i gyfrannu at ddatblygu'r Rhaglen AS ymhellach.

- Caniatáu i wersi gael eu dysgu wrth i'r cynllun peilot fynd rhagddo a rheoli'r broses o ledaenu'r gwersi hynny ar draws y rhwydwaith o sefydliadau sy'n cymryd rhan.

1.19 Penderfynodd CyngACC gomisiynu gwerthusiad annibynnol o'r Cynllun Peilot AS. Yn dilyn proses dendro gystadleuol, dyfarnwyd y contract am y gwerthusiad i'r Ganolfan er Ymchwil Addysg Gymhwysol yn Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd. Rhoddir mwy o fanylion am y gwerthusiad yn adran 3 isod.

2. MANYLION Y CYNLLUN PEILOT

Amserlen

2.1 Cynhaliwyd cynllun peilot cychwynnol y Rhaglen AS yng Nghymru rhwng mis Medi 2007 a mis Gorffennaf 2009.

2.2 Cynhaliwyd y cynllun peilot Portffolio drwy gydol y cyfnod hwn, gydag athrawon yn cyflwyno eu portffolios i gael eu hasesu ym mis Ionawr 2009 ac yn cael gwybod am y canlyniadau ym mis Chwefror 2009.

2.3 Cynhaliwyd cynllun peilot y Rhaglen mewn dau gam, gyda phum modiwl yn cael eu cynnig ym mlwyddyn academaidd 2007/08 a'r pump arall yn 2008/09.

Data

2.4 Cymerodd 122 o athrawon ran yn y cynllun peilot: 8 trwy'r Llwybr Portffolio a 114 trwy'r Llwybr Rhaglen.

2.5 O'r rhai ar y Llwybr Rhaglen, roedd 70 o'r sector ysgolion cynradd, 43 o'r sector ysgolion uwchradd ac 1 o'r sector ysgolion arbennig. Yn nhermau canrannau mae hyn yn golygu bod 62% o ysgolion cynradd, 37% o ysgolion uwchradd ac 1 % o ysgol arbennig. Roedd 22% yn ddynion a 78% yn ferched.

2.6 Yn unol â bwriad CyngACC, er mwyn sicrhau bod athrawon o bob rhan o Gymru'n cymryd rhan yn y cynllun peilot, cymerodd athrawon o bob ardal awdurdod lleol yng Nghymru ran. Y nifer ar gyfer pob awdurdod lleol oedd:

Abertawe 5	Ceredigion 4	Sir Benfro 7
Blaenau Gwent 4	Conwy 7	Sir Ddinbych 6
Bro Morgannwg 9	Gwynedd 1	Sir Fynwy 4
Caerdydd 7	Merthyr Tudful 4	Sir y Fflint 2
Caerfyrddin 4	Pen-y-bont ar Ogwr 6	Torfaen 3
Caerffili 6	Powys 4	Wrecsam 10
Casnewydd 4	Rhondda Cynon Taf 10	Ynys Môn 1
Castell-nedd Port Talbot 5		

2.7 Yn y rhan fwyaf o achosion roedd yr athrawon yn mynychu modiwlau yn y Llwybr Rhaglen yn eu hardal ddaearyddol eu hunain. Dim ond deg o athrawon a wnaeth fodiwlau gyda darparwr oedd yn eithaf pell i ffwrdd o'u cartref.

2.8 Roedd deuddeg o'r athrawon wedi'u cofrestru ar gyfer dau fodiwl wedi'u paru gydag un darparwr ar y Llwybr Rhaglen. Cytunodd CyngACC â hyn er mwyn peilota amrywiaeth o fodelau o achrediad academaidd. Gwnaeth pedwar athro ddau o'r modiwlau a gwnaeth un ddau fodiwl arall.

2.9 Roedd proffil oed yr athrawon a gymerodd ran yn y cynllun peilot fel a ganlyn:

25-30 oed: 16
31-35 oed: 26
36-40 oed: 26
41-45 oed: 21
46-50 oed: 13
51-55 oed: 9
56-60 oed: 3

Y Llwybr Portffolio

2.10 Penderfynodd CyngACC recriwtio wyth athro ar gyfer cynllun peilot y Llwybr Portffolio.

2.11 Y gofyniad i'r rhai oedd yn cymryd rhan oedd eu bod yn 'arweinwyr canol / athrawon dosbarth profiadol iawn, sy'n gallu dangos eu bod eisoes yn cyrraedd y safonau ar gyfer AS'. Roedd yn ofynnol i'r ymgeiswyr gyflwyno crynodeb dwy dudalen o'u profiad yn erbyn pob un o benawdau'r safonau.

2.12 Roedd yr athrawon a gafodd eu recriwtio'n cynrychioli amrywiaeth resymol o athrawon uwchradd (3), cynradd (3) ac arbennig (1) o wahanol rannau o Gymru. Merched oedd chwech a dynion oedd dau ohonynt. Roedd un yn gweithio mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg. Athrawes ymgynghorol gydag awdurdod lleol, nid athrawes mewn gwasanaeth, oedd yr wythfed unigolyn a gymerodd ran.

2.13 Roedd gan bump o'r rhai a gymerodd ran gymwysterau lefel Meistr, a chwblhaodd un arall radd Meistr yn ystod y cynllun peilot. Er na chafodd ei gyflwyno fel rhagofyniad yn y wybodaeth i athrawon am y cynllun peilot, mae'n amlwg yr ystyriwyd hyn yn ffactor pwysig wrth asesu'r ceisiadau.

2.14 Penodwyd dau ymgynghorydd/aseswr i gynorthwyo'r athrawon wrth baratoi eu portffolios a'u hadroddiadau adfyfyriol. Roedd y rhain yn weithwyr proffesiynol ym maes addysg uwch (ac yn gyn athrawon) profiadol, oedd â hanes hir o lwyddiant ym meysydd addysgu athrawon a datblygiad

proffesiynol parhaus. Roedd y ddau hefyd wedi cymryd rhan mewn datblygu Fframwaith Datblygiad Proffesiynol CyngACC.

2.15 Mae'r crynodeb canlynol yn nodi'r drefn amser a'r broses yr aeth yr athrawon drwyddi wrth baratoi'r portffolios a'r adroddiadau adfyfyriol:

- Dynodwyd ymgynghorydd i bob athro/athrawes i weithio gydag ef/gyda hi wrth baratoi'r portffolio a'r adroddiad adfyfyriol.

- Mynychodd yr athrawon a'r ymgynghorwyr ddwy sesiwn hanner diwrnod ar ddechrau'r llwybr lle'r esboniodd yr ymgynghorwyr fanylion y cynllun peilot a'r deunyddiau/strwythurau cymorth oedd ar gael i'w cynorthwyo.

- Yna rhoddwyd trefniadau tiwtorial i bob athro/athrawes, wedi'u seilio ar hawl dynodol i bedwar tiwtorial hanner diwrnod rhwng mis Mawrth a mis Hydref 2008. Ym mhob tiwtorial, roedd yn ofynnol i'r athrawon gyflwyno dogfennau drafft i'w Hymgynghorydd i gael eu trafod ac i gael rhagor o gyfarwyddyd.

- Ym mis Hydref 2008 cydgyfarfu'r athrawon a'r ymgynghorwyr am ddiwrnod cyfan i adolygu'r datblygiadau mewn perthynas â chasglu tystiolaeth i'r portffolio a chynhyrchu'r adroddiadau adfyfyriol.

- Erbyn dyddiad cyflwyno penodedig a phan farnwyd bod y portffolios a'r adroddiadau adfyfyriol o safon briodol, byddai'r dogfennau wedyn yn cael eu trosglwyddo i'r Aseswr i gael eu hystyried yn erbyn y Safonau ar gyfer Athro Siartredig. Roedd yr Aseswyr yn cydweithio'n agos i sicrhau dulliau cyffredin.

2.16 Roedd pob un o'r ymgynghorwyr/aseswyr a benodwyd yn cynorthwyo pedwar athro yn y rôl ymgynghorol ac yna'n asesu'r pedwar athro arall.

2.17 Datblygwyd deunyddiau cymorth i'r athrawon ac roeddent ar gael ar fformat electronig ac ar bapur. Roeddent yn rhoi cyfarwyddyd ar:

- Y math o dystiolaeth i gael ei chyflwyno yn y portffolio.
- Sut y dylid cysylltu'r dystiolaeth â'r Safonau ar gyfer AS.
- Y fformat y gellid cyflwyno'r dystiolaeth yn fwyaf effeithiol ynddo.
- Ffyrdd y gellir defnyddio ffynonellau cyhoeddedig.
- Strategaethau oedd ar gael i werthuso effeithiolrwydd y dystiolaeth.
- Dulliau o ddarparu dadansoddiad adfyfyriol o'r dysgu a wnaethpwyd.

- Ffyrdd y gellir datblygu tystiolaeth a dysgu er mwyn ymestyn dysgu ymhellach ac effeithio ar ymarfer.
- Cysoni'r gwaith oedd i'w wneud â lefel gradd Meistr.
- Cyfarwyddyd ar ddarllen pellach a chyfeiriadau academaidd.

2.18 O'r wyth athro a gymerodd y Llwybr Portffolio, cyflwynodd saith bortffolios. Aseswyd bod pump o'r saith a gyflwynwyd wedi cyrraedd y safon a bod y ddau arall heb wneud hynny.

Y Llwybr Rhaglen

2.19 Treialodd CyngACC 10 modiwl o'r Llwybr Rhaglen: 5 yn 2007/08 a'r 5 arall yn 2008/09. Cafodd chwech o'r deg eu peilota fel Modiwlau Craidd, gyda dau ohonynt yn cael eu cynnig ar yr un pryd ond gan ddarparwyr gwahanol, a chafodd y 4 arall eu peilota fel Modiwlau Dewisol. Penderfynwyd peidio â pheilota'r prosiect seiliedig ar waith.

2.20 Mae'r grid isod yn rhoi manylion y modiwlau a gynigiwyd ym mhob blwyddyn o'r cynllun peilot ar gyfer y Llwybr Rhaglen. Mae (C) yn nodi bod y modiwl wedi cael ei beilota fel Modiwl Craidd:

2007-08

Modiwl	Darparwr	Nifer yr athrawon a gymerodd ran
Datrys wrth Drafod	Prifysgol Fetropolitan Abertawe / Prifysgol Glyndŵr a'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol	13 yn Abertawe 12 ym Mhrifysgol Glyndŵr
Gwella Arfer drwy Ymchwil Gweithredol	Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd	9
Addysg i Bawb (C)	Prifysgol Cymru, Casnewydd, Awdurdodau Lleol Casnewydd a Thorfaen	9
Hunanwerthuso ac Adfyfyrio (C)	Consortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru (SWAMWAC) a Choleg y Drindod, Caerfyrddin	11
Hunanwerthuso ac Adfyfyrio (C)	Prifysgol Caerdydd ac Awdurdod Lleol Blaenau Gwent	10

2008-09

Modiwl	Darparwr	Nifer yr athrawon a gymerodd ran
Iaith a Methodoleg: Cymraeg fel Ail Iaith	Prifysgol Bangor, Awdurdodau Lleol Sir Ddinbych a Wrecsam	10
Dysgu, Addysgu ac Asesu (C)	ESIS a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe	15
Cymhwyso TGCh mewn Dysgu ac Addysgu gyda golwg ar Addysgeg	Prifysgol Morgannwg ac ESIS	13
Dysgu, Addysgu ac Asesu (C)	Prifysgol Caerdydd ac Awdurdod Lleol Blaenau Gwent	8
Arwain y Dysgu (C)	SWAMWAC a Choleg y Drindod, Caerfyrddin	12

2.21 Rhoddir mwy o fanylion dangosol am bob un o'r modiwlau hyn yn Atodiad 2

2.22 Roedd y berthynas rhwng y modiwlau hyn a'r ffordd yr oedd y darparwyr yn ceisio rhoi sylw i'r safonau ar gyfer AS yn amrywio'n fawr. O'r 28 o feysydd yn y safonau, roedd un modiwl yn ceisio rhoi sylw i 23, ac ar y pegwn arall roedd modiwl arall yn ceisio rhoi sylw i ddim ond 4 o'r safonau.

2.23 Roedd y credydau academaidd a gynigiwyd ar gyfer pob un o'r modiwlau fel isod:

Darparwr	Modiwl	Credydau
Prifysgol Fetropolitan Abertawe, Prifysgol Glyndŵr a'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol	Datrys wrth Drafod	20 credyd ar lefel 6 (Diploma i Raddedigion) neu 15 credyd ar lefel 7 (gradd Meistr).
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd	Gwella Arfer drwy Ymchwil Gweithredol	15 credyd ar lefel 7.
Prifysgol Cymru, Casnewydd, Awdurdodau Lleol Casnewydd a Thorfaen	Addysg i Bawb	15 credyd ar lefel 6
Consortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru (SWAMWAC) a Choleg y Drindod, Caerfyrddin	Hunanwerthuso ac Adfyfyrio	30 credyd ar lefel 6
Prifysgol Caerdydd ac Awdurdod Lleol Blaenau Gwent	Hunanwerthuso ac Adfyfyrio	15 credyd ar lefel 7 (gyda'r modiwl Dysgu, Addysgu ac Asesu isod)
Prifysgol Bangor,	Cymraeg fel Ail Iaith	30 credyd ar lefel 7

Awdurdodau Lleol Sir Ddinbych a Wrecsam		
Prifysgol Fetropolitan Abertawe ac ESIS	Dysgu, Addysgu ac Asesu	20 credyd ar lefel 6 neu 15 credyd ar lefel 7
Prifysgol Morgannwg ac ESIS	Cymhwyso TGCh mewn Dysgu ac Addysgu gyda golwg ar Addysgeg	20 credyd ar lefel 7
Prifysgol Caerdydd ac Awdurdod Lleol Blaenau Gwent	Dysgu, Addysgu ac Asesu	Gweler uchod
SWAMWAC a Choleg y Drindod, Caerfyrddin	Arwain y Dysgu	20 credyd ar lefel 6

2.24 O'r 114 o athrawon a gofrestrodd ar gyfer y modiwlau hyn, cwblhaodd tua 90% hwy. O'i chymharu â mathau eraill o ddatblygiad proffesiynol athrawon, mae hon yn gyfradd gwblhau uchel.

Cymorth Ariannol

2.25 Gan fod y darparwyr (ar gyfer y Llwybr Rhaglen) a'r ymgynghorwyr/aseswyr (ar gyfer y Llwybr Portffolio) yn cael eu hariannu'n uniongyrchol gan CyngACC, ni fu'n rhaid i'r athrawon dalu unrhyw gostau cyrsiau na chostau dysgu.

2.26 Roedd CyngACC yn talu costau eraill yr oedd yr athrawon yn debygol o fynd iddynt, o dan yr amodau canlynol:

- Ar y Llwybr Rhaglen, costau staff cyflenwi ar £155(2007/08) a £165 (2008/09) y diwrnod am hyd at bum diwrnod, i ganiatáu mynychu sesiynau a diwrnodau astudio a threuliau teithio a chynhaliaeth rhesymol.
- Ar gyfer y Llwybr Portffolio, costau staff cyflenwi ar £155 (2007/08) a £165(2008/09) y diwrnod am hyd at ddeg diwrnod, gan gynnwys amser i gyfarfod â'r ymgynghorydd/aseswr ac amser i baratoi'r portffolio a threuliau teithio a chynhaliaeth rhesymol.

Ennill Statws Athro Siartredig

2.27 Datganodd CyngACC yn glir i bawb a oedd yn cymryd rhan ar y ddau lwybr na fyddai eu cwblhau'n llwyddiannus yn arwain at statws AS ar hyn o bryd, o gofio natur y cynllun peilot. Fodd bynnag, byddai credydau Addysg Uwch ar y lefelau a nodir yn 2.23 uchod ar gael. Datganwyd yn glir hefyd, pe byddid yn bwrw ymlaen â'r Rhaglen AS ar ôl y cynllun peilot, y gallai unrhyw

fodiwlau a gâi eu cwblhau a chanlyniadau achredu'r portffolios, gael eu cydnabod fel rhan o ennill statws AS trwy achredu dysgu blaenorol.

2.28 Yn y cyd-destun hwn mae'n werth nodi bod natur y cynllun peilot o'r fath fel nad oedd yn glir i'r sawl a gymerodd ran ar ba fformat y câi'r Rhaglen AS derfynol ei chynnig, pe bai'n cael ei chynnig o gwbl.

3. METHODOLEG Y GWERTHUSIAD

Amcanion a Gofynion

3.1 Roedd CyngACC yn dymuno i'r gwerthusiad fod ag:

- **Elfen grynodol**, i alluogi'r Cyngor i ddangos atebolrwydd a gwerth am arian.

- **Elfen ffurfiannol**, i ymchwilio i'r gwelliannau y mae eu hangen o ran cynllunio a chyflenwi, ac i nodi gwersi ar gyfer y dyfodol ac arferion da y gellir eu lledaenu'n eang.

3.2 Roedd y tendr llwyddiannus ar gyfer y gwerthusiad yn nodi mai ei **amcanion** oedd canfod:

- I ba raddau mae amcanion y rhaglen beilot wedi cael eu cyflawni.
- Pa mor effeithlon, effeithiol a phriodol oedd y ffordd y cafodd y rhaglen beilot ei chynllunio a'i chyflenwi.
- I ba raddau y mae'r rhaglen beilot yn berthnasol i ddysgu yn y dosbarth ac addysgeg addysgu.
- Beth yw cyfraniad y rhaglen at ddatblygiad ac ymarfer proffesiynol y rhai a gymerodd ran.
- I ba raddau y mae cydbwysedd priodol rhwng damcaniaeth addysgol ac ymarfer proffesiynol yn dod i'r amlwg o'r partneriaethau darparwyr.
- I ba raddau y gellir barnu bod y rhaglen yn cyfrannu at wella ysgolion ac effeithiolrwydd ysgolion.
- Beth yw cyfraniad y cynllun peilot i ddatblygu ymagweddau at arweinyddiaeth wasgaredig.
- I ba raddau y mae'r rhaglen wedi arwain at greu cymuned ddysgu broffesiynol o Athrawon Siartredig.
- I ba raddau, yn gyffredinol, mae'r buddion canfyddedig i'r rhai a gymerodd ran (athrawon dosbarth ac arweinwyr canol profiadol) wedi cael eu cyflawni.

3.3 Cytunwyd mai **gofynion** y gwerthusiad oedd:

- Casglu tystiolaeth am ganfyddiadau'r rhai a gymerodd ran am eu rhan yn y rhaglen.
- Canfod barn y rhai a gymerodd ran am feysydd y gellid, o bosibl, eu gwella.
- Darparu adborth ffurfiannol i swyddogion y Cyngor er mwyn sicrhau bod gwersi allweddol yn cael eu dysgu o'r rhaglen beilot a bod arferion gorau'n cael eu nodi a'u lledaenu.
- Darparu gwerthusiad crynodol o'r ffordd y cynhaliwyd y cynllun peilot ac argymhellion ar gyfer datblygu'r rhaglen AS ymhellach.
- Canfod y materion allweddol mewn perthynas â nodau'r rhaglen AS brif ffrwd arfaethedig, a'r strwythur, cynnwys, addysgeg ac asesu a gynigir ar ei chyfer.

3.4 Cytunwyd y byddai hyn yn galw am **ganolbwyntio** ar:

- Cynllun cyffredinol y rhaglen beilot yn nhermau pa mor effeithlon ac effeithiol yw hi.
- Gallu'r rhaglen beilot i ddiwallu anghenion y gynulleidfa darged a'r gwahanol is-gategorïau o athrawon ynddi.
- Pa mor dda mae'r rhaglen beilot yn ymateb i anghenion dysgu proffesiynol y rhai a fyddai'n cymryd rhan, yn nhermau cydlyniaeth, dilyniant, hyblygrwydd a dewis.
- Cwmpas cyffredinol, hyd, lefel yr her a'r oriau dysgu arfaethedig.
- Y modd y caiff y modiwlau penodol yn y Llwybr Rhaglen eu cynllunio a'u cyflenwi.
- Asesu'r athrawon ar y rhaglen beilot yn erbyn y safonau ar gyfer AS.
- Y safonau ar gyfer AS a pha mor addas ydynt i'r diben.
- Achredu modiwlau gan sefydliadau addysg uwch, y lefel y cânt eu hasesu arni, a'r credydau a ddyfernir.
- Bodolaeth y ddau lwybr at ennill statws AS a'r berthynas rhyngddynt.
- Pa mor ddilys a dibynadwy yw'r ffordd y caiff athrawon eu paratoi a'u hasesu ar y Llwybr Portffolio.
- Effaith y rhaglen beilot ar ddysgu, ymarfer ac ymrwymiad proffesiynol yr athrawon.
- Y ffordd y caiff y rhaglen ei rheoli trwy berthnasoedd contractiol gyda rhwydwaith o ddarparwyr a sefydliadau partner.
- Cynllun arfaethedig y Rhaglen AS brif ffrwd.
- Cynigion ar gyfer cyflenwi hyfforddiant ac asesiad, achrediad darparwyr a threfniadau sicrhau ansawdd wrth i'r Cyngor baratoi i brif ffrydio'r rhaglen ar gyfer athrawon ledled Cymru.

3.5 Roedd y tîm gwerthuso hefyd yn cydnabod **pwysigrwydd** y Rhaglen Beilot AS i Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a Strategaeth Addysgeg Genedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Byddai'r gwerthusiad, felly, yn adlewyrchu cysoni posibl gyda'r meysydd polisi allweddol hyn o eiddo Llywodraeth y Cynulliad.

Y methodolegau a ddefnyddiwyd

3.6 Dyma'r **methodolegau ymchwil** a ddefnyddiwyd wrth wneud y gwerthusiad:

- Adolygiad o'r polisi a thystiolaeth ymchwil berthnasol.
- Arolwg holiadur o'r holl rai a gymerodd ran.
- Cyfweliadau wyneb yn wyneb gyda sampl o'r holl rai a gymerodd ran a'r holl ddarparwyr.
- Cyfweliadau dros y ffôn gyda sampl o'r rhai a gymerodd ran.
- Arsylwi ar sesiynau addysgu ar gyfer rhai modiwlau ar y Llwybr Rhaglen.
- Ystyried dogfennau'r modiwlau/llwybrau.
- Ystyried adroddiadau rheoli i CyngACC oddi wrth y darparwyr.
- Mynychu cyfarfodydd darparwyr.
- Cyfweliad gyda grŵp o Gyfarwyddwyr Addysg.

3.7 Gwnaethpwyd yr **adolygiad o'r polisi a thystiolaeth ymchwil berthnasol** er mwyn ymgyfarwyddo â'r:

- Dogfennau oedd yn ymwneud â'r Cynllun Peilot AS a Fframwaith Datblygiad Proffesiynol ehangach CyngACC.
- Meysydd polisi cysylltiedig sy'n cael eu datblygu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gan gynnwys y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Strategaeth Addysgeg.
- Tystiolaeth yn ymwneud â'r Rhaglen AS yn yr Alban ac ymdrechion eraill i roi sylw i faterion sy'n ymwneud â chanfod beth yw 'addysgu medrus' a'i gydnabod.
- Y cyd-destun ehangach ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.

3.8 Mae canlyniadau'r adolygiad hwn wedi cael eu nodi yn adran 4 o'r adroddiad hwn isod.

Y Llwybr Portffolio

3.9 Mewn perthynas â'r **Llwybr Portffolio** mae'r gwerthusiad wedi'i seilio ar:

- **Cyfweliadau wyneb yn wyneb** gyda chwech o'r wyth athro (75% o'r holl athrawon) a gymerodd ran. Cynhaliwyd y cyfweliadau gan ddefnyddio technegau cyfweld lled-strwythuredig wedi'u seilio ar y Safonau ar gyfer AS a'r amcanion ar gyfer y llwybr. Roedd y chwe athro a holwyd yn cynnwys un yr aseswyd nad oedd wedi llwyddo i gyrraedd y safon. Roedd y ddau nas holwyd yn cynnwys yr unig athro oedd heb gyflwyno portffolio a'r athro arall yr aseswyd nad oedd wedi cyrraedd y safon. Er ceisio cysylltu â'r athrawon hyn nifer o weithiau er mwyn trefnu cyfweliadau, ni lwyddwyd i wneud hynny.

- **Archwilio'r portffolios a'r adroddiadau adfyfyriol** a baratowyd gan y saith athro oedd wedi'u cyflwyno i CyngACC, ac adroddiadau eu hymgynghorwyr/aseswyr.

- **Cyfweliadau wyneb yn wyneb** gyda'r ddau ymgynghorydd/aseswr a benodwyd gan CyngACC. Unwaith eto câi technegau cyfweld lled-strwythuredig eu defnyddio gan gyfeirio at y Safonau ar gyfer AS a chan ymchwilio i'r ffordd yr oedd yr ymgynghorwyr/aseswyr wedi defnyddio'r rhain.

- **Arsylwi** ar gyfarfod rhwng y ddau ymgynghorydd/aseswr a'r wyth athro ar adeg yng nghanol y rhaglen pan oeddent yn ystyried dethol tystiolaeth ar gyfer y portffolio i adlewyrchu'r Safonau ar gyfer AS.

- Ystyried y **dogfennau** oedd ar gael i'r rhai a gymerodd ran i roi canllawiau iddynt ar baratoi eu portffolios a'u hadroddiadau adfyfyriol.

Y Llwybr Rhaglen

3.10 Yn achos y **Llwybr Rhaglen** cafodd pob modiwl ei werthuso gan ddefnyddio'r methodolegau canlynol:

- Archwilio a dadansoddi data rheoli'r rhaglen.
- Canlyniadau holiadur i'r holl rai a gymerodd ran.
- Cyfweliadau lled-strwythuredig gyda sampl o'r rhai a gymerodd ran.
- Lle'r oedd modd, arsylwi'n uniongyrchol ar gyflenwi'r rhaglen.
- Archwilio a dadansoddi dogfennau'r rhaglen a gynhyrchwyd gan y darparwyr.
- Cyfweliadau lled-strwythuredig gyda staff oedd yn cyflenwi'r rhaglen.

3.11 Cafodd **data rheoli'r rhaglen,** gan gynnwys adroddiadau a gynhyrchwyd i CyngACC gan ddarparwyr modiwlau, ei ystyried drwy gydol oes y gwerthusiad a'i ddefnyddio i ddarparu data cyffredinol am y rhai oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen AS.

3.12 Anfonwyd **holiaduron** i bawb a gymerodd ran yng nghynllun peilot y Llwybr Rhaglen. Datblygwyd templed cyffredinol gan y Tîm Gwerthuso a chytunwyd arno gyda Swyddogion CyngACC. Cafodd y templed hwn ei seilio ar y Safonau ar gyfer AS. Yna cynhyrchwyd fersiwn bwrpasol o'r holiadur ar gyfer pob un o'r modiwlau, gan gynnwys cwestiynau oedd yn gyffredinol i bob modiwl a chwestiynau oedd yn ymwneud yn benodol â'r safonau yr oedd y modiwlau unigol yn eu targedu. Cafodd yr holiaduron eu gweinyddu ar ôl i'r modiwlau gael eu cwblhau. Fe'u hanfonwyd at yr athrawon yn eu cyfeiriadau cartref. Pan wnaethpwyd cais trefnwyd bod yr holiaduron ar gael i'w cwblhau ar lein. O gofio bod CyngACC wedi'i gwneud yn ofynnol i'r holl rai a gymerodd ran gwblhau'r holiaduron, y targed oedd i 80% ohonynt gael eu dychwelyd. Mewn gwirionedd dychwelyd 66% yn gyffredinol. 92% oedd y ganran uchaf a ddychwelwyd ar gyfer y deng modiwl ac 17% oedd yr ymateb isaf. Dim ond gyda dau fodiwl y cafodd llai na 50% o'r holiaduron eu dychwelyd. Felly, er na chyrhaeddwyd y ffigur targed, roedd yr ymateb yn gyffredinol ac ar gyfer naw o'r deng modiwl yn gymharol uchel ac mae'n golygu y gellir dod i gasgliadau cadarn o'r dystiolaeth hon. Gellir gweld copi o'r templed holiadur cyffredinol yn Atodiad 3.

3.13 Cynhaliwyd **cyfweliadau lled-strwythuredig** gyda sampl o'r holl boblogaeth o 122 o athrawon a gofrestrodd ar gyfer cynllun peilot y Llwybr Rhaglen gyda'r darparwyr. Gwnaethpwyd y samplu hyn ym mhob modiwl. O gofio nad oedd y boblogaeth yr un peth ond yn achos dau fodiwl, a bod athrawon gwahanol wedi cael eu holi yn yr achosion hyn, holwyd tua 50% o'r rhai a gymerodd ran. Cafodd y samplu ei haenu er mwyn cynrychioli gwahanol nodweddion y boblogaeth gyfan:

- Ym mhob modiwl.
- Athrawon ysgolion cynradd / uwchradd / arbennig.
- Athrawon cyfrwng Saesneg / Cymraeg.
- Rhyw.
- Dosbarthiad daearyddol.

Roedd yr offeryn ar gyfer y cyfweliadau lled-strwythuredig wedi'i seilio ar y Safonau ar gyfer AS. Fe'i lluniwyd gan y Tîm Gwerthuso a chytunwyd arno gyda swyddogion

CyngACC cyn ei ddefnyddio. Cafodd tua thraean o'r cyfweliadau eu cynnal wyneb yn wyneb a'r ddau draean arall dros y ffôn.

3.14 Cafwyd **arsylwi uniongyrchol ar gyflenwi'r rhaglen** ar gyfer wyth o'r deng modiwl. Mewn un achos roedd cyfnod cyswllt y modiwl wedi cael ei gwblhau cyn i'r contract am y gwerthusiad gael ei ddyfarnu, ac yn yr achos arall ni fu modd cael hyd i amser oedd yn gyfleus i'r ddwy ochr.

3.15 Cafodd **Dogfennau'r Rhaglen** a oedd ym meddiant y darparwyr eu harchwilio a'u dadansoddi ar gyfer naw o'r deng modiwl. Yn yr achos lle na wnaethpwyd hyn, y rheswm oedd bod y darparwr wedi gwrthod rhannu'r dogfennau hyn gyda'r tîm gwerthuso.

3.16 Cynhaliwyd **cyfweliadau lled-strwythuredig gyda staff cyflenwi'r rhaglen** ar gyfer pob un o'r deng modiwl. Fel arfer cynhaliwyd y rhain fel cyfweliadau grŵp gyda'r staff hynny oedd ar gael oedd wedi cymryd rhan yn ei chyflenwi. Roedd y cyfweliadau wedi'u seilio ar ffurflen a luniwyd gan y Tîm Gwerthuso ac y cytunwyd arni gyda Swyddogion CyngACC. Roedd y ffurflen wedi'i seilio ar y Safonau ar gyfer AS ac amcanion y modiwl dan sylw.

3.17 Ar sail y methodolegau a nodir yn 3.11 i 3.16 uchod, lluniwyd adroddiad gwerthuso ar gyfer pob modiwl. Cynhyrchwyd y rhain yn unol â thempled a grëwyd gan y Tîm Gwerthuso er mwyn sicrhau cysondeb o ran adrodd. Roedd y templed yn adlewyrchu'r Safonau ar gyfer AS, amcanion y modiwl ac amcanion y gwerthusiad. Nid oedd Cyfarwyddwr y Prosiect yn ymwneud mewn unrhyw ffordd â gwerthuso'r modiwl a ddarparwyd gan Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd.

Agweddau eraill ar y Gwerthusiad

3.18 Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd rhwng Cyfarwyddwr y Prosiect a Swyddogion CyngACC i rannu'r canfyddiadau oedd yn dod i'r amlwg ac i ystyried datblygiadau eraill.

3.19 Mynychwyd dau gyfarfod gyda darparwyr. Roedd un, a drefnwyd gan CyngACC yn haf 2008, yn galluogi darparwyr i roi cyflwyniadau ar y modiwlau a gynigiwyd ym mlwyddyn academaidd 2008/09 ac i ystyried materion oedd yn codi. Roedd y llall, a drefnwyd gan y Tîm Gwerthuso ym mis Mehefin 2009, yn caniatáu i faterion oedd yn dod i'r amlwg gael eu cyflwyno a'u trafod.

3.20 Yn unol ag awgrym gan Gyfarwyddwr y Prosiect, gofynnwyd am farn Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru am y canfyddiadau oedd yn dod i'r amlwg, mewn cyfarfod ym mis Mehefin 2009.

Y Tîm Gwerthuso

3.21 Isod mae aelodau'r Tîm Gwerthuso:

- Yr Athro David Egan, Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd (Cyfarwyddwr y Prosiect)
- Mike Griffiths, Pennaeth, Ysgol Uwchradd Caerdydd, Caerdydd
- Frances Charles, Athrawes Blynyddoedd Cynnar, Ysgol Evan James, Pontypridd.
- Emmajane Milton, Dirprwy Bennaeth, Canolfan Blant Integredig Dyffryn, Casnewydd.
- Rhian Morgan, Pennaeth Ieithoedd Tramor Modern, Ysgol Bro Morgannwg, Y Barri.

.

4 ADOLYGIAD O BOLISI A THYSTIOLAETH YMCHWIL

Ansawdd Athrawon

4.1Mae ymchwil ryngwladol helaeth ym maes addysg yn awgrymu mai ansawdd addysgu yw'r ffactor pwysicaf sy'n dylanwadu ar gyflawniad myfyrwyr unigol a pherfformiad ysgolion a systemau (Greenwald, Hedges a Laine, 1996; Rowe, 2003; Hattie, 2003, 2007; OECD, 1994, 2005; Barber a Mourshed, 2007; Dinham, Ingvarson a Kleinhenz, 2008; Slater, Davies a Burgess, 2009).

4.1 Mae Dinham, Ingvarson a Kleinhenz yn cyfleu hyn yn eu hastudiaeth o 2008 pan maent yn dadlau 'the quality of what teachers know and can do is fundamental in a way that no other resource is in education' (Dinham, Ingvarson a Kleinhenz, 2008, 42). Maent yn cyfeirio at dystiolaeth sy'n cefnogi'r gosodiad bod ansawdd athrawon, o'i gymharu â chyfranwyr pwysig eraill at gynnydd addysgol megis datblygiadau yn y cwricwlwm, technolegau newydd, diwygiadau strwythurol ac ad-drefnu ysgolion, lleihau maint dosbarthiadau a chynyddu gwariant ar addysg, yn hollbwysig a bod yr holl feysydd eraill hyn yn y pen draw yn dibynnu ar ei fodolaeth.

4.2 Mae gwaith Barber a Mourshed ar y rhesymau pam y gall rhai gwledydd sicrhau lefelau uwch yn gyson o ran perfformiad myfyrwyr a systemau o'u systemau addysg o'u cymharu â chenhedloedd eraill yn cefnogi'r gosodiad hwn. Eu casgliad hwy yw 'the quality of an education system cannot exceed the quality of its teachers' (Barber a Mourshed, 2007, 16).

4.3 Mae'r rhain ac astudiaethau eraill yn y maes hefyd yn cytuno ar y rhan hanfodol bwysig sydd gan arweinyddiaeth ysgolion i'w chwarae wrth flaenoriaethu a datblygu ansawdd athrawon (Leithwood et al, 2006; Hopkins, 2007; Higham, Hopkins ac Ahtaridou, 2007; Caldwell a Harris, 2008). Er bod hyn yn ei gwneud yn ofynnol i uwch arweinwyr, ar lefel penaethiaid a dirprwy benaethiaid, ganolbwyntio ar bwysigrwydd dysgu ac addysgu yn eu hysgolion, mae datblygu mathau gwasgaredig o arweinyddiaeth yn cynnig cyfleoedd penodol ar gyfer arweinyddiaeth o fath newydd yn y system (Harris, 2008).

4.4 Mae adroddiad Barber a Mourshed i McKinsey and Company yn 2007 yn awgrymu bod systemau addysg llwyddiannus yn gwella ansawdd athrawon trwy:

- Recriwtio ymgeiswyr o ansawdd da i faes addysgu a rhoi hyfforddiant cychwynnol ardderchog iddynt.

- Datblygiad proffesiynol o ansawdd da sy'n hybu safonau cadarn o addysgeg athrawon.
- System o ddysgu personol lle gall pob plentyn fanteisio ar ddysgu ac addysgu o ansawdd da.

Datblygiad Proffesiynol Parhaus Athrawon

4.5 Mae'r ail ganfyddiad uchod yn cael ei gefnogi gan gorff cynyddol o dystiolaeth ynglŷn â pha mor bwysig yw datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) i wella ansawdd athrawon (Harland a Kidner, 1997; Hustler et al, 2003; Cordingley et al, 2003; Goodall et al, 2005; Moor et al, 2005; Estyn, 2005; Bolam a Weindling 2006; Ofsted, 2006; Yr Asiantaeth Datblygu Athrawon, 2007; Robinson et al, 2008). Er bod y drafodaeth yn parhau ynglŷn â rhinweddau cymharol mathau o DPP sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a mathau cydweithredol (Field, 2005), gellir ystyried bod y dystiolaeth at ei gilydd yn cefnogi'r gosodiad bod mathau cydweithredol o DPP athrawon yn fwy cost effeithiol ac yn cynhyrchu canlyniadau cryfach mewn perthynas ag ansawdd athrawon a pherfformiad myfyrwyr.

4.6 Mae'r safbwynt hwn yn cael ei gyfleu'n arbennig yng ngwaith Richard Elmore. Mae ef yn dadlau fel a ganlyn:

> ''Professional development, in the consensus view, should be designed to develop the capacity of teachers to work collectively on problems of practice within their own schools and with practitioners in other settings, as much as to support the knowledge and skill development of individual educators. This view derives from the assumption that learning is essentially a collaborative rather than an individual activity – that educators learn more powerfully in concert with others who are struggling with the same problems - and that the essential purpose of professional development should be the improvement of schools and school systems, not just the improvement of the individuals who work in them.'' (Elmore, 2004, 96)

4.7 Mae'r lleoliad ar gyfer DPP hefyd yn hanfodol bwysig i Elmore:

> ''Successful professional development is likely to occur in schools and classroom settings rather than off-site and it is likely to involve work with individual teachers or similar groups around the observation of actual teaching. Proximity to practice also requires that the pedagogy of professional developers be as consonant as possible with pedagogy that they expect from educators. It has to involve professional developers who, through expert practice, can model what they expect of the people with whom they are working.'' (Elmore, 2004, 97)

4.8 Yn y llenyddiaeth ar DPP cydweithredol effeithiol, mae rôl arweinyddiaeth ar lefel yr ysgol hefyd yn cael ei datgan yn gryf. Yn yr Alban, er enghraifft, yn y model arfaethedig ar gyfer DPP athrawon sy'n cael ei ddatblygu gan Teaching Scotland ar ran Gweithrediaeth yr Alban, ystyrir cam uchaf DPP athrawon yn un o 'arloesi a chreu' lle mae athrawon yn dod yn arweinwyr ar gyfer dysgu, hyfforddi a mentora cydweithwyr a datblygu ac arwain timau (Teaching in Scotland, 2007).

4.9 Yn Awstralia mae hyn wedi cael ei ystyried yn 'arweinyddiaeth ar lefel y proffesiwn' sy'n cydnabod bod athrawon yn llawer mwy tebygol o droi 'to expert teachers who teach in the same field... for new ideas and examples of successful practice' (Dinham, Ingvarson a Kleinhenz, 2008, 11). Mae hyn yn arwain yr ymchwilwyr hyn i gynnig y dylid sefydlu grŵp ar wahân o'r hyn y maent yn eu galw'n 'Athrawon Arweiniol' ym mhroffesiwn addysgu Awstralia. Byddai'r Athrawon Arweiniol hyn yn 'lead and manage colleagues in successful initiatives to improve student learning and welfare' (Dinham, Ingvarson a Kleinhenz, 2008, 33).

4.10 Mae cysyniad tebyg hefyd yn cael ei ddatblygu yn Ontario, lle gall athrawon profiadol sydd â diddordeb mewn rhannu eu hymarfer gydag eraill fanteisio ar Raglen Dysgu ac Arweinyddiaeth Athrawon sy'n rhoi cyfleoedd iddynt gyflawni rôl o'r fath fel rhan o'u gweithgareddau addysgu rheolaidd (Ontario Ministry of Education, 2008).

4.11 Mae cyflawni rôl o'r fath wrth arwain DPP cydweithredol mewn ysgolion yn aml yn cael ei gysylltu â chysyniad datblygu cymunedau ymarfer (Wenger, 1998) ac, yn arbennig, Cymunedau Dysgu Proffesiynol, lle mae ymarfer effeithiol yn cael ei rannu a'i ddatblygu er mwyn lleihau amrywiadau yn ansawdd addysgu a chyflawniad myfyrwyr y tu mewn i'r un ysgol (Hopkins, 2007; Stoll, 2003).

4.12 I Elmore, sydd wedi datblygu'r syniad o 'rowndiau meddygol' yn fwy diweddar, lle mae grwpiau o ymarferwyr arbenigol yn cydweithio i arsylwi ar ymarfer effeithiol mewn ysgolion go iawn o dan arweinyddiaeth a chyfarwyddyd yr ymarferydd arweiniol yn yr ysgol (Elmore, 2007), mae rôl yr arweinwyr DPP hyn ar lefel yr ysgol yn hanfodol bwysig i wella systemau. Mae ef yn dadlau fel a ganlyn:

> ''To improve themselves, systems need to be able to identify people who know what to do, to develop the capacity of those in the organisation to learn what to do and to create settings in which people who know what to do to teach those who don't. Instructional expertise is a key element of organisational capacity in regard to the use of professional development.'' (Elmore, 2004)

Adnabod a datblygu athrawon arbenigol

4.13 Mae nifer o systemau addysg yn ceisio, mewn ffyrdd gwahanol, datblygu cysyniad arweinyddiaeth ym meysydd DPP ac addysgeg athrawon. Yn rhyngwladol cyfeiriwyd eisoes at enghraifft **Awstralia** ac mae'n werth egluro ymhellach. Mae'r gwaith sydd ar y gweill yno wedi'i seilio ar y gred y gall y proffesiwn addysgu yn gyffredinol ddiffinio ansawdd athrawon, casglu tystiolaeth arno a'i asesu'n ddilys ac yn ddibynadwy (Ingvarson a Kleinhenz, 2006; Ingvarson a Rowe, 2008). Mae'r priodoleddau addysgu o ansawdd da a nodwyd fel a ganlyn (Dinham, 2002):

1. Llawer iawn o wybodaeth, dychymyg, brwdfrydedd dros eu maes, a chred ynddo.
2. Uchelgais mawr i symud dysgu eu myfyrwyr unigol ymlaen, ac ymrwymiad i hyn sy'n bwysicach na dim byd arall.
3. Detholiad toreithiog o sgiliau, dulliau ac ymagweddau, wedi'u meithrin dros flynyddoedd o brofiad, y gallant fanteisio arnynt i ddarparu'r 'cymysgedd' iawn ar gyfer anghenion penodol myfyrwyr unigol.
4. Dealltwriaeth fanwl o'r cyd-destun maent yn gweithio ynddo; o ddisgwyliadau penodol y gymuned; ac o anghenion y garfan o fyfyrwyr maent yn gyfrifol amdanynt.
5. Y gallu i ymateb yn briodol i fyfyrwyr, yn unigol a gyda'i gilydd, ac i'r cyd-destun, trwy eu hymarfer addysgu.
6. Gwrthod gadael i unrhyw beth rwystro eu dysgu eu hunain na dysgu eu myfyrwyr, a'r hyn maent yn credu y mae angen mynd i'r afael ag ef.
7. Llawer iawn o barch a hyd yn oed hoffter oddi wrth eu myfyrwyr a'u cydweithwyr, sy'n deillio o'u gwaith caled a'u proffesiynoldeb.
8. Gallu mawr i gyflawni dysgu proffesiynol trwy gymryd rhan o'i ben a'i bastwn ei hun mewn gwahanol gyfuniadau o weithgareddau datblygiad proffesiynol, rhai a ddarperir gan yr awdurdod sy'n ei gyflogi a rhai y mae'r unigolyn ei hun wedi chwilio amdanynt.
9. Gallu mawr i gyfrannu at ddysgu proffesiynol pobl eraill, a pharodrwydd i wneud hynny.
10. Arweinyddiaeth foesol a phroffesiynoldeb; maent yn enghreifftio gwerthoedd da a rhinweddau ac yn ceisio eu hannog mewn pobl eraill.

Fel y nodwyd uchod, mae yna gynnig y dylid datblygu swydd newydd Athro Arweiniol yn Awstralia, i roi arweiniad ar lefel yr ysgol, gan ganolbwyntio ar ddatblygu priodoleddau o'r fath ymysg athrawon. Rhagwelir y byddai Athrawon Arweiniol, ymhen amser, yn rhyw 20% o'r athrawon mewn ysgol arferol (Dinham, Ingvarson a Kleinhenz, 2008)

4.14 Yn **Lloegr** mae datblygiadau mewn perthynas â'r cynnig i athrawon feddu ar radd Meistr mewn Dysgu ac Addysgu, gwaith Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr wrth ddatblygu Academi Dysgu Athrawon, a rôl Athrawon Sgiliau Uwch yn bwysig i'r maes hwn.

4.15 Mae **Athrawon Sgiliau Uwch** yn cael eu penodi yn Lloegr. Mae potensial i'r rôl fodoli yn y proffesiwn addysgu yng Nghymru hefyd, ond nid yw wedi cael ei mabwysiadu gan gyflogwyr. Gall Athrawon Sgiliau Uwch gael eu penodi gan ysgolion unigol, gan awdurdodau lleol, gan ffederasiynau o ysgolion neu grwpiau cydweithredol eraill. Rhaid iddynt lwyddo mewn Asesiad Cenedlaethol ac wedyn cânt eu penodi i swydd Athro Sgiliau Uwch sydd â cholofn gyflog ac amodau cyflogaeth ar wahân. Fel arfer maent yn treulio 80% o'u hamser yn addysgu yn eu hysgol eu hunain a gweddill eu hamser yn gwneud gwaith allgymorth gydag athrawon o ysgolion eraill. Mae hefyd yn bosibl iddynt gael eu defnyddio i arwain neu gynorthwyo â menter ar draws ardal awdurdod lleol, gan weithio ar draws adrannau ac ysgolion. Bellach gwelir hyn yn ffordd arbennig o effeithiol iddynt effeithio ar well ddeilliannau dysgu ac addysgu. Os yw Athro Sgiliau Uwch o ysgol sy'n destun mesurau arbennig neu'n wynebu amgylchiadau heriol, gallant dreulio rhan o'r 20% o amser allgymorth yn cynorthwyo â chynllun yr awdurdod lleol i fynd â'u hysgol gartref o'r categorïau hynny.

4.16 Beth bynnag fo cyd-destun penodol eu gwaith, rôl Athrawon Sgiliau Uwch yw cynorthwyo â datblygiad proffesiynol athrawon eraill a chyfrannu at godi safonau dysgu ac addysgu. Mae awdurdodau lleol (sydd fel arfer â Chydgysylltydd Athrawon Sgiliau Uwch) wedi'i chael yn ddefnyddiol dod ag Athrawon Sgiliau Uwch at ei gilydd i weithio fel tîm (sef cymuned ymarfer, yn y bôn) ac mae hyn wedi cael ei ystyried yn ffordd arbennig o lwyddiannus o sicrhau gwelliant cyflym i ysgol gyfan. Maent hefyd wedi cael eu defnyddio'n effeithiol i gyfrannu at dimau amlddisgyblaethol sy'n mynd i'r afael â materion sy'n rhychwantu nifer o ysgolion a/neu ar draws ardal awdurdod lleol. Gall Penaethiaid Adrannau mewn ysgolion uwchradd ddod yn Athrawon Sgiliau Uwch, ond wedyn byddai'n rhaid iddynt roi'r gorau i'w swydd er mwyn canolbwyntio ar eu rôl newydd. Mae swydd Athro Rhagorol hefyd yn bodoli yn Lloegr, ond nid oes raid i ymarferwyr o'r fath ysgwyddo rôl ychwanegol megis Athro Sgiliau Uwch, na chael Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu. Yn y pen draw disgwylir y bydd 3-5% o athrawon yn Lloegr â swyddi Athrawon Sgiliau Uwch. Canfu arolwg a wnaethpwyd yn 2003 gan Ofsted bod Athrawon Sgiliau Uwch wedi 'significantly improved the quality of teaching and learning in over three-quarters of schools inspected' (Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, 2003, 2006, 2009; Ofsted, 2003).

4.17 Mae'r **Academi Addysgu a Dysgu** wedi cael ei ddatblygu gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr. Ei nod yw rhoi cydnabyddiaeth broffesiynol i ddysgu athrawon, datblygiad eu hymarfer a'u gwaith ym maes gwella ysgolion. Gan adeiladu ar yr hyn sydd wedi cael ei ganfod trwy ymchwil ar DPP effeithiol, mae'r Academi yn canolbwyntio ar y chwe maes craidd canlynol o ymarfer llwyddiannus:

- Ymgysylltu â sylfaen gwybodaeth
- Hyfforddi a mentora.
- Cynllunio dysgu.
- Cyflawni'r cynllun dysgu.
- Rhannu dysgu a dylanwadu ar ymarfer pobl eraill.
- Gwerthuso dysgu a'i effaith.

Ystyrir bod cymryd rhan yn yr Academi Addysgu a Dysgu yn daith dysgu adfyfyriol lle mae athrawon yn paratoi, cynllunio a chofnodi eu cynnydd mewn Dyddlyfr Dysgu ac yn adolygu eu cynnydd gyda chydweithwyr. Canolbwyntir yn bennaf ar ddysgu a datblygiad proffesiynol yn cael effaith yng nghyfnod un ar ystafell ddosbarth yr athro, yng nghyfnod dau ar gydweithwyr, ac yng nghyfnodau tri a phedwar ar yr ysgol gyfan, ar ysgolion eraill ac ar y gymuned broffesiynol ehangach (Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr, 2008). Mae gwerthusiad o'r Academi a gyhoeddwyd yn 2009 yn awgrymu ei fod wedi cael effaith sylweddol ar ymarfer athrawon, ar bolisïau neu strategaethau mewn ysgolion ac ar ddysgu disgyblion (Lord et al, 2009).

4.18 Mae'r **Radd Meistr mewn Dysgu ac Addysgu** yn cael ei datblygu gan yr Asiantaeth Datblygu Athrawon yn Lloegr, gan gydweithio gydag ysgolion a sefydliadau addysg uwch, fel cymhwyster lefel gradd Meistr sydd wedi'i gynllunio'n benodol i athrawon mewn gwasanaeth. Bwriedir iddi gael ei seilio'n bennaf ar yr ystafell ddosbarth ac ysgolion: bwriedir i astudio gan athrawon y tu allan i'w diwrnod gwaith gael ei gadw i'r lleiaf posibl. Yn 2009/10 bydd y cymhwyster yn cael ei gynnig i athrawon newydd gymhwyso yng ngogledd-orllewin Lloegr ac i athrawon yn ysgolion yr Her Genedlaethol neu ysgolion heriol eraill, gyda'r cwrs yn dechrau yn nhymor yr haf, 2010. Disgwylir y bydd yn cymryd tair blynedd i'w chwblhau. Rhoddir cydnabyddiaeth am astudiaethau lefel gradd Meistr a fydd wedi cael eu cwblhau ar gwrs TAR ac am waith arall ar lefel gradd Meistr a wnaethpwyd o'r blaen, yn erbyn meini prawf cenedlaethol cadarn. Bwriedir y bydd y Radd hon yn integreiddio gyda phrofiad yr athro yn ei flwyddyn sefydlu, ac yn adeiladu arno. Bwriedir iddi fod yn bersonol ac yn hyblyg o ran cynnwys, cyflymder ac asesu, gan ganiatáu ar gyfer y cyd-destun gwahanol y mae athrawon yn cael eu hunain a'u hanghenion dysgu ynddo. Bydd tri chyfnod i'r cwrs:

- Asesiad diagnostig ac wedyn datblygu sgiliau'r athro mewn ymholi a defnyddio tystiolaeth.
- Pedwar maes cynnwys sy'n ymwneud â dysgu ac addysgu, gwybodaeth bwnc, datblygiad plant a phobl ifanc a gweithio gydag eraill.
- Rhaglen arbenigol.

4.19 Bydd pob athro sy'n ymgymryd â'r Radd yn cael cymorth gan Hyfforddwr (athro profiadol o'i ysgol ei hun neu ysgol gyfagos) a chan Diwtor addysg uwch. Rhagwelir y bydd dod yn Hyfforddwr yn ddeniadol i athrawon sy'n anelu at statws Athro Rhagorol neu Athro Sgiliau Uwch. Y Llywodraeth fydd yn ariannu'r Radd, gan dalu costau hyfforddiant ac amser yr athro a'r Hyfforddwr pan fônt i ffwrdd o'r ystafell ddosbarth. Ni fydd unrhyw warant o gamu ymlaen yn eu gyrfa neu godiad cyflog i athrawon sy'n cwblhau'r Radd, ond rhagwelir y bydd meddu ar y cymhwyster yn ffactor a gaiff ei ddefnyddio mewn adolygiadau rheoli perfformiad. Ni fydd athrawon nad ydynt yn meddu ar y cymhwyster o dan anfantais mewn unrhyw ffordd.

4.20 Nod yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd yw y bydd pob athro yn Lloegr, dros amser, yn meddu ar Radd Meistr mewn Dysgu ac Addysgu ac y bydd addysgu, felly, yn dod yn broffesiwn i bobl â gradd Meistr yn unig, fel y mae yn y Ffindir. Yno ystyrir bod meddu ar gymhwyster o'r fath yn arwydd o'r addysgu o ansawdd da sy'n nodweddu'r system addysg ac yn cyfrannu at ei lefel uchel o ganlyniadau addysgol. Mae'r Adran yn credu y bydd y Radd yn gwneud y proffesiwn addysgu'n fwy deniadol ac yn cynorthwyo athrawon yn eu pum mlynedd gyntaf pan fo llawer yn gadael y proffesiwn ar hyn o bryd, gan roi diffyg cymorth fel un o'r prif resymau dros hynny. Mae cysylltiad cryf hefyd rhwng cyflwyno'r Radd a'r ymgais i wella cyflawniad myfyrwyr, gan gydnabod mai gwella ansawdd athrawon yw'r dylanwad mwyaf ar y deilliannau hyn (Asiantaeth Datblygu Athrawon, 2009; Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, 2008).

4.21 Yn yr Alban fel rhan o ddatblygiad polisi ehangach i wella ansawdd athrawon a chodi statws y proffesiwn addysgu, dechreuwyd Rhaglen Athro Siartredig yn 2003. Wedi hynny yn Llundain cafodd statws **Athro Siartredig Llundain** ei gyflwyno hefyd. Mae hyn yn galluogi unrhyw athro yn Llundain i weithio tuag at ennill y statws hwn. Mae wedi'i seilio ar gyflawni amcanion rheoli perfformiad sy'n ymwneud â gwaith beunyddiol yr athro ac arsylwadau ar wersi a wneir mewn ysgolion eraill. Mae athro sy'n cyrraedd y safon yn ennill y statws a thaliad untro o £1,000. Yn ei hanfod, mae hwn yn bolisi sy'n cael ei ysgogi gan reoli perfformiad ac yn bolisi cadw athrawon. Nid yw'n uniongyrchol gysylltiedig â rôl ehangach DPP mewn datblygu ansawdd athrawon a'r potensial i athrawon arbenigol gymryd rôl arweinyddol yn y maes hwn (Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, 2009).

4.22 Mae Rhaglen **Athro Siartredig yr Alban** yn ddull llawer mwy datblygedig o roi cydnabyddiaeth i athrawon arbenigol a gan mai hon yw'r unig enghraifft o'i math, mae'n anochel ei bod wedi cael cryn ddylanwad ar gynllun gwreiddiol y Rhaglen AS yng Nghymru. Mae AS yr Alban yn deillio o Adroddiad Sutherland yn 1997 ar addysgu a hyfforddi athrawon yn yr Alban ac adroddiad McCrone yn 2000 ar gyflogau a statws y proffesiwn addysgu

(Sutherland, 1997; McCrone, 2000). Derbyniodd Gweithrediaeth yr Alban y rhan fwyaf o argymhellion McCrone ac arweiniodd hyn at godiadau cyflog sylweddol i athrawon yr Alban, ond hefyd at newidiadau i'w rhwymedigaethau a'u buddion contractiol gan gynnwys cyflwyno statws AS fel ffordd o gydnabod rhagoriaeth mewn addysgu yn y dosbarth.

4.23 Dechreuodd AS yr Alban yn 2003 ac erbyn mis Mehefin 2008, roedd 611 o athrawon yr Alban wedi ennill statws AS, ac roedd tua 2500 o athrawon eraill yn gweithio tuag at y statws hwn. Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon (bron 85%) sydd wedi ennill statws AS hyd yn hyn wedi gwneud hynny trwy Lwybr Achrededig, lle maent yn cyflwyno portffolio ac yn gwneud gwaith adfyfyrio strwythuredig mewn ffordd a ddilynwyd yn gyffredinol gan y cynllun peilot ar gyfer y Llwybr Portffolio yng Nghymru. Mae'r Llwybr Achrededig a'r Llwybr Rhaglen ill dau'n cael eu hasesu yn erbyn y Safonau ar gyfer AS. Mae'r Llwybr Rhaglen yn cynnwys 12 modiwl ar lefel gradd Meistr. Mae'r athrawon yn talu'r ffioedd dysgu arferol i'r sefydliadau addysg uwch sy'n cynnig y modiwlau ac ar ôl cwblhau dau fodiwl yn llwyddiannus, ychwanegir cynyddran i'w cyflog. Yn y pen draw, yn ogystal â chwblhau cymhwyster Meistr ac ar yr un pryd ennill statws AS, bydd yr athrawon wedi cael £6,000 ychwanegol ar eu cyflogau. Gellir cael mwy o fanylion am y Rhaglen AS yn yr Alban o Adroddiad Grŵp Adolygu AS yn 2008 (Kirk, Beveridge a Smith, 2003; Llywodraeth yr Alban 2008).

4.24 Mae gwaith ymchwil a gwerthuso ar ddatblygiad y rhaglen AS yn yr Alban yn tynnu sylw at nifer o faterion. Roedd y rhan fwyaf o'r Athrawon Siartredig yn datgan boddhad gyda'r cynllun a'r prosesau y maent wedi ennill statws AS drwyddynt. Ymddengys, fodd bynnag, fod effaith dod yn AS ar lefel yr ysgol, a'r gydnabyddiaeth maent yn ei chael am eu statws newydd gan eu penaethiaid a'u hawdurdodau lleol, yn amrywiol ac at ei gilydd yn gyfyngedig.

4.25 Cwestiwn arall sy'n codi yw i ba raddau y mae'r rhai sy'n ceisio ennill statws AS yn athrawon 'arbenigol' neu 'ragorol', yn hytrach nag ymarferwyr 'medrus'. Yn wir, cynigiodd Adroddiad McCrone y dylai fod dau fath o AS yn yr Alban. Yn gyntaf, byddai'r rheiny a fyddai'n ennill statws AS i gydnabod eu cymhwysedd a byddai hyn o fewn cyrraedd nifer helaeth o athrawon yr Alban. Yn ail, byddai AS Uwch, a fyddai, ar ôl pedair blynedd o ymchwil bellach a dysgu uwch, yn ymgymryd â rôl sylweddol yn y system addysg ar gyfer hybu safonau rhagoriaeth mewn addysgu. Penderfynodd Gweithrediaeth yr Alban, fodd bynnag, beidio â bwrw ymlaen â'r cynnig hwn, er yn y llyfryn cyfarwyddyd a gynhyrchodd ar AS, cydnabu y dylai AS 'demonstrate the capacity to contribute to the professional development of colleagues and to make a full contribution to the educational effectiveness of the school and the wider educational community'. (Connelly a McMahon, 2007; McMahon a Reeves, 2008; Llywodraeth yr Alban, 2008, 6).

4.26 Yn 2007 sefydlodd Llywodraeth yr Alban Grŵp Adolygu ar yr Athro Siartredig, a gyflwynodd adroddiad yn 2008. Gan gydnabod nad oedd digon o eglurder ynglŷn â'r rôl y gallai Athro Siartredig ei chyflawni ar lefel yr ysgol, nododd, a chefnogodd yn ymhlyg, yr egwyddorion yr oedd Tîm DPP Cenedlaethol Llywodraeth yr Alban wedi'u cynhyrchu yn 2005 ar gyfraniad posibl AS, sef:

- Ni ofynnir i Athrawon Siartredig gyflawni rolau rheoli.
- Bydd y cyfraniad y mae AS yn ei wneud yn canolbwyntio ar ddysgu ac addysgu a chryfhau partneriaethau gyda grwpiau proffesiynol eraill, rhieni ac asiantaethau eraill. Bydd angen cytuno ar gyfraniad o'r fath gyda'r ysgol.
- Bydd Athrawon Siartredig yn parhau i gadw portffolio DPP a fydd yn olrhain eu datblygiad proffesiynol yn erbyn y Safon ar gyfer Athro Siartredig a bydd eu hadolygiadau a'u datblygiad proffesiynol yn canolbwyntio ar y portffolio hwn.
- Bydd yna gytundeb rhwng Athrawon Siartredig a'u rheolwr llinell ynghylch unrhyw ddatblygiad neu brosiect seiliedig ar waith y bydd yr AS yn ei gyflawni, a darperir adnoddau ar gyfer y fath ddatblygiad neu brosiect, gan gynnwys darparu amser.
- Bydd Athrawon Siartredig yn rhannu eu lefel uwch o broffesiynoldeb gyda'u cydweithwyr a byddant yn chwilio am gyfleoedd i ddylanwadu ar ddatblygiad addysgu a dysgu. (Llywodraeth yr Alban, 2008, 7)

4.27 Er ei fod yn parhau i gefnogi egwyddor y rhaglen AS, gwnaeth y Grŵp Adolygu nifer o argymhellion ar gyfer ei dyfodol, gan gynnwys y canlynol:

- Adolygiad o'r Safonau ar gyfer AS a fformat llwybr modiwlaidd AS.
- Cryfhau'r broses gymhwyso ac yn arbennig y gofyniad y dylai'r rheiny sy'n gwneud cais am y cynllun ddangos tystiolaeth o ymarfer da yn y dosbarth a safonau proffesiynol uchel.
- Cynnwys tystiolaeth seiliedig ar yr ysgol fel gofyniad i'r rhaglen a'i hasesiad.
- Cytundeb rhwng penaethiaid ac Athrawon Siartredig ar y rôl y gallent ei chyflawni.
- Dylai effaith Athrawon Siartredig gael ei chofnodi gan Lywodraeth yr Alban.
- Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod ysgolion yn monitro bod Athrawon Siartredig yn parhau i gyrraedd y Safonau ar gyfer AS.
- Gan dderbyn y byddai'r Llwybr Achrediad yn dod i ben yn 2008, dylid ystyried llwybrau hyblyg eraill at gyrraedd y safon ar gyfer AS (Llywodraeth yr Alban, 2008)

4.28 Wrth ymateb i adroddiad y Grŵp Adolygu, er ei bod yn ailddatgan yn bendant gefnogaeth Llywodraeth yr Alban i'r rhaglen AS, tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Dysgu Gydol Oes sylw at feysydd lle y teimlai nad oedd casgliadau'r Grŵp Adolygu wedi bod yn ddigon cadarn. Roedd hyn yn cynnwys rôl bosibl yr AS fel adnodd gwerthfawr yn system addysg yr Alban. Ers hynny mae wedi gofyn i'r Arolygiaeth yn yr Alban wneud adolygiad o effaith yr AS mewn ysgolion (Hyslop, 2008).

4.29 Fel rhan o'i ymateb parhaus i'r adolygiad a datblygiad pellach AS yr Alban, mae Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban wedi diwygio'r Safonau ar gyfer AS ac wedi diwygio ei brosesau ymgeisio a dethol er mwyn sicrhau eu bod mor drylwyr ag sy'n bosibl. Gellir gweld y Safonau diwygiedig ar gyfer AS yn yr Alban yn atodiad 4

4.30 Felly, er yr ymddengys fod y Rhaglen AS wedi ymsefydlu'n llwyddiannus yn yr Alban, mae'n amlwg bod yna nifer o faterion sydd wedi dod i'r amlwg ynglŷn â phwy yn union ddylai gael ei ddenu i fod yn AS, a pha rôl y dylid gofyn iddo neu iddi ei chyflawni yn y proffesiwn addysgu. Ym marn dau academydd sy'n ymwneud â'r Rhaglen AS yn yr Alban, 'while CT formed part of an integrated package of reforms to the teaching profession, it is not yet part of an integrated system of CPD and human resource management' (Connelly a McMahon, 2007, 103). Yn benodol, maent yn nodi mai cyfyngedig yw'r dystiolaeth bod y cynllun AS wedi dod â 'perceived benefits for schools' a bod un o wendidau mawr y rhaglen yn deillio o 'a sense in which it is semi-detached from the development of the school as an organisation and organic learning community' (Connelly a McMahon, 2007, 103 a 104).

Datblygiadau yng Nghymru

4.31 Gellir ystyried nifer o ddatblygiadau yng Nghymru, ar wahân i'r rhaglen Athro Siartredig ei hun, yn berthnasol i'r meysydd polisi ac ymchwil sy'n cael eu hadolygu yma. Mae'r rhain yn deillio o'r ffaith bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, ers dyfodiad datganoli yn 1999, yn benderfynol o ddatblygu system addysg yng Nghymru lle mae proffesiynoldeb athrawon o'r radd flaenaf ac yn chwarae rhan nerthol mewn cynnydd addysgol (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2001 a 2006).

4.32 Un o ganlyniadau arwyddocaol hyn yw'r **arian datblygiad proffesiynol** sydd ar gael i athrawon unigol trwy Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ers 2001. Mae gwerthusiad annibynnol ac adroddiadau arolygu Estyn wedi nodi'r buddion a gynigir yn gyffredinol i athrawon o'r ffrwd ariannu hon (Egan a

James, 2004; Estyn 2007). Fodd bynnag, gwnaeth astudiaeth Egan a James nifer o argymhellion y bwriedir iddynt wella ansawdd cyffredinol y gwaith a wneir gan athrawon, gan gynnwys hybu DPP cydweithredol yn ogystal â DPP sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a rhoi mwy o bwyslais ar ganlyniadau'r arian hwn i ddisgyblion ac ysgolion.

4.33 Materion yn ymwneud ag ansawdd addysgu a lledaenu ymarfer effeithiol sydd wedi bod wrth wraidd y **Strategaeth Addysgeg** yng Nghymru (neu y 'Ffocws ar Addysgeg' fel y daeth i gael ei alw'n fwy diweddar). Cafodd hon ei chreu gan y Gweinidog dros Addysg ar y pryd, Jane Davidson, yn 2005 (Davidson, 2007). Bwriedid iddi adnabod addysgeg ragorol ar draws y gwahanol sectorau addysg yng Nghymru a sefydlu dulliau i rwydweithio ymarfer effeithiol o'r fath. Mae wedi arwain at ddatblygu model lle gwelir bod y broses ddysgu, strategaethau addysgu a'r amgylchedd a'r berthynas ag eraill y mae dysgu ac addysgu'n digwydd ynddynt, mewn synergedd ac yn cynhyrchu deilliannau gwell i fyfyrwyr (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009).

4.34 Mae'r Strategaeth Addysgeg wedi dod yn rhan o ffocws ehangach o lawer yng Nghymru ar ddatblygu system genedlaethol o effeithiolrwydd ysgolion, sy'n nodi addysgu o ansawdd da a datblygiad cymunedau dysgu proffesiynol fel elfennau allweddol. Mae hyn wedi dod allan o faes bras ymchwil ar effeithiolrwydd ysgolion (Hopkins, 2007; Fullan 2004 a 2006;) ac ymarfer a'r cyd-destun penodol y mae hyn wedi cael ei ddatblygu ynddo yng Nghymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2002 a 2005; James, Connolly, Dunning ac Elliot 2006; Egan, 2009). Mae wedi arwain at gynhyrchu **Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion** lle rhoddir lle canolog iawn i addysgu o ansawdd da a datblygiad proffesiynol athrawon (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008; Egan a Marshall, 2007; Egan, 2008). Mae'r Fframwaith wedi cael ei beilota mewn nifer o ysgolion yn 2008-09 ac yn dilyn cyfnod o feithrin gallu'r system yn 2009-10 caiff ei gyflwyno fesul cam i bob ysgol yng Nghymru o fis Medi 2010 ymlaen. Ymddengys yn anochel y dylai datblygiad posibl Rhaglen AS yng Nghymru gael ei gysoni â'r polisi amlwg hwn i athrawon ac ysgolion yng Nghymru.

Canfyddiadau sy'n deillio o'r adolygiad hwn

4.35 Addysgu o ansawdd da yw'r sail sylfaenol i lwyddiant a chynnydd addysgol ar lefel unigolion, sefydliadau a systemau.

4.36 Mae gan DPP ran fawr i'w chwarae mewn cynhyrchu a chynnal addysgu o ansawdd da ac er mwyn cyflawni hyn mae angen canolbwyntio ar ddatblygiad proffesiynol cydweithredol mewn ysgolion.

4.37 Mae arweinyddiaeth ysgolion yn hanfodol bwysig i gynnal addysgu o ansawdd da a datblygiad proffesiynol. Mae ffurfiau newydd o arweinyddiaeth yn dod i'r amlwg mewn ysgolion sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer arweinyddiaeth addysgeg athrawon a datblygiad proffesiynol.

4.38 Mae hyn yn arwain systemau addysg ar draws y byd tuag at adeiladu rolau newydd i athrawon arbenigol a all arwain addysgeg athrawon a datblygiad proffesiynol ar lefel yr ysgol. Mae'r rolau hyn wedi'u seilio ar adnabod cyfres o briodoleddau y gellir ystyried eu bod yn enghreifftio addysgu arbenigol.

4.39 Mae rôl Athrawon Sgiliau Uwch yn Lloegr yn cynnig un model o sut y gellir gwneud athrawon o'r fath yn weithredol mewn system addysg.

4.40 Mae'r Academi Dysgu Athrawon yn Lloegr yn cynnig model o DPP wedi'i seilio ar adfyfyrio/ymholi y gallai arweinwyr addysgeg athrawon a datblygiad proffesiynol mewn ysgolion ei ddefnyddio.

4.41 Mae'r radd Meistr Dysgu ac Addysgu yn Lloegr o bosibl yn cynnig system strwythuredig o DPP i'r system a'r proffesiwn cyfan sy'n canolbwyntio ar wella ansawdd ac addysgeg athrawon. Bydd yn caniatáu rôl amlwg i athrawon profiadol (arbenigol?) fel hyfforddwyr i'r athrawon sy'n dilyn y rhaglen.

4.42 Mae cyflwyno statws Athro Siartredig yn yr Alban, er iddo gael ei groesawu'n gyffredinol fel buddsoddiad yn ansawdd athrawon ac mewn datblygiad proffesiynol, hefyd yn codi nifer o gwestiynau sylfaenol mewn perthynas â'r meysydd a grybwyllir uchod, yn arbennig a fwriedir iddo fod yn llwybr i athrawon 'cymwys' ('competent') neu 'arbenigol', a pha rôl y gallai AS ei chyflawni yn y proffesiwn addysgu.

4.43 Yng nghyd-destun ehangach diwygio addysg a datblygu'r proffesiwn addysgu a nodir uchod ac yng nghyd-destun penodol y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, ymddengys fod yna gryn botensial i rôl yr AS yn y system addysg yng Nghymru.

4.44 Ymddengys felly mai'r cwestiynau hanfodol y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn cyflawni hyn yng Nghymru yw:

- Sut ellir sicrhau bod cysyniad AS yn cyd-fynd ag adnabod athrawon arbenigol yn y proffesiwn?
- Sut ellir datblygu rôl i AS fel arweinwyr addysgeg athrawon a datblygiad proffesiynol ar lefel yr ysgol a'r system?

Cyfeiriadau

Barber, M. a Mourshed, M. (2007) *How the World's Best Performing School Systems Came Out on Top*. Efrog Newydd: McKinsey and Co

Bolam, R. a Weindling , D.(2006) Synthesis of Research and Evaluation Projects Concerned With Capacity-Building Through Teachers Professional Development. Ar gael ar http://wwwgtce.org.uk/shared/contentlibs/126795/93128/168771/ex_summary.pdf

Caldwell, B. J. a Harris, J. (2008) *Why Not the Best Schools?* Victoria: ACER Press

Connelly, G. a McMahon, M. (2007) 'Chartered Teacher: Accrediting Professionalism for Scotland's Teachers - A View From the Inside' *Journal of In–Service Education*, 33, 1, 91-105.

Cordingley, P., Bell, M., Rundell, B. ac Evans, D. (2003) 'How Does Collaborative CPD for Teachers of the 5-16 Age Range Affect Teaching and Learning?' http://www.eppi.ioe.ac

Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr (2008) *Being a TLA Leader: A Reflective Tool to Support TLA Leaders*. Llundain: Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr

Davidson,J. (2007) 'The Importance of Evidence Informed Policy Research in Education: A Perspective From Wales' yn OECD. *Evidence in Education.* Paris : OECD

Dinham, S.,Ingvarson, L, a Kleinhenz, E. (2008) *Investing in Teacher Quality*: *Doing What Matters Most*. Business Council for Australia.

Dinham, S. (2002) 'NSW Quality Teaching Awards - Research, Rigour and Transparency, *Unicorn*, 28(1), 5-9

Egan a James (2004) *Evaluation for the General Teaching Council Wales of the Phase 3 Professional Development Pilot Projects*. Caerdydd: CyngACC

Egan, D. a Marshall, S. (2007) 'Educational Leadership and School Renewal in Wales'. *Australian Journal of Education,* 51(3), 286-297

Egan, D. (2008) 'The School Effectiveness Framework in Wales' in *Agenda: Journal of the Institute for Welsh Affairs*, Haf 2008.

Egan, D. (2009) *Why Not the Best Schools?: The Wales Report*. Victoria: ACER Press

Elmore, R. (2004) *School Reform From Inside Out*. Cambridge: Harvard Education Press

Elmore, R. (2007) 'Professional Networks and School Improvement', *The School Administrator*, Ebrill 2007

Estyn (2005) *How Linkages Can Be Improved Between CPD, School Development Plans, Performance Management and Raising Standards*. Caerdydd: Estyn

Estyn (2007) *The Impact of the Continuing Professional Development Programme on Teachers, Schools and the Raising of Pupils' Achievements*. Caerdydd: Estyn

Field, K. (2005) 'Continuing Professional Development for Leaders and Teachers: the English Perspective', yn Alexandrou, A., Field, K. a Mitchell, H. *The Continuing Professional Development of Educators* (2005) Didcot: Symposium Books

Fullan, M. (2004) *Leadership and Sustainability: System Leaders in Action*. Llundain: Sage

Fullan, M. (2006) *Beyond Turnaround Leadership*. San Francisco: Jossey-Bass

Goodall, J., Day, C., Lindsay, G., Mujis, D. a Harris, A. (2005) *Evaluating the Impact of Continuing Professional Development*. Llundain: Yr Adran Addysg a Sgiliau

Greenwald, R., Hedges, L.V. a Laine, R.D. (1996) 'The Effect of School Resources on Student Achievement', *Review of Educational Research*, 66(3), 361-396

Harland a Kidner (1997) 'Teachers' Continuing Professional Development: Framing a Model of Outcomes' *British Journal of In-Service Education*, 23, 1, 71-84

Hustler, D., MacNamara, O., Jarvis, J., Londra, M., Campbell, A a Howson, J (2003). *Teachers' Perspectives of Continuing Professional Development*. Adroddiad Ymchwil Yr Adran Addysg a Sgiliau 429. Llundain: Yr Adran Addysg a Sgiliau

Harris, A. (2008) *Distributed Leadership in Schools: Developing the Leaders of Tomorrow*. Llundain: Routledge and Falmer Press

Hattie, J. (2003) 'Teachers Make a Difference: What is the Research Evidence?' *http://www.leadspace.govt.nz/leadersjip/articles/teachers-make-a-difference.php*

Hattie, J. (2007) 'Developing Potentials for Learning Evidence, Assessment and Progress'.
http://www.education.auckland.ac.nz/uoa/education/staff/j.hattie/j.hattie_home.cfm,

Higham, R., Hopkins, D. ac Ahtaridou, E. (2007) *Improving School Leadership: Country Background Report.* Paris: OECD

Hopkins, D. (2007) *Every School A Great School*. Maidenhead: Gwasg y Brifysgol Agored

Hyslop, F. (2008) *Cabinet Secretary for Education and Lifelong Learning's Response to the Report of the Chartered Teacher Review Group*. Caeredin: Llywodraeth yr Alban

Ingvarson, L. a Kleinhenz, E. (2006) *A Standards Guided Professional Learning System*. Australian Council for Educational Research

Ingvarson, L.C. a Rowe, K. (2008) 'Conceptualising and Measuring Teacher Quality: Substantive and Methodological Issues'. *Australian Journal of Education*, 52(1), 5-34

James, C., Connolly, M., Dunning, G. ac Elliot, T. (2006) *How Very Effective Primary Schools Work*. Llundain: Paul Chapman Publishing

Kirk, G., Beveridge, W. a Smith, I. (2003) *The Chartered Teacher*. Caeredin: Dunedin Academic Press

Leithwood , K., Day, C., Sammons, P., Harris, A. a Hopkins, D (2006) *Seven Strong Claims About Successful School Leadership*. Nottingham: NCSL

Lord, P., Lamont, E., Harland, J., Mitchell, H. a Straw, S. *Evaluation of the GTC's Teacher Learning Academy*: *Impacts on Teachers, Pupils and Schools*. National Foundation for Educational Research

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2001) *Y Wlad sy'n Dysgu*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002) *Cau'r Bwlch ym Mherfformiad Ysgolion.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005) *Prosiect Cau'r Bwlch ym Mherfformiad Ysgolion: Cam II Ysgolion Cynradd.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006) *Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) *Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion: Creu cymunedau dysgu effeithiol gyda'n gilydd*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) *Arferion Effeithiol wrth Ddysgu ac Addysgu - Ffocws ar Addysgeg*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

Llywodraeth yr Alban (2008) *Report of the Chartered Teacher Review Group*. *Caeredin:* Llywodraeth yr Alban

McCrone, (2000) *A Teaching Profession for the 21st Century*. Caeredin: Llyfrfa ei Mawrhydi

McMahon, M. a Reeves, J. (2008) *Evaluating the Impact of Chartered Teacher in Scotland: the Views of Chartered Teachers*. Prifysgol Glasgow a Phrifysgol Stirling

Moor, H, Halsey, K., Jones, M., Martin, K., Stott, A., Brown, C., a Harland, J. (2005) *Professional Development for Teachers Early in Their Career: an Evaluation of the Early Professional Development Scheme*. Adroddiad Ymchwil Yr Adran Addysg a Sgiliau 613. Llundain: Yr Adran Addysg a Sgiliau

OECD (1994) *Quality in Teaching* Paris: OECD

OECD (2005) *Teachers Matter: Attracting, Developing and Retaining Effective Teachers.* Paris: OECD

Ofsted (2003) *Advanced Skills Teachers: A Survey* Llundain: Ofsted

Ofsted (2006) *The Logical Chain: Continuing Professional Development in Effective Schools*. Llundain: Ofsted

Ontario Ministry of Education (2008). *Teacher Learning and Leadership Program for Experienced Teachers*. Ontario: Ministry of Education

Robinson, M., Walker, M, Kinder, K. a Haines, B. (2008) *Research Into the Role of CPD Leadership in Schools.* Slough: National Foundation for Educational Research

Rowe, K. (2003) 'The Importance of Teacher Quality As a Key Determinant of Student' Experiences and Outcomes of Schooling'. *http://www.nswteachers.nsw.edu.au/library/Rowe/html*

Slater, H., Davies, N. a Burgess, S. (2009) *Do Teachers Matter? Measuring the Variation in Teacher Effectiveness in England*. Bryste: Centre for Market and Public Organisation

Stoll, L., Wallace, M., Bolam, R., McMahon, A., Thomas, S., Hankey, K., Smith, M. a Greenwood, A. (2003) *Creating and Sustaining Effective Professional Learning Communities*. Briff Ymchwil yr Adran Addysg a Sgiliau RBX12-03 Llundain: Yr Adran Addysg a Sgiliau

Sutherland, S. (1997) *Teacher Education and Training : A Study*. Norwich: Llyfrfa ei Mawrhydi

Wenger, E. (1988) *Communities Of Practice*. Efrog Newydd: Cambridge University Press

Yr Asiantaeth Datblygu Athrawon (2007) *Impact Evaluation of CPD*. Llundain: Yr Asiantaeth Datblygu Athrawon

Yr Asiantaeth Datblygu Athrawon (2009) *An Introduction to the Masters in Teaching and Learning*. Llundain: Yr Asiantaeth Datblygu Athrawon

Teaching in Scotland (2007) *Teachers for Excellence: A Model for CPD*. Teaching In Scotland

Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (2003) *Advanced Skills Teachers* :*Outcomes of Groupworking Pilots*. Llundain: Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd

Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (2006) *Advanced Skills Teachers Working in Primary Learning Networks: Summary Evaluation Report*. Llundain: Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd

Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (2009) Advanced Skills Teachers: *Frequently Asked Questions.* Llundain: Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd

Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (2009) *Chartered London Teacher Status.* Llundain: Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd

5 CANFYDDIADAU: Y CYNLLUN PEILOT PORTFFOLIO

Cyflwyniad

5.1 Mae'r canlyniadau canlynol wedi'u seilio ar y dystiolaeth a nodir yn 3.9 uchod. Cânt eu cyflwyno mewn perthynas â'r dystiolaeth a ddaw o :

- Barn a phrofiadau'r athrawon a gymerodd ran.
- Barn, profiadau a dyfarniadau'r Ymgynghorwyr/Aseswyr.
- Ystyried y dystiolaeth ehangach a gafwyd o'r gwaith gwerthuso a wnaethpwyd, gan gynnwys yr adolygiad yn adran 4 uchod.

5.2 Gyda dim ond wyth athro a dau ymgynghorydd/aseswr yn cymryd rhan, cynllun peilot bach iawn oedd hwn, ac felly dylid ystyried y casgliadau a dynnir ohono gyda hyn mewn cof.

Yr Athrawon

5.3 Cafodd yr athrawon a gymerodd ran yn y cynllun peilot (athrawes ymgynghorol gydag awdurdod lleol oedd un) wybod am y cynllun peilot AS mewn amryw o ffyrdd. Yn yr un modd roedd ganddynt amrywiaeth o resymau o ran **diddordeb ac ysgogiad** am ddymuno cymryd rhan. Roedd rhai'n ceisio cael cydnabyddiaeth am eu rhagoriaeth yn y dosbarth, roedd eraill wedi'u hysgogi i wella eu portffolio DPP mewn ffordd a allai eu cynorthwyo i symud ymlaen i rolau rheoli/arwain: yn wir roedd dau yn symud i rolau uwch reoli/arwain ac roedd un arall yn gwneud dau fodiwl ar gwrs rheoli/arwain ar yr un pryd. Roedd rhai wedi'u hysgogi gan y syniad o ehangu eu gorwelion a chael cyfle i adfyfyrio ar ddatblygiad eu gyrfa. Yn achos yr Ymgynghorydd gydag awdurdod lleol, yr ysgogiad oedd bod yn ddelfryd ymddwyn i'r athrawon yr oedd yn cydweithio gyda hwy.

5.4 O'r dadansoddiad hwn mae'n glir, felly, bod gan yr athrawon a gafodd eu recriwtio ysgogiadau amrywiol dros gymryd rhan yn y cynllun peilot Portffolio AS ac at ei gilydd nid oeddent wedi cael eu hysgogi gan yr awydd i ddangos a chael cydnabyddiaeth am eu rhagoriaeth yn y dosbarth ac i geisio cael rôl arweinyddol yn y dyfodol mewn cysylltiad â hyn.

5.5 Roedd gan yr athrawon i gyd hanes cryf o **gymryd rhan mewn DPP o'r blaen.** Er enghraifft, roedd gan bump o'r wyth raddau Meistr (dwy ohonynt heb fod ym maes addysg) ac enillodd un arall radd Meistr yn ystod y cyfnod y bu'n cymryd rhan yn y cynllun peilot Portffolio AS. Roedd y rhai oedd yn meddu ar radd Meistr yn ystyried hyn yn gefndir hanfodol i'r gwaith yr oeddent yn ei wneud ar y cynllun peilot Portffolio, yn enwedig yr adolygiad adfyfyriol: yn wir, maent yn credu y dylai fod yn rhagofyniad.

5.6 Yn gyffredinol roedd yr athrawon yn fodlon ar y rhan fwyaf o'r agweddau ar y **cymorth a chyfarwyddyd** a gawsant. Roedd nifer fach yn teimlo eu bod yn gymharol ynysedig a digymorth ac yn credu bod y rhai a gymerodd ran yng nghynllun peilot y Llwybr Rhaglen wedi cael mwy o gymorth a sylw. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r athrawon yn gadarnhaol iawn am y cymorth a gawsant gan eu Hymgynghorydd. Nid oedd y mwyafrif wedi defnyddio'r amgylchedd dysgu rhithwir ac roedd rhai wedi wynebu anawsterau wrth geisio ei ddefnyddio. Ac eithrio yn y ddau gyfarfod a drefnwyd iddynt gydgyfarfod â'u Hymgynghorwyr, nid oeddent wedi cadw mewn cysylltiad â'i gilydd ac yn yr ystyr hon ni chrëwyd ymdeimlad o gymuned o ymarferwyr/cymuned ddysgu broffesiynol. Roedd llawer yn teimlo bod hyn yn drueni ac yn gyfle a gollwyd o ran cynorthwyo ei gilydd. Gwyddys fod hon yn farn arferol ymhlith athrawon sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd DPP, y mae'n well ganddynt weithio'n gydweithredol fel arfer. Maent yn nodi nad oedd cyfeiriadau e-bost yn cael eu rhannu. Roedd dau athro oedd wedi astudio o'r blaen gyda'r Brifysgol Agored yn credu bod y systemau cymorth oedd ar gael ar Lwybr Portffolio AS yn cymharu'n anffafriol.

5.7 Roedd yr athrawon wedi cael bod **rhoi'r portffolio at ei gilydd** yn galw am lawer o waith ac yn cymryd llawer o amser, ac roeddent felly'n gwerthfawrogi'r hyblygrwydd a roddwyd iddynt o ran dyddiadau cau. Teimlwyd bod yna gryn dipyn o ddyblygu wrth enghreifftio'r Profiadau Allweddol. Roedd un o'r athrawon yr aseswyd nad oedd wedi llwyddo i gyrraedd y safon trwy ei phortffolio yn derbyn y canlyniad ac yn cydnabod, oherwydd galwadau gwneud dau fodiwl arweinyddiaeth a gynigiwyd gan wasanaeth ymgynghorol ei hawdurdod lleol a mynd trwy arolygiad yn yr ysgol ar yr un pryd, nad oedd wedi gwneud digon o waith wrth baratoi'r portffolio.

5.8 Roedd nifer o'r athrawon yn siomedig tu hwnt pan ddywedwyd wrthynt hanner ffordd trwy'r cynllun peilot ei bod yn ansicr a fyddai'r Rhaglen AS yn cael ei mabwysiadu yng Nghymru ac a fyddent, felly, yn cael cydnabyddiaeth am eu gwaith yn y pen draw.

5.9 At ei gilydd credai'r athrawon hynny a gwblhaodd y cynllun peilot yn llwyddiannus iddo fod yn brofiad cadarnhaol iawn a oedd wedi eu helpu i adfyfyrio ar ddatblygiad eu gyrfaoedd, ehangu eu gorwelion a rhoi iddynt sylfaen ddamcaniaethol i'w gwaith nad oedd ganddynt o'r blaen.

5.10 Mewn perthynas â'u **gyrfaoedd yn y dyfodol** mae dau eisoes wedi symud i rolau uwch reoli ac mae dau arall yn debygol o symud i'r cyfeiriad hwn trwy gyflawni CPCP. O gofio bod un arall yn athrawes ymgynghorol gydag awdurdod lleol ac na wyddys beth yw bwriadau un arall (na chyflwynodd bortffolio), mae hyn yn awgrymu mai dim ond dau o'r wyth sy'n gobeithio y byddant yn gweithio'n bennaf fel ymarferwyr dosbarth rhagorol.

Yr Ymgynghorwyr/Aseswyr

5.11 Wrth recriwtio'r athrawon ar gyfer y cynllun peilot, roeddent yn credu mai'r ystyriaeth allweddol oedd bod ganddynt ddigon o brofiad priodol i allu datblygu, mireinio a dangos y gallent gyrraedd y Safon ar gyfer AS. At ei gilydd maent yn teimlo y llwyddodd y broses hon a bod amgylchiadau penodol yn berthnasol i achosion y ddau athro nad oeddent yn y pen draw wedi gallu bodloni'r aseswyr eu bod wedi cyrraedd y safon. Roeddent yn credu bod recriwtio athrawes ymgynghorol gydag awdurdod lleol yn dderbyniol ynddo ei hun ac oherwydd dosbarthiad daearyddol.

5.12 Maent yn derbyn, ar ôl ystyried, y dylid mireinio'r broses ymgeisio ac yn credu y dylid gwneud hyn trwy sifftio'r ceisiadau i ddechrau, yna cynnal proses dadansoddi anghenion gyda'r Ymgynghorydd. Wedyn dylai'r athro wneud modiwl Hunanwerthuso ac Adfyfyrio gorfodol cyn dechrau ar y Llwybr Portffolio go iawn, neu, pe bernid nad oedd hwn yn addas iddo, dylai drosglwyddo i'r Llwybr Rhaglen.

5.13 Eu barn hwy yw y dylai AS fod yn llwybr y mae gan athrawon hawl iddo ac na ddylid ei anelu at grŵp targed penodol yn y proffesiwn. Dylai'r athrawon hyn allu dangos yn y gwaith cychwynnol y maent yn ei wneud gyda'r Ymgynghorwyr, eu bod:

- Yn ymarferwyr cymwys iawn.
- Wedi arwain mentrau ar lefel yr ysgol.
- Yn meddu ar rinweddau adfyfyriol.

Maent yn cydnabod nad oedd rhai o'r athrawon yng ngharfan y cynllun peilot yn meddu ar yr ail o'r priodoleddau hyn.

5.14 Maent yn credu bod y Safonau ar gyfer AS wedi bod yn gyfeirbwynt defnyddiol ar gyfer enghreifftio'r rhinweddau a geisiwyd yn yr athrawon, ond y cafwyd anawsterau o ran athrawon yn gallu dangos yr holl safonau, yn enwedig os nad ydynt wedi cael rôl arweinyddol. Nid oedd rhai o'r safonau'n ddigon clir at ddibenion asesu. Yn eu barn hwy ni ddylid ystyried y safonau'n feini prawf asesu ond yn ysgogiadau i'r athro ddadansoddi ac adfyfyrio.

5.15 Yn eu barn hwy mae rôl yr Ymgynghorydd/Aseswr yn hanfodol wrth gynorthwyo athrawon i gyrraedd y safon. Y sgiliau allweddol y mae angen i'r Ymgynghorydd feddu arnynt yw'r gallu i fentora a herio athrawon. Dylai'r gronfa dalent ar gyfer y ddwy rôl fod yn gyffredin ac mae angen i Ymgynghorwyr/Aseswyr weithio mewn timau. Gallai'r rôl fod yn briodol i benaethiaid profiadol, staff priodol awdurdodau lleol, arolygwyr ysgolion wedi ymddeol, uwch academyddion ac, yn y dyfodol, Athrawon Siartredig.

5.16 O’u safbwynt hwy mae’r system cymorth a chyfarwyddyd ar gyfer y cynllun peilot Portffolio wedi bod yn llwyddiannus, at ei gilydd. Yn eu barn hwy roedd angen i’r broses o gasglu tystiolaeth fod yn un fwy parhaus ac ailadroddus nag y bu yn ystod y cynllun peilot. Roedd angen i athrawon fanteisio ar y cymorth oedd ar gael iddynt: roedd dau o’r athrawon na chyraeddasant y safon heb fynychu cyfarfodydd a drefnwyd gyda’u Hymgynghorydd. Roeddent yn cytuno na ddatblygodd y garfan fel Cymuned Ddysgu Broffesiynol ac felly bod cyfleoedd wedi’u colli ar gyfer cymorth grŵp a gwaith cydweithredol.

5.17 Maent yn barnu bod y broses o nodi Profiad Allweddol enghreifftiol wedi gweithio’n dda ac yn rhoi cyfle i’r Ymgynghorydd herio ac ymchwilio i brofiadau proffesiynol a phriodoleddau’r athro. Maent yn credu y dylid gwneud hyn yn gyson gyda’r parthau yn y Safonau ar gyfer AS sy’n gysylltiedig ag arwain pobl, arwain newid ac ati

5.18 O’u profiad gyda’r cynllun peilot maent yn credu bod angen i athrawon sy’n dilyn y Llwybr Portffolio feddu ar gymhwyster Meistr neu fod wrthi’n astudio ar gyfer cymhwyster Meistr, oherwydd yr hyfforddiant mae hyn yn ei roi mewn ymagweddau adfyfyriol a beirniadol at dystiolaeth.

5.19 Yn eu barn hwy mae yna rôl bwysig bosibl i Athrawon Siartredig yn y proffesiwn ar lefel yr unigolyn, yr ysgol a’r awdurdod lleol. Maent yn cydnabod y synergedd y gellid ei gael trwy gysylltu hyn gyda pholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru megis y Strategaeth Addysgeg a’r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.

Tystiolaeth ehangach

5.20 Roedd rhai o’r portffolios yn raenus eu cyflwyniad, â chyfeiriadau priodol, ac yn cynnwys adfyfyrio beirniadol. Y rhai nad oeddent yn dangos y cryfderau hyn oedd y rhai yr aseswyd nad oeddent wedi cyrraedd y safon ar gyfer AS. Mae hyn yn awgrymu bod asesiadau priodol a theg wedi cael eu gwneud yn gyffredinol, felly.

5.21 Fodd bynnag, mae nodi’r hyn sy’n cyfrif fel tystiolaeth a’r hyn y mae’n ei enghreifftio’n llai clir o lawer. Awgrymir yn y gwerthusiad hwn, ar sail yr adolygiad a wnaethpwyd yn adran 4 uchod, y gellid ystyried mai’r nodweddion diffiniol defnyddiol ar gyfer athrawon arbenigol sy’n ceisio dod yn Athrawon Siartredig yw:

- Rhagoriaeth wrth addysgu yn y dosbarth
- Arwain cydweithwyr mewn addysgeg a DPP

- Gwaith a wneir gydag asiantaethau y tu allan i'r ysgol (awdurdodau lleol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Estyn ac ati)

5.22 Gellir defnyddio nodweddion o'r fath i lunio ac asesu'r tri Phrofiad Allweddol yn y portffolio, yn hytrach na bod y profiadau allweddol yn cael eu cymryd o broffil yr athro sy'n bodoli eisoes. Gellid dadlau mai'r hyn a gyflwynir yn aml yn y portffolios yw gwybodaeth am brofiadau yn hytrach na thystiolaeth gysylltiedig â deilliannau. Yn hyn o beth gellid enghreifftio'r safonau yn ddefnyddiol trwy dystiolaeth feintiol ac ansoddol cysylltiedig â gwelliannau ar lefel y myfyrwyr a'r ysgol. Mewn un portffolio o'r 31 o ddarnau o dystiolaeth a gyflwynir i enghreifftio'r Safon ar gyfer AS, mae 9 yn dod o draethawd ymchwil MEd yr ymgeisydd, 7 o gyflwyniadau PowerPoint a roddwyd gan yr unigolyn a 7 o werthusiadau o'r cyflwyniadau hyn. Aseswyd bod y portffolio wedi cyrraedd y safon er bod y penderfyniad yn ymddangos yn amheus ar y sail hon. Problem arall yw defnyddio'r un darn o dystiolaeth dro ar ôl tro i enghreifftio safonau. Mewn rhai achosion ymddengys bod hyn yn ormodol.

5.23 Yma mae yna gysylltiadau anochel â mater ehangach dethol athrawon ar gyfer y Llwybr Portffolio. O'r 8 athro a gafodd eu recriwtio, dim ond 5 yr aseswyd eu bod wedi llwyddo i gyrraedd y safon a chafodd un o'r canlyniadau hyn ei gwestiynu uchod; gallai'r ffeithiau hyn awgrymu bod y broses wedi bod yn drylwyr. Nid oes rheswm i feddwl nad yw hynny'n wir, at ei gilydd. Fodd bynnag, mae'r ffaith y bu 3 o 8 (ac o bosibl dylai hyn fod yn 4 o 8) yn aflwyddiannus yn codi cwestiynau ynglŷn â pha mor addas oedd rhai o'r athrawon a gafodd eu recriwtio. Ai athrawon 'rhagorol' neu 'arbenigol' oedd y rhain, neu ai ymarferwyr cymwys oeddent? Pa dystiolaeth a gasglwyd i gefnogi eu ceisiadau, heblaw'r ffurflenni cais a gyflwynasant? A roddwyd cyfarwyddyd iddynt ar yr hyn a ystyriwyd yn berfformiad eithriadol a sut y gallent geisio enghreifftio hyn?

5.24 Roedd chwech o'r wyth athro a gafodd eu recriwtio naill ai'n meddu ar radd Meistr neu'n gweithio tuag at radd o'r fath. O'r ddau nad oeddent yn y categori hwn, llwyddodd un i gyrraedd y safon ar gyfer AS ac ni lwyddodd y llall oherwydd na chyflwynodd bortffolio. O'r chwech oedd yn meddu ar radd Meistr neu'n astudio ar gyfer y cymhwyster hwnnw, ni lwyddodd dau i gyrraedd y safon. Felly ymddengys mai cwestiwn agored yw a ddylai athrawon feddu ar gymhwyster lefel Meistr er mwyn dilyn llwybr Portffolio AS yn llwyddiannus. Er gwaethaf hyn, mae'r sefyllfa lle gall rhai athrawon gyflwyno tystiolaeth i gefnogi eu Profiad Allweddol sydd wedi'i chymryd o'u gwaith ar gyfer y radd Meistr, pan nad yw wedi bod yn ofynnol i eraill gael profiad o'r fath, yn ymddangos yn annheg.

Canfyddiadau cyffredinol

5.25 Mae cynllun peilot y Llwybr Portffolio'n awgrymu y gall fod yn ffordd briodol o recriwtio AS posibl a'u galluogi i ddangos y gallant gyrraedd y Safonau ar gyfer AS. At ei gilydd mae'r athrawon sydd wedi cymryd rhan yn y cynllun peilot hwn wedi'i gael yn brofiad dymunol a boddhaus.

5.26 Ymddengys fod yna broblemau o hyd ynglŷn â'r meini prawf a'r broses ar gyfer recriwtio athrawon i'r llwybr hwn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y priodoleddau a'r profiadau sydd ganddynt.
- Eu hysgogiad dros ymgeisio am statws AS.
- Pa mor briodol yw hi i bobl sydd mewn swyddi uwch arweinyddol neu ymgynghorwyr awdurdodau lleol ymgeisio am statws AS.
- Yr angen am broses ffurfiannol o ymgeisio ac ymbaratoi ar gyfer y llwybr gan gynnwys gwneud modiwl craidd ar Hunanwerthuso ac Adfyfyrio.
- A ddylai athrawon feddu ar gymhwyster lefel Meistr eisoes.
- A ddylai athrawon fod yn ymgymryd ag unrhyw fath arall o gymhwyster proffesiynol ar yr un pryd.

5.27 Mae'r broses o drefnu'r portffolio o gwmpas enghreifftio profiadau allweddol yn sylfaen dda ar gyfer dangos y safonau, ond gellid ei chryfhau trwy:

- Fframwaith ar gyfer y profiadau allweddol sy'n adlewyrchu'r priodoleddau allweddol y chwilir amdanynt mewn AS.
- Pwyslais cryfach ar ddangos y safonau ar gyfer AS yn gysylltiedig â chyflawniad myfyrwyr a gwella ysgolion.
- Cyfyngiad ar ddefnyddio un darn o dystiolaeth i enghreifftio safonau.

5.28 Mae'r safonau ar gyfer AS yn fframwaith defnyddiol, ond gallai fod yn ddefnyddiol eu mireinio i gynorthwyo â'r broses o gasglu tystiolaeth, enghreifftio ac asesu.

5.29 Mae'r system cymorth a chyfarwyddyd sy'n bodoli wedi bod yn llwyddiannus ar lefel cymorth Ymgynghorwyr ond mae angen gwneud mwy i ystyried gwerth amgylchedd dysgu rhithwir ac yn arbennig mewn perthynas â datblygu cymuned ddysgu broffesiynol i'r rheiny sy'n dilyn y Llwybr Portffolio.

5.30 Mae rôl yr Ymgynghorwyr/Aseswyr fel y'i cyflawnwyd yn y cynllun peilot yn un gadarn y mae modd ei datblygu.

6 CANFYDDIADAU: Y LLWYBR RHAGLEN

Cyflwyniad

6.1 Y dystiolaeth oedd yn sail i'r gwerthusiad o gynllun peilot y Llwybr Rhaglen oedd yr hyn a nodir yn 3.10 – 3.17 uchod.

6.2 Mae defnyddio'r fethodoleg werthuso gymysg hon wedi caniatáu i sail dystiolaeth doreithiog a thrylwyr gael ei chreu, gan fod 67% o'r athrawon a gymerodd ran wedi ymateb i holiaduron, sef tua hanner y garfan, a chan fod yr holl ddarparwyr wedi cael eu holi.

6.3 Ym mhob achos, bron, rhoddodd y darparwyr gydweithrediad llawn a pharod gyda'r gwerthusiad. Mewn un achos, fodd bynnag, ni chynigiodd y darparwr gydweithrediad o'r fath, er gwaethaf y ffaith bod hyn yn un o amodau'r arian a roddwyd gan CyngACC. Dyma'r modiwl hefyd – trwy gyd-ddigwyddiad neu beidio – lle cafwyd y gyfradd isaf o ymatebion (17%) i'r holiadur athrawon. Mae'n anochel bod hyn wedi effeithio ar y gwerthusiad o'r modiwl hwn, ond mae'n annhebygol iawn ei fod wedi effeithio ar y gwerthusiad cyffredinol o'r Llwybr Rhaglen.

Ysgogiad a chefndir yr athrawon a gymerodd ran

6.4 Mae'r ymatebion i'r holiaduron a'r cyfweliadau'n awgrymu, er ei fod wedi'i fynegi mewn amrywiaeth o ffyrdd, mai prif ysgogiad yr athrawon a gymerodd ran yn y cynllun peilot oedd eu dyhead i gael mwy o brofiad, i ychwanegu at eu proffil DPP, ac i hyrwyddo datblygiad eu gyrfa.

6.5 Uchelgais y mwyafrif o'r athrawon (65% o'r rhai a ymatebodd i'r holiadur) yn y pen draw oedd mynd ymlaen i swyddi uwch arweinwyr ysgol gyfan; roedd 23% eisiau bod yn brifathrawon. Dim ond rhyw 24% o'r rhai a ymatebodd i'r holiadur oedd yn dymuno aros yn yr ystafell ddosbarth a, thrwy gael cydnabyddiaeth o'u rhagoriaeth yn yr ystafell ddosbarth, dod o hyd i swydd yn gweithio gydag athrawon eraill i ddatblygu eu haddysgeg a'u DPP.

6.6 Drwy gydol y gwerthusiad hwn awgrymwyd bod gan y rhaglen AS y potensial i fod yn llwybr gyrfa i athrawon arbenigol a allai arwain gwelliannau mewn addysgeg a DPP athrawon. Ymddengys, fodd bynnag, bod y cynllun peilot wedi denu'n bennaf athrawon a'i gwelodd fel cyfle i hyrwyddo eu huchelgais i symud i swyddi uwch arweinwyr ysgol gyfan, cyn ceisio cael CPCP, yn ôl pob tebyg. Yn wir, roedd nifer fach eisoes wedi dechrau ar CPCP neu wedi

gwneud cais amdano, ac roedd grŵp mwy yn gwneud modiwlau Arweinyddiaeth Ganol ar yr un pryd, a ystyrient yn baratoad ar gyfer swydd uwch arweinydd.

6.7 Mae'r dadansoddiad hwn yn gyson ag argraff ehangach sy'n dod i'r amlwg o safbwyntiau'r darparwyr a barn y tîm gwerthuso, sef yr ymddangosai fod llawer o'r athrawon a ddewiswyd ar gyfer cynllun peilot y Llwybr Rhaglen, er ei bod yn amlwg mai athrawon cymwys oeddent, heb y profiad na'r statws i gael eu hystyried yn ymarferwyr arbenigol neu fedrus iawn. Cafodd hyn ei brofi mewn llawer o achosion gan eu perfformiad yn yr asesiadau o'r modiwlau.

6.8 Ymddengys, felly, bod materion o bwys yn codi mewn perthynas â'r broses ar gyfer dethol athrawon i gymryd rhan yn y Llwybr Rhaglen ar gyfer AS os yw'n mynd i gynnig ffordd i ymarferwyr eithriadol gael cydnabyddiaeth ac o bosibl rôl yn y proffesiwn wrth arwain gwelliannau yn ansawdd a DPP athrawon.

6.9 Mae gwybodaeth am y cymwysterau ffurfiol blaenorol a enillwyd gan yr athrawon a gymerodd ran ers cwblhau eu hyfforddiant cychwynnol a chyn cymryd rhan yn y cynllun peilot, yn taflu rhagor o oleuni ar y deipoleg a awgrymir uchod. Roedd 35% wedi ennill rhyw gymhwyster blaenorol ar lefel gradd Meistr neu is (Tystysgrif/Diploma i Raddedigion). Er bod y mwyafrif wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth o fentrau a rhaglenni gan ysgolion/awdurdodau lleol, roedd 62% heb ennill unrhyw gymwysterau ffurfiol pellach ers eu hyfforddiant cychwynnol. O gofio y byddai llawer o'r rhai oedd wedi dilyn y cyrsiau Tystysgrif/Diploma i Raddedigion (rhyw 25% o'r holl athrawon a ymatebodd i'r holiadur) wedi gwneud hynny er mwyn hyrwyddo eu huchelgais i fynd i swyddi uwch arweinwyr, yn gyffredinol mae'r data hwn a'r proffil o'r athrawon mae'n ei gynnig, yn cefnogi'r casgliad a nodir yn 6.8 uchod.

6.10 At ei gilydd, felly, fe ymddengys, er bod yr holl athrawon a gymerodd ran yn y cynllun peilot yn gwneud hynny er mwyn datblygu eu profiad a'u cymhwysedd proffesiynol, roedd y mwyafrif (tua 75%) yn gwneud hynny yn y gobaith y byddai'n gam ymlaen at swydd uwch arweinydd ysgol gyfan, a dim ond tua chwarter a'i gwelodd fel cyfle i gael cydnabyddiaeth o statws athro arbenigol a chyfleoedd gyrfa yn y dyfodol yn gysylltiedig â statws o'r fath.

Trefniadaeth y modiwlau

6.11 Roedd y deng modiwl a gynigiwyd yng nghynllun peilot y Llwybr Rhaglen yn cynnwys amrywiaeth o ddulliau darparu, gan gynnwys sesiynau addysgu (fesul cam a dwys), tiwtorialau (wyneb yn wyneb ac o bell) a dysgu dan gyfarwyddyd (gan gynnwys amgylcheddau dysgu rhithwir).

6.12 Roedd barn yr athrawon am drefniadaeth y modiwlau'n amrywio. Roedd y rhan fwyaf yn fodlon ar yr hyn a gynigwyd ac roedd eraill eisiau mwy o rywbeth a/neu lai o rywbeth arall. At ei gilydd roedd yr athrawon yn teimlo bod arnynt angen mwy o amser i wneud y gwaith gofynnol. Dylid cofio mai dim ond nifer fach o athrawon a gafodd brofiad o fwy nag un modiwl ac yn yr achosion hyn roedd trefniadaeth y ddau fodiwl yn eithaf tebyg. Nid oeddent, felly, yn cymharu gwahanol fodiwlau nac yn rhoi barn am raglen gwbl ddatblygedig.

6.13 I'r rhai oedd yn gorfod teithio cryn bellter i'r fan lle cynigiwyd y modiwl, roedd rhaglenni dwys, gan gynnwys un enghraifft lle'r oedd dau arhosiad dros nos, yn cael eu croesawu, gan eu bod yn tarfu llai ar eu gwaith a'u bywydau personol.

6.14 Roedd rhai athrawon yn teimlo y dylai mwy o'r amser a ddyroddwyd ar gyfer modiwl gael ei roi i ymchwil ac ymholi unigol yn hytrach na sesiynau a addysgwyd a thiwtorialau. Ar y llaw arall, roedd rhai a gymerodd ran yn teimlo nad oedd digon o addysgu, gyda'r rhan fwyaf o'r amser yn cael ei roi i hwyluso a chynorthwyo. Yn anochel mae hyn yn adlewyrchu, i ryw raddau, hoffterau'r athrawon o ran dulliau dysgu. Hefyd gellid disgwyl y byddai fersiwn gwbl ddatblygedig o'r Llwybr Rhaglen yn cynnwys amrywiaeth o ddulliau dysgu rhwng modiwlau i gyd-fynd â'r hoffterau amrywiol hyn.

6.15 Ymddengys y bu anawsterau mewn rhai achosion gydag athrawon yn defnyddio amgylcheddau dysgu rhithwir mewn prifysgolion, er yn yr achos lle'r oedd hyn yn ganolog i'r model nid oedd yn broblem ac yn wir roedd yn un o'r meysydd cryfaf yn nhrefniadaeth y modiwl. Hefyd cafodd rhai myfyrwyr broblemau ac oedi wrth geisio defnyddio llyfrgelloedd prifysgolion, ac o gofio bod llawer yn gweithio ymhell o leoliadau'r prifysgolion, roedd hyn yn anhawster sylweddol iddynt.

6.16 Roedd bron pob un o'r modiwlau (roedd un nad oedd) wedi'u bwriadu i gynnwys rhyw fath o weithio mewn partneriaeth rhwng sefydliadau addysg uwch ac awdurdodau lleol. Roedd natur y bartneriaeth yn amrywio. Yn achos dau fodiwl, fodd bynnag, er bod CyngACC wedi cynnig y tendr a gosod y contract ar gyfer y modiwlau ar y sail bod partneriaeth yn bodoli rhwng prifysgol ac awdurdod lleol, nid ymddengys bod y bartneriaeth hon yn wirioneddol nac yn weithredol. Ni chymerodd y partner oedd yn awdurdod lleol ran o gwbl mewn cyflwyno nac asesu'r modiwlau hyn.

6.17 Yn gyffredinol, gwelwyd bod bodolaeth partneriaeth weithredol a chryf rhwng sefydliad addysg uwch ac awdurdod lleol/consortiwm o awdurdodau lleol neu wasanaeth ymgynghorol awdurdod lleol, yn gryfder mawr o ran ansawdd darpariaeth y modiwlau a'u deilliannau llwyddiannus. Un o gryfderau

arbennig y trefniadau partneriaeth hyn oedd y ffordd y gellid dwyn ynghyd ymagweddau wedi'u seilio ar ymchwil a damcaniaethol (dan arweiniad staff sefydliadau addysg uwch) ac ymagweddau wedi'u seilio ar ymarfer (dan arweiniad staff awdurdodau lleol).

6.18 Yn gyffredinol, roedd yr athrawon yn cael bod y modiwlau'n gofyn am lawer o waith (llawer iawn mewn rhai achosion) ac roedd ganddynt bryderon gwirioneddol am hyn mewn perthynas â'r hyn a fyddai'n ofynnol wrth ddilyn y Llwybr Rhaglen llawn. Roedd croeso mawr i'r ffaith bod arian oddi wrth CyngACC wedi talu am eu habsenoldeb o'r ysgol gan gynnwys amser astudio, ond er hynny, roedd yna bryderon o hyd ynglŷn â llwyth gwaith posibl y rhaglen.

6.19 O gofio'r pryderon hyn a'r materion a grybwyllir uchod mewn perthynas â chryfder gweithio mewn partneriaeth a'r gallu i ddefnyddio llyfrgelloedd, gellid gofyn a ddylid darparu modiwlau ar sail ranbarthol i athrawon sy'n dilyn y Llwybr Rhaglen.

6.20 Yn achos dau fodiwl, roedd yn ofynnol i'r athrawon fod â mentor yn yr ysgol i'w cynorthwyo â'u gwaith, yn arbennig mewn perthynas â chadw dyddlyfrau'n cofnodi sut yr oeddent yn cymhwyso eu dysgu'n ymarferol a gwaith ymchwil gweithredol. Er yr ymddengys bod hwn yn syniad clodwiw sy'n adlewyrchu rôl hyfforddwyr mewn ysgolion yng nghymhwyster Meistr mewn Dysgu ac Addysgu yn Lloegr, roedd yn wynebu anawsterau ymarferol. Roedd y rhain yn deillio o'r problemau gydag ansawdd y cymorth ac ymrwymiad y rhai y gofynnwyd iddynt gyflawni'r rôl hon.

6.21 Mae hyn yn cyd-fynd â'r pwynt ehangach ynglŷn ag ymwybyddiaeth ysgolion o gynllun peilot y rhaglen AS a'u rhan ynddo. At ei gilydd nid oes llawer o ymwybyddiaeth, ac er nad yw hyn yn syndod efallai ar gyfnod peilot rhaglen, o gofio ei photensial yn y dyfodol a'r angen posibl, dymunol efallai, i gynnwys staff mewn ysgolion mewn rolau mentora/hyfforddi, mae hwn yn faes y mae angen ei ystyried.

6.22 I grynhoi, felly, mae'r gwerthusiad yn awgrymu'r canlynol mewn perthynas â **threfniadaeth y modiwlau** ar y Llwybr Rhaglen:

- Ei bod yn ddymunol i'r holl fodiwlau gael eu seilio ar bartneriaeth darparwyr wirioneddol a gweithredol mewn rhanbarth rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau addysg uwch.
- Fel rhan o ffurf lawn ar y Llwybr Rhaglen, dylid defnyddio amrywiaeth o ddulliau dysgu ac addysgu ar draws y modiwlau.
- Dylid ystyried llwyth gwaith posibl y rhai sy'n cymryd rhan.

- Mae angen ei gwneud yn haws i'r rhai sy'n cymryd rhan ddefnyddio llyfrgelloedd ac amgylcheddau dysgu rhithwir prifysgolion.
- Dylid ystyried rôl i fentoriaid/hyfforddwyr mewn ysgolion, er mwyn rhoi mwy o gymorth i'r rhai sy'n cymryd rhan, ac i gynyddu ymwybyddiaeth ysgolion o'r rhaglen a'u rhan ynddi.

Perthnasedd y modiwlau i addysgeg dysgu ac addysgu

6.23 Yn gyffredinol mae'r athrawon a gymerodd ran yn y cynllun peilot yn teimlo bod y modiwlau wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hymarfer eu hunain ac mae rhai'n cyfeirio at ddeilliannau tebyg, er eu bod yn gynnar, mewn perthynas â chyflawniad eu myfyrwyr.

6.24 Maent yn rhoi enghreifftiau o hyn mewn perthynas â'r ymwybyddiaeth fwy sydd ganddynt o sut y mae dysgu ac addysgu'n digwydd, y ffordd fwy adfyfyriol a gwerthusol y maent yn gweithredu yn awr, a'r parch mwy at ganlyniadau ymchwil addysgol.

6.25 Enghreifftiau penodol o hyn sy'n berthnasol iawn ar hyn o bryd mewn ysgolion yw'r ymagweddau seiliedig ar sgiliau sy'n ganolog i'r newidiadau i'r cwricwlwm a gyflwynwyd ers 2008, asesu ar gyfer dysgu, llafaredd a llythrennedd a defnyddio TGCh. O gofio pwysigrwydd y meysydd hyn, ymddengys nad oes amheuaeth bod athrawon mewn rhai achosion wedi dod i gysylltiad â'r addysgeg fwyaf blaenllaw, a fydd wedi gwella eu hymarfer proffesiynol cryn dipyn.

6.26 Mewn dau fodiwl, fodd bynnag, er bod yr athrawon yn canmol y cyfraniad damcaniaethol/academaidd, barnwyd bod yr ymdriniaeth o'r agweddau ymarferol, a'r rhai oedd yn canolbwyntio ar yr ystafell ddosbarth, ar lefel mor isel nes ei bod heb herio nac ategu at y wybodaeth oedd ganddynt eisoes. Ymddangosai fod hyn yn gysylltiedig â diffyg partneriaeth gref rhwng y darparwr addysg uwch a'r darparwr sy'n awdurdod lleol, oedd yn defnyddio cyfraniad posibl yr ail bartner.

6.27 Er bod yr athrawon yn cydnabod y cyfraniadau oedd at ei gilydd o ansawdd da a wnaethpwyd gan y rhai a gyflwynodd y modiwlau, roeddent yn gwerthfawrogi'n arbennig y dysgu a'r dirnadaethau a gawsant gan yr athrawon eraill oedd yn cymryd rhan. Barnwyd mai un o'r cryfderau arbennig oedd y rhyngweithio rhwng athrawon o wahanol sectorau (cynradd/uwchradd ac arbennig) yn ogystal ag ysgolion. Mae canfyddiadau o'r fath yn adlewyrchu'r hyn a wyddys yn gyffredinol (adran 4 uchod) ynglŷn â'r ffaith mai mathau cydweithredol a rhyngweithiol o DPP sydd orau gan athrawon.

6.28 Er bod y deilliannau hyn yn amlwg yn gadarnhaol ac yn galonogol, at ei gilydd maent yn anecdotaidd ac yn agweddol eu natur, ac nid ydynt wedi'u cefnogi gan unrhyw ddata meintiol neu ansoddol cadarn sy'n profi i ba raddau y cafwyd enillion o ran arbenigedd athrawon a chanlyniadau myfyrwyr.

6.29 Mewn perthynas ag effaith y Llwybr Rhaglen ar addysgeg dysgu ac addysgu'r athrawon hynny a gymerodd ran yn y cynllun peilot, gellir felly dod i'r casgliadau canlynol:

- Mewn nifer o achosion mae athrawon wedi cael eu cyflwyno i feysydd o'r addysgeg fwyaf blaenllaw, sydd wedi herio a dylanwadu ar eu hymarfer.

- Mae'r rhai a gymerodd ran wedi gwerthfawrogi'n arbennig y cyfle i ddysgu o brofiad amrywiol eu cydweithwyr.

- Dywedir bod effaith wirioneddol y profiad hwn, oedd at ei gilydd yn gyfoethog, ar eu cymhwysedd addysgu ac ar ddysgu myfyrwyr, yn un gadarnhaol; ond i raddau helaeth mae'r fath dystiolaeth heb ei phrofi a dylid ymchwilio ymhellach iddi mewn unrhyw werthusiad parhaus o'r rhaglen AS.

Bodolaeth Cymuned Ddysgu Broffesiynol

6.30 O gofio'r hoffter hysbys at ddysgu cydweithredol sy'n canolbwyntio ar athrawon a'r hyn a adroddir yn 6.26, mae'n bosibl y buasai potensial mawr i gymunedau ymarfer/cymunedau dysgu proffesiynol gael eu datblygu ymysg y rhai a gymerodd ran yn y modiwlau.

6.31 Mae'n amlwg bod hon yn agwedd a gafodd ei hwyluso gan y darparwyr mewn rhai achosion, ond mewn achosion eraill naill ai nid oedd yn cael ei hystyried yn rhan o drefniadaeth y modiwl, neu gadawyd i'r athrawon weithredu arni.

6.32 Mewn un modiwl roedd creu cymuned o'r fath, wedi'i hwyluso gan amgylchedd dysgu rhithwir, wrth wraidd trefniadaeth a phwrpas y model. Crëwyd fforwm trafod gweithgar a daeth hwn yn ganolog i'r hyn a farnwyd yn fodiwl llwyddiannus iawn a fodelodd yr addysgeg fwyaf blaenllaw yr oedd yn canolbwyntio'n bennaf arni.

6.33 Mewn achos arall crëwyd ystafell sgwrsio lle gallai athrawon drafod y safonau y'u heriwyd i ymdrin â hwy a'u henghreifftio yn y modiwl, gan gynnig sicrwydd a dysgu cydweithredol oedd wedi'i seilio ar eu hymarfer eu hunain.

6.34 Roedd darparu dau arhosiad dros nos fel rhan o drefniadaeth ddwys modiwl arall hefyd wedi'i gyfiawnhau'n rhannol gan y bwriad i hwyluso cymuned ddysgu broffesiynol a barnwyd ei fod wedi llwyddo i wireddu'r uchelgais hwn.

6.35 Ffordd arall yr oedd dysgu cydweithredol o'r fath yn cael ei hyrwyddo oedd trwy gyflwyniadau unigol o brosiectau ymchwil gweithredol/ystafell ddosbarth i'r grŵp cyfan.

6.36 Mewn rhai achosion bu problemau gyda defnyddio amgylcheddau dysgu rhithwir prifysgolion yn rhwystro yn hytrach na hwyluso cymunedau dysgu posibl.

6.37 Yn gyffredinol, felly, mae'r potensial i gymunedau dysgu proffesiynol gael eu sefydlu fel ffordd o hybu dysgu cydweithredol wedi cael ei hyrwyddo a'i hwyluso i ryw raddau mewn modiwlau ar gynllun peilot y Llwybr Rhaglen. Lle mae hyn wedi bod yn wir maent wedi bod yn llwyddiannus, at ei gilydd, ac wedi cyfrannu'n sylweddol at ansawdd y modiwlau.

Y cydbwysedd rhwng damcaniaeth ac ymarfer

6.38 Roedd ystyried cydbwysedd rhwng damcaniaeth ac ymarfer yng nghynnwys y modiwlau yn rhywbeth yr oedd CyngACC wedi gofyn i'r darparwyr ei wneud yn wreiddiol. Er bod hwn ei hun efallai'n faes a allai arwain at drafodaeth broffesiynol ac academaidd, mae'r gwerthusiad wedi ceisio canfod i ba raddau y gwnaethpwyd hyn.

6.39 At ei gilydd mae'r athrawon wedi teimlo bod y cydbwysedd yn iawn, ond bod rhai yn anochel yn meddwl y dylai fod mwy neu lai o'r naill neu'r llall. Mewn nifer gyfyngedig o achosion roedd yna deimlad cyffredinol y cafwyd gormod o ddamcaniaeth a dim digon o ymarfer (dau fodiwl), neu fod gormod o ganolbwyntio ar ymarfer a dim digon o sylfaen ddamcaniaethol (un modiwl). Fodd bynnag, nid oedd y rhain yn feysydd lle'r oedd gan yr athrawon farn gref, at ei gilydd.

6.40 Er bod yr athrawon yn gyffredinol yn mwynhau darllen gweithiau academaidd ac adroddiadau ymchwil, roeddent yn cael bod integreiddio hyn i'r gwaith ar y modiwl, a'r amser yr oedd ei angen i wneud hynny, yn her.

6.41 Fel y nodwyd uchod, teimlwyd mai'r modiwlau lle cafwyd partneriaethau cryf rhwng darparwyr academaidd a darparwyr sy'n awdurdod

lleol oedd y rhai a sicrhaodd y cydbwysedd gorau rhwng damcaniaeth ac ymarfer.

6.42 Er bod y darparwyr yn credu, at ei gilydd, bod angen diwygio'r Safonau cyfredol ar gyfer AS, roeddent yn cydnabod bod cael set ddefnyddiadwy o safonau'n ffordd ddefnyddiol o ddangos cydbwysedd rhwng damcaniaeth ac ymarfer.

6.43 I grynhoi, felly, yn y rhan fwyaf o achosion, ond nid pob un, dirnadaeth yr athrawon oedd bod gan y modiwlau'r cyfuniad iawn o ddamcaniaeth ac ymarfer. Y rhai a sicrhaodd y cydbwysedd hwn oedd y rhai lle'r oedd y bartneriaeth rhwng y brifysgol a'r awdurdod lleol yn gryf. Mae potensial i'r safonau ar gyfer AS chwarae rôl ddefnyddiol mewn dangos sut orau y gellir sicrhau'r cydbwysedd hwn.

Y cyfraniad at ddatblygu arweinyddiaeth

6.44 Fel y dadleuwyd yn adran 4 uchod, gellir barnu bod gan gysyniad AS gryn botensial trwy'r gydnabyddiaeth y gallai ei rhoi i athrawon arbenigol a thrwy ddatblygu rôl iddynt fel arweinwyr addysgeg a DPP athrawon mewn ysgolion.

6.45 Er gwaethaf y ffaith, fel y nodwyd uchod, nad oedd y rhan fwyaf o'r athrawon a gafodd eu recriwtio i'r cynllun peilot yn ceisio symud ymlaen yn eu gyrfaoedd yn y ffordd hon, ac nad yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn gyfarwydd â chysyniad AS eto, mae'r potensial iddo gael ei ddatblygu fel hyn yn dod i'r amlwg o brofiad y cynllun peilot.

6.46 Mae'r athrawon a gymerodd ran yn y cynllun peilot yn dweud eu bod wedi cymryd rhan mewn arwain addysgeg/DPP fel hyn trwy:

- Lledaenu deilliannau dysgu o'r modiwlau'n anffurfiol i'w cydweithwyr.
- Prosiectau ymchwil gweithredol/ystafell ddosbarth, a ystyrir yn ffordd arbennig o effeithiol o ddatblygu'r rôl hon.
- Cyflwyniadau/adroddiadau i dimau uwch arweinwyr.
- Cyflwyniadau i weithgorau dysgu ac addysgu mewn ysgolion ac aelodaeth ohonynt.
- Cymryd rhan mewn HMS yn yr ysgol.
- Cyfrannu at Gynllun Gwella'r Ysgol.
- Cydweithwyr yn arsylwi ar eu gwersi.
- Cymryd rhan, gyda gwasanaeth ymgynghorol eu hawdurdod lleol, mewn gweithgorau a rhoi cyflwyniadau mewn cynadleddau athrawon.

6.47 Mae'n glir bod rhai athrawon a'u hysgolion/awdurdodau lleol wedi manteisio ar y cyfleoedd hyn mwy nag eraill, ond ymddengys y bu rhywfaint o adborth o'r math hwn i'r system, yn y rhan fwyaf o achosion, o ganlyniad i gymryd rhan yng nghynllun peilot Llwybr Rhaglen AS.

6.48 Mae nifer fawr o'r athrawon a gymerodd ran yn cydnabod bod yna botensial o ran arweinyddiaeth o'r math hwn a allai fod yn gysylltiedig â rôl AS, hyd yn oed os nad dyna'r llwybr y maent eisiau i'w gyrfa eu hunain ei ddilyn. Er bod rhai'n gweld hyn yn gyfystyr â bod yn 'arweinydd canol', mae eraill yn ei hystyried yn rôl gwbl wahanol.

6.49 Yn hyn o beth ac yn fwy bras ymddengys bod cysyniad 'arweinydd canol' yn un di-ffurf ac annelwig nad yw'n cynnig eglurder ar gyfer datblygu arweinyddiaeth wasgaredig sy'n gallu effeithio, ar lefel yr ysgol gyfan, ar wella ansawdd athrawon a deilliannau myfyrwyr.

6.50 Mae'n amlwg, felly, o gynllun peilot y Llwybr Rhaglen bod gan rôl yr AS botensial sylweddol ar gyfer datblygu 'rôl arweinyddol' ar wahân sy'n gysylltiedig ag addysgeg a DPP athrawon ar lefel yr ysgol a'r awdurdod lleol. Er mwyn i'r rôl hon gael ei datblygu, mae angen llawer mwy o eglurder ynglŷn â'r hyn a olygir gan gysyniad 'arweinyddiaeth ganol' mewn perthynas â datblygu mathau mwy gwasgaredig o arweinyddiaeth.

Cyfrannu at effeithiolrwydd ysgolion a gwella ysgolion

6.51 Mae yna botensial sylweddol i fodiwlau sy'n rhan o'r Llwybr Rhaglen gyfrannu at wella ysgolion ac effeithiolrwydd ysgolion yn ehangach. Mae llawer o'r potensial hwn eisoes wedi cael ei ystyried uchod mewn perthynas â'r effaith mae'r modiwlau wedi'i chael ar addysgeg dysgu ac addysgu, datblygiad cymunedau dysgu proffesiynol a datblygiad arweinyddiaeth. Dim ond mewn nifer fach o fodiwlau yr oedd y potensial hwn heb gael ei ystyried a'i ddatblygu.

6.52 Mae'n werth nodi mewn synthesis, fodd bynnag, yr enghreifftiau canlynol lle'r ymddengys fod y modiwlau mwyaf effeithiol wedi gwneud cyfraniad sylweddol yn y maes hwn:

- Athrawon yn rhannu ymarfer effeithiol ar draws cyfnodau a rhwng meysydd pwnc uwchradd.
- Yr ymwybyddiaeth fwy a'r defnydd mwy o addysgeg effeithiol y mae athrawon wedi'u cael o'r rhan fwyaf o'r modiwlau.
- Aseiniadau seiliedig ar ymchwil gweithredol/ystafell ddosbarth sydd wedi arwain at ymyriadau penodol wedi'u cynllunio i sicrhau bod ysgolion yn gwella.

Asesu modiwlau

6.53 Fel y nodwyd uchod, barnwyd mai'r aseiniadau mwyaf llwyddiannus oedd y rhai a ganolbwyntiodd ar ymchwil gweithredol/ystafell ddosbarth oedd yn gysylltiedig ag ymyriadau a gynlluniwyd i sicrhau bod ysgolion yn gwella mwy a'u bod yn fwy effeithiol. Er bod aseiniadau o'r fath yn galw am ddarllen cefndirol priodol, barnwyd bod y cydbwysedd rhwng hyn a'r elfen ymchwil ymarferol yn hanfodol bwysig. Mewn rhai achosion, lle barnwyd nad oedd aseiniadau'n briodol, roedd y cydbwysedd yn gogwyddo ormod tuag at ddarllen cefndirol a dim digon at weithredu ymarferol.

6.54 Roedd nifer o'r modiwlau'n defnyddio dyddlyfrau dysgu lle'r oedd yr athrawon yn cofnodi, mewn ffordd adfyfyriol a gwerthusol, eu dysgu a'r ffordd y cafodd ei gymhwyso. Er bod rhai myfyrwyr yn anesmwyth ac yn ansicr ynglŷn â'r dull hwn ar ddechrau'r modiwl, daeth y rhan fwyaf i'w weld yn ffordd ymarferol ac effeithiol o wneud asesiad.

6.55 Roedd llawer o'r athrawon yn teimlo na roddwyd digon o gyfarwyddyd a chymorth iddynt wrth wneud aseiniadau, ac mewn un achos roedd cryn dipyn o ddryswch ynglŷn â'r disgwyliadau o ran yr aseiniad, a achosodd i nifer o athrawon gefnu ar y modiwl.

6.56 At ei gilydd, felly, mae'r aseiniadau wedi bod yn fwyaf addas i'r diben lle'r oedd ganddynt y cydbwysedd iawn rhwng darllen cefndirol a chanolbwyntio ar ymchwil gweithredol/ystafell ddosbarth. Profodd dyddlyfrau dysgu'n ffordd effeithiol i athrawon wneud y gwerthuso a'r adfyfyrio sy'n gysylltiedig â'r fath aseiniadau.

Y Safonau ar gyfer Athro Siartredig

6.57 At ei gilydd, y rhain oedd yr agwedd fwyaf problemus ar gynllun peilot y Llwybr Rhaglen.

6.58 Mae'r problemau a gafwyd wedi cynnwys y canlynol:

- Ni chafwyd ymgais cyson i fapio'n ddiagnostig lle mae'r athrawon hynny a gymerodd ran yn y cynllun peilot mewn perthynas â'r Safonau ar y dechrau. At ei gilydd, felly, ni chafwyd unrhyw asesiad llinell sylfaen.
- Ni chafwyd unrhyw fapio cyffredinol o'r safonau yn erbyn y modiwlau er mwyn sicrhau eu bod yn ymdrin â hwy mewn ffordd briodol o wasgaredig ond cydlynus. Felly mae rhai darparwyr wedi ceisio ymdrin â'r holl safonau (rhywbeth y gellir ei ystyried yn

broblemus ac yn amhosibl ei gyflawni ynddo'i hun) ac ar y pegwn arall mae eraill wedi cyfyngu eu hunain i 5 neu 6 o'r safonau. Defnyddiodd CyngACC brofiad blwyddyn gyntaf y cynllun peilot i annog darparwyr yn yr ail flwyddyn i fireinio eu hymarfer yn y maes hwn.

- Mae darparwyr yn credu bod y safonau yn ailadroddus mewn rhai achosion ac felly nad ydynt yn hawdd eu defnyddio.
- Mewn tri modiwl ni chafwyd unrhyw ymgais gweladwy gan y darparwyr i gydnabod nac i ymdrin â'r safonau.
- Mewn nifer fwy o achosion (gan gynnwys pob un oedd yn ymwneud â'r modiwlau y cyfeirir atynt yn y pwynt bwled blaenorol) nid oedd athrawon yn gwybod pa safonau oedd yn cael sylw yn y modiwlau a'r aseiniadau cysylltiedig, neu roeddent wedi drysu ynglŷn â hyn.
- Mae'n glir na ellir ymdrin yn briodol â'r holl safonau trwy aseiniadau ysgrifenedig ac mae llawer o'r athrawon a rhai o'r darparwyr yn cydnabod y dylai fod rhyw ffordd ymarferol yn yr ystafell ddosbarth o farnu yn erbyn y safonau, wedi'i seilio ar arsylwi ar athrawon wrth eu gwaith.
- Mewn llawer o achosion roedd y darparwyr (yr oedd y rhan fwyaf ohonynt yn cydnabod hyn) yn ymdrin â safonau ychwanegol i'r rhai yr oeddent wedi bwriadu canolbwyntio arnynt.
- Ychydig o fodiwlau a ganolbwyntiodd ar y safonau fel rhan o amcanion dysgu/addysgeg y sesiynau astudio ar y modiwlau ac felly nid oeddent yn cynnig cyfleoedd cydweithredol i athrawon drafod y safonau a sut y gallent eu henghreifftio o'u hymarfer eu hunain.

6.59 Mewn nifer fach o achosion bu i fodiwlau osgoi'r anawsterau hyn a dewis safonau'n ofalus, gan eu cysylltu gydag addysgeg y modiwl a'r aseiniadau.

6.60 Ymddengys mai hanfod y problemau a gafwyd yw'r ymgais i ddefnyddio set o safonau fel ffordd grynodol o asesu cymhwysedd athrawon ym mhob un o'r modiwlau, yn hytrach nag fel offeryn diagnostig a ffurfiannol. Felly maent wedi cael eu defnyddio mewn ffordd grynodol, fel ticio blychau, yn hytrach nag fel tystiolaeth ddiagnostig a ffurfiannol a all ysgogi'r athro i werthuso ac adfyfyrio.

6.61 Mae'n debyg y caiff y sefyllfa hon ei datrys, felly, trwy ddefnyddio dulliau diagnostig a ffurfiannol o asesu ar gyfer pob un o'r modiwlau, gan arwain ar ddiwedd y Llwybr Rhaglen llawn at asesiad crynodol o athrawon yn erbyn y safonau cyffredinol mewn ffordd debyg i'r defnydd o'r portffolio ar y Llwybr Portffolio.

6.62 Byddai angen i hyn gael ei gysoni â set ddiwygiedig o safonau sy'n fwy cryno ac yn llai ailadroddus ac felly'n fwy addas i'r diben, wedi'u seilio ar nodweddion athrawon arbenigol a nodir uchod yn 5.21, sef:

- Rhagoriaeth wrth addysgu yn y dosbarth
- Arwain cydweithwyr mewn addysgeg a DPP
- Gwaith a wneir gydag asiantaethau y tu allan i'r ysgol.

6.63 Mae'n debyg y byddai symud ymlaen mewn cyfeiriad o'r fath yn ffordd lai biwrocrataidd a darniog o asesu'r safonau a gellid barnu y byddai'n defnyddio/modelu prif nodweddion asesu ar gyfer dysgu. Fodd bynnag, byddai gan hyn oblygiadau ar gyfer achredu'r modiwlau yn erbyn fframweithiau academaidd. Rhoddir ystyriaeth bellach i hyn isod.

6.64 I grynhoi, felly, gellir dweud y canlynol mewn perthynas â'r Safonau ar gyfer AS:

- Yn y ffordd y maent wedi cael eu defnyddio yn y cynllun peilot, nid ymddengys fod y safonau presennol yn addas i'r diben a dylid eu diwygio er mwyn iddynt gynnwys, mewn ffordd gryno a hawdd ei defnyddio, nodweddion allweddol athrawon arbenigol.

- Dylai'r safonau diwygiedig gael eu defnyddio mewn modd cynlluniedig a chyson gan bob darparwr modiwlau, fel ffordd o asesu athrawon yn ddiagnostig ac yn ffurfiannol.

- Dylai athrawon gael eu hasesu'n grynodol ar ddiwedd y Llwybr Rhaglen trwy bortffolio sy'n dwyn ynghyd eu hasesiadau o'r modiwlau.

- Dylid defnyddio'r safonau fel un o nodweddion canolog amcanion dysgu ac addysgeg pob modiwl a dylai athrawon gymryd rhan mewn trafod yn gydweithredol ac enghreifftio'r safonau.

- Dylid rhoi ystyriaeth i ffyrdd ymarferol, yn yr ystafell ddosbarth a'r ysgol, y gall athrawon ddangos y safonau.

Achrediad academaidd

6.65 Fel gyda'r Safonau ar gyfer AS mae'r maes hwn wedi profi'n un problemus iawn mewn perthynas â chynllun peilot y Llwybr Rhaglen.

6.66 Er mwyn deall pam y mae hyn wedi bod yn wir, bydd yn ddefnyddiol gosod yn eu cyd-destun ymagwedd systemau addysg, gan gynnwys system

addysg Cymru, at DPP sy'n gysylltiedig â dyfarniadau academaidd, a systemau achrediad academaidd sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

6.67 Fel y nodwyd uchod yn adran 4, mae'r Ffindir yn enghraifft o wlad lle mae'n ofynnol i bob athro ennill cymhwyster Meistr. Ystyrir hyn yn symbol o'r buddsoddiad sylweddol mae'n ei wneud mewn sicrhau ansawdd da athrawon er mwyn cynhyrchu lefelau eithriadol o berfformiad addysgol.

6.68 Mewn gwledydd eraill lle gwyddys fod ansawdd athrawon yn dda, nid oes yr un gofyniad i athrawon ennill cymhwyster lefel Meistr ond mae'r gwledydd hyn yn buddsoddi'n sylweddol yn natblygiad athrawon o ansawdd da. Er ei bod yn ddyddiau cynnar, gellir ystyried bod cyflwyno gradd Meistr mewn Dysgu ac Addysgu yn Lloegr yn ymrwymiad tebyg i symud yn y cyfeiriad hwn.

6.69 Nid oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru safbwynt polisi ar hyn o bryd ynglŷn ag athrawon yn ennill statws lefel Meistr. Mewn perthynas â datblygu ansawdd athrawon, mae pwysigrwydd DPP yn cael ei gydnabod yn llawn ac mae'n debygol y bydd y pwyslais hwn yn tyfu yn sgil cyflwyno'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Gallai hybu DPP fel hyn, fel gyda phroffesiynau eraill yng Nghymru megis gwaith cymdeithasol a nyrsio, gynnwys hyrwyddo ennill cymwysterau lefel Meistr.

6.70 Pe bai hyn yn digwydd, mae'n amlwg y byddai'n ddefnyddiol pe bai yna fframwaith Cymru gyfan ar gyfer achredu DPP a fyddai'n cynnwys cydnabod y rhaglen AS. Nid oes fframwaith o'r fath yn bodoli ac yn wir nid oes unrhyw gysondeb yn y system achrediadau a ddyfernir gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru i DPP athrawon. Mewn perthynas â'r hyn sy'n dilyn mae'n bwysig nodi bod angen 180 o gredydau academaidd ar lefel 7 i ennill gradd Meistr lawn.

6.71 Bellach dyfernir credydau lefel Meistr i'r rhai sy'n dilyn llwybr TAR i addysgu. Mae darparwyr TAR yng Nghymru'n cynnig rhwng 30 a 60 o gredydau.

6.72 Mewn perthynas â modiwlau'r Rhaglen Athro Siartredig, mae'r sefyllfa mewn perthynas ag achrediad academaidd fel y'i nodir yn 2.23 uchod. Yr hyn mae hyn yn ei ddangos yw bod sefydliadau addysg uwch, fel y bwriadwyd gan CyngACC fel rhan o'r cynllun peilot, wedi:

- Cysoni'r modiwlau ar wahanol lefelau yn eu fframweithiau academaidd: naill ai lefel 6 (Diploma i Raddedigion) neu lefel 7 (gradd Meistr).
- Dyroddi gwahanol sgorau credyd ar bob un o'r lefelau hyn.

6.73 Wrth gwrs mae gan brifysgolion, fel sefydliadau ymreolaethol, bob hawl i wneud eu penderfyniadau eu hunain, trwy eu systemau sicrhau ansawdd academaidd, ynglŷn â faint o gredyd academaidd y byddant yn ei ddyfarnu i fodiwl.

6.74 Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a gasglwyd trwy'r gwerthusiad hwn yn awgrymu y bu cryn anghysondeb yn nisgwyliadau sefydliadau unigol wrth iddynt asesu'r modiwlau. Mewn rhai achosion ymddengys y bu'n ofynnol i athrawon wneud yr un maint o waith, a gwaith o'r un ansawdd, am 15 credyd ar lefel 7 lle mewn modiwlau eraill maent wedi bod yn cael 30 credyd ar yr un lefel. Ymddengys fod yr un peth yn wir am waith ar lefel 6. Ymddangosai hefyd bod disgwyliadau rhwng sefydliadau ynglŷn â gwaith ar yr un lefel ac am yr un nifer o gredydau yn sylweddol wahanol.

6.75 Felly roedd yna anghysondebau sylweddol ac annhegwch ymddangosiadol wrth ddyfarnu credyd academaidd i'r modiwlau yn y rhaglen beilot.

6.76 Mae barn yr athrawon a gymerodd ran yn y cynllun peilot yn ddiddorol yn hyn o beth. Ymddangosai fod nifer sylweddol o'r athrawon heb ddiddordeb, o leiaf, yn y gobaith o gael achrediad academaidd am eu gwaith, ac roedd rhai o'r rhain yn gwrthwynebu'r syniad y dylai hyn fod yn un o elfennau'r rhaglen, gan ei fod yn gorbwysleisio agwedd academaidd yn hytrach nag agwedd ymarferol y modiwlau. Mae'n debyg y byddai cyfatebiaeth fawr rhwng athrawon oedd yn coleddu barn o'r fath a'r 62% o'r rhai a gymerodd ran nad oeddent wedi ceisio cael unrhyw gymwysterau ffurfiol o ran DPP ers eu hyfforddiant cychwynnol athrawon.

6.77 Fodd bynnag, roedd yna nifer fawr o athrawon (yn cyfateb, mae'n debyg, i'r 35% oedd wedi cyflawni astudiaethau lefel Meistr ers eu hyfforddiant cychwynnol, a hefyd rhai oedd heb wneud hynny) a gredai'n gryf iawn y dylai gwaith ar y modiwlau AS fod yn gysylltiedig ag achrediad academaidd. Teimlai llawer o'r athrawon hyn bod cael 15 neu 20 credyd yn unig am eu gwaith yn annheg iawn a'u bod, mewn cymhariaeth, wedi cael llawer iawn mwy o gredyd am waith oedd yr un mor feichus neu'n llai beichus mewn modiwlau eraill yr oeddent wedi'u hastudio ar raglenni gradd meistr neu lefel gradd Meistr.

6.78 Tueddai'r athrawon hyn hefyd i goleddu barn gref am y gwaith a wnaethpwyd yn cael ei achredu ar lefel 7 (gradd Meistr) yn hytrach na lefel 6 (Diploma i Raddedigion). Roedd yr athrawon hynny oedd heb ddiddordeb mewn achrediad academaidd, neu a deimlai na ddylai fod yn un o nodweddion amlwg y modiwlau, yn fwy bodlon iddo fod ar lefel 6, os yn wir yr oedd i arwain at achrediad academaidd o gwbl.

6.79 Mae hefyd yn bwysig ystyried y materion hyn yn eu holl agweddau. Os yw Llwybr Rhaglen AS datblygedig yng Nghymru i gynnwys 12 modiwl ac os yw'r modiwlau hynny i gael eu cysylltu â chymhwyster Meistr sy'n gofyn am 180 o gredydau academaidd, yna mae hyn yn golygu y byddai pob modiwl yn werth 15 credyd ar lefel 7 ac yn ôl pob tebyg â gwerth gwahanol ar lefel 6. Gallai hyn awgrymu, er y byddai rhai athrawon yn cael achrediad am ddysgu blaenorol (er enghraifft y 35% ar y cynllun peilot oedd eisoes wedi cyflawni rhyw fath o astudiaethau) gallai hyn olygu o hyd, pe baent yn astudio 2 fodiwl y flwyddyn, y byddai'n cymryd chwe blynedd i rai athrawon ennill statws Athro Siartredig a chymhwyster Meistr. Mae hyn yn ymddangos yn annheg pan fo athro ar hyn o bryd yn gallu cyflawni modiwlau gradd Meistr sy'n werth 30 credyd a chwblhau gradd Meistr mewn tair blynedd. Bydd hyn yn wir hefyd am y radd Meistr mewn Dysgu ac Addysgu yn Lloegr.

6.80 Ymddengys fod hon yn sefyllfa ddryslyd ac yn un sy'n peri dryswch. Beth yw'r ffordd ymlaen, tybed? Gallai fod llai o fodiwlau yn unrhyw Lwybr Rhaglen ar ei wedd derfynol, gyda phob un yn werth 30 credyd a chyda'r rhaglen yn cael ei chwblhau mewn 3 blynedd ac nid 6. Neu, efallai y gellid cysoni rhai modiwlau'n unig ag achrediad academaidd, sef efallai'r modiwlau craidd a gymerir gan bob athro a chan gynnwys y rhai y dyfernir credyd iddynt am ddysgu blaenorol.

6.81 Gallai dewis arall gael ei gysylltu â'r awgrym yn 6.61-6.63 uchod i'r Llwybr Rhaglen gael ei asesu ar ddiwedd y rhaglen ac nid trwy bob un o'r modiwlau. Byddai hyn yn golygu y gellid dyfarnu credyd academaidd wedyn ar lefel briodol i'r rhaglen gyfan a'i deilliannau.

6.82 Byddai hyn, yn ei dro, yn galw am fframwaith cenedlaethol i gysoni gwahanol fathau o DPP, gan gynnwys y Rhaglen AS, â'r cyfraddau credyd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r sefydliadau addysg uwch yn cytuno arnynt. Trwy hyn, yn hytrach na mynnu y byddai angen i athrawon yng Nghymru yn y dyfodol feddu ar gymhwyster lefel gradd Meistr, byddai athrawon sy'n cyflawni DPP yn cael eu hannog a'u hwyluso i geisio cael achrediad academaidd trwy'r safonau hyn y cytunir arnynt yn genedlaethol. Byddai'r Llwybr Rhaglen AS yn un ffordd bwysig y gallai athrawon, pe baent yn dewis gwneud, gyflawni hyn.

6.83 I grynhoi, felly:

- Ymddangosai fod llawer o'r athrawon ar y rhaglen beilot heb ddiddordeb mewn achredu'r rhaglen yn academaidd, ond credai nifer sylweddol y dylai fod modd ei hachredu.
- Credai'r rhai yr oedd ganddynt ddiddordeb mewn achrediad academaidd y dylai fod ar lefel 7 gyda 30 credyd ar gael.

- Er mai bwriad CyngACC oedd peilota gwahanol ymagweddau at achrediadau addysg uwch, cafwyd cryn dipyn o anghysonderau ac annhegwch ymddangosiadol yn y ffordd y mae sefydliadau addysg uwch wedi dyfarnu credyd i fodiwlau ar y llwybr rhaglen.
- Mae'n bosibl mai'r ffordd ymlaen yn y sefyllfa hon fyddai i fframwaith cenedlaethol ar gyfer achredu DPP athrawon gan sefydliadau addysg uwch gael ei ddatblygu, fel rhan o ymrwymiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i athrawon gysylltu DPP ag achrediad academaidd.
- Gallai hyn alluogi'r athrawon hynny sy'n dymuno cael achrediad academaidd i gael eu hasesu ar ddiwedd Llwybr Rhaglen AS, fel rhan o'r broses lle maent yn cael eu barnu yn erbyn y Safonau ar gyfer AS.

Materion eraill

6.84 At ei gilydd roedd yr athrawon a wnaeth fodiwlau craidd dynodedig yn teimlo y dylai fod ganddynt y statws hwnnw ar y llwybr rhaglen. Roedd gan athrawon a darparwyr farn lawn mor gref ynglŷn â'r modiwl Addysgeg TGCh a'r modiwl Ymchwil Gweithredol.

6.85 Mae'n ddiddorol yn hyn o beth bod ymchwil ac ymholi yn fodiwl craidd yn y radd Meistr mewn Dysgu ac Addysgu a bod hyn yn wir yn gyffredinol gyda graddau Meistr ym maes addysg. O gofio, fel y nodir uchod, y gefnogaeth gref y mae athrawon yn ei rhoi i ddefnyddio dulliau ymchwil gweithredol/ystafell ddosbarth yn eu haseiniadau a'r potensial sydd gan y rhain ar gyfer rôl arweinyddol AS a'u rhan mewn gwella ysgolion, ymddengys fod yr achos dros wneud modiwl o fath ymchwil ac ymholi yn un o elfennau craidd rhaglen AS ddatblygedig yn un gref.

6.86 Ymddengys fod yr achos dros TGCh yr un mor gryf. Os yw AS i fod yn athrawon arbenigol ac os ydynt i roi arweinyddiaeth i eraill, ymddengys yn annhebygol tu hwnt na fyddent yn ddefnyddwyr addysgeg TGCh medrus iawn. Pe bai hwn yn cael ei wneud yn fodiwl craidd, fodd bynnag, mae'n amlwg y byddai angen gwneud lefel weddol uchel o fedrusrwydd wrth ddefnyddio TGCh yn un o'r gofynion recriwtio i'r rhaglen Athro Siartredig.

6.87 Mae'r tîm gwerthuso wedi canfod problem arall mewn perthynas â'r modiwlau craidd. Mewn perthynas â dau o'r modiwlau craidd (Hunanwerthuso ac Adfyfyrio a Dysgu, Addysgu ac Asesu) penderfynodd CyngACC ddefnyddio dau ddarparwr ym mhob achos mewn gwahanol rannau o Gymru. Ym mhob achos roedd yna wahaniaethau sylweddol yn y ffordd yr aeth y darparwyr hyn ati i gyflwyno'r modiwlau ac, ar sail dirnadaethau athrawon a'r gwerthusiad hwn, yn ansawdd y deilliannau a gafwyd. O gofio ei bod yn debygol, mewn fersiwn derfynol bosibl o'r Llwybr Rhaglen, y byddai nifer o ddarparwyr yn cyflenwi'r modiwlau, byddai'n bwysig i'r addysgeg ac ansawdd y profiad fod yn

debyg yn fras a bod gweithdrefnau sicrhau ansawdd yn bodoli er mwyn cyflawni hyn.

6.88 Cynigiodd rhai athrawon y syniad y dylai'r rhaglen AS fod yn fwy personol yn yr ystyr y dylai adeiladu ar gryfderau presennol athrawon ac ar feysydd lle'r oedd angen iddynt ddatblygu eu harbenigedd ymhellach. Mae hyn yn gyson â'r pwyntiau a wnaed uchod am y Safonau ar gyfer AS ynglŷn â diffyg asesiad diagnostig o'r athro ar ddechrau'r rhaglen: rhywbeth sy'n un o nodweddion y radd Meistr mewn Dysgu ac Addysgu yn Lloegr. Er y bu hyn efallai'n rhan o'r bwriad cynlluniedig ym modiwlau Hunanwerthuso ac Adfyfyrio'r cynllun peilot, ymddengys na fu'n llwyddiannus yn hynny o beth. Mae hefyd mater cysylltiedig sef ai prif fwriad y rhaglen yw asesu'r athrawon yn erbyn y safonau, ynteu ddatblygu eu cymhwysedd mewn perthynas â hwy, ynteu gyfuniad o'r ddau beth. Mae'r rhain yn faterion o bwys mewn perthynas ag athroniaeth sylfaenol y Rhaglen AS.

6.89 Fel y nodwyd uchod, mae nifer fawr o'r athrawon sydd wedi cymryd rhan yn y cynllun peilot yn teimlo, o gofio'r ymrwymiad o ran amser a gwaith y mae'n ei olygu, y byddai'n rhaid bod yna gymhellion sylweddol o ran gyrfa ac arian er mwyn denu ac ysgogi athrawon i gwblhau'r rhaglen.

6.90 Mewn perthynas â mater cymhelliad o ran gyrfa, awgrymwyd trwy gydol y gwerthusiad hwn y gallai hyn gael ei ddarparu gan rôl arweinyddol 'ar wahân' i'r ymarferwyr dosbarth arbenigol y gellid rhoi cydnabyddiaeth iddynt trwy'r rhaglen.

6.91 Mewn perthynas â chymhellion ariannol, roedd yr athrawon a gymerodd ran yn y cynllun peilot yn gwybod, neu daethant i wybod, am y sefyllfa yn yr Alban, ac maent yn bendant o'r farn y byddai angen cael cymhellion o'r fath, yn gysylltiedig â chamu ymlaen yn eu gyrfa, yng Nghymru.

6.92 Fel rhan o'r gwerthusiad, roedd y materion uchod ymhlith y rhai a drafodwyd gyda chynrychiolwyr o Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru. Roeddent hwy'n cefnogi'r farn y byddai angen ystyried telerau ac amodau cyflogaeth a strwythur gyrfa er mwyn i AS fod yn swydd ddeniadol ac effeithiol yn y proffesiwn yng Nghymru ar lefel ysgolion ac awdurdodau lleol.

6.93 I grynhoi, felly, rhai materion arwyddocaol eraill sydd wedi codi trwy'r gwerthusiad yw:

- Mae yna ddadl gref dros fodiwlau craidd mewn ymchwil ac ymholi ac addysgeg TGCh.
- Mae angen cael mwy o gysondeb o ran darparu modiwlau craidd gan ddarparwyr gwahanol.

- Dylid ystyried ymagwedd bersonol at y Llwybr Rhaglen, gan adeiladu ar asesiad diagnostig o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu sydd gan yr athrawon a gaiff eu recriwtio.
- Bydd angen ystyried y cymhellion o ran gyrfa ac arian y byddai eu hangen i wneud AS yn swydd ddeniadol yn y proffesiwn addysgu.

Cryfderau cyffredinol cynllun peilot y Llwybr Rhaglen

6.94 At ei gilydd mae'r modiwlau wedi darparu profiadau o ansawdd da i'r athrawon a gymerodd ran ac mewn nifer o achosion maent wedi bod o ansawdd eithriadol.

6.95 Nodweddion y modiwlau o'r ansawdd gorau oedd:

- Ymdrin ag addysgeg arloesol.
- Addysgu medrus.
- Gweithio partneriaethol cryf rhwng sefydliadau addysg uwch ac awdurdodau lleol.
- Cydbwysedd priodol rhwng ymagweddau damcaniaethol ac ymarferol.
- Trefniadaeth oedd yn cyd-fynd yn dda gyda bywydau gwaith yr athrawon ac yn caniatáu amser pwrpasol ar gyfer adfyfyrio ac ymchwil.
- Elfen gref o ymchwil gweithredol/ystafell ddosbarth a gynigiodd gyfleoedd ar gyfer arwain cydweithwyr eraill a chyfraniadau i wella ysgolion.

Roedd nifer o athrawon oedd wedi dilyn cyrsiau 'arweinyddiaeth ganol' o'r blaen yn cymharu'r modiwl/au yr oeddent wedi'i astudio / wedi'u hastudio ar gynllun peilot y Llwybr Rhaglen yn ffafriol iawn.

6.96 Roedd yr athrawon yn croesawu'n arbennig y cyfle i weithio'n gydweithredol gyda chydweithwyr o gyfnodau ac ysgolion eraill.

6.97 Mae rhywfaint o'r gwaith a wnaethpwyd gan yr athrawon wedi bod yn eithriadol, gan ddangos bod athrawon arbenigol wedi cael eu recriwtio i gynllun peilot y Llwybr Rhaglen.

6.98 Oherwydd bod sefydliadau addysg uwch wedi'u cynnwys, bu modd i athrawon ddefnyddio adnoddau academaidd na fyddent wedi gallu eu defnyddio fel arall.

Diffygion cyffredinol y Llwybr Rhaglen

6.99 Roedd un modiwl yn anaddas i gynllun peilot y Llwybr Rhaglen AS. Nid oedd hwn a dau fodiwl arall yn dangos y rhan fwyaf o'r rhinweddau a nodir yn 6/96 uchod. Yn benodol, nid oedd dau o'r modiwlau'n cynnwys partneriaeth weithredol darparwr oedd yn awdurdod lleol, yn y ffordd yr oedd y contract gyda CyngACC yn ei mynnu.

6.100 Yn y ffordd y cawsant eu defnyddio gan ddarparwyr yn ystod cynllun peilot y llwybr rhaglen, nid yw'r Safonau ar gyfer AS wedi profi'n addas i'r diben.

6.101 Ymddengys nad oedd nifer sylweddol o'r athrawon a gafodd eu recriwtio i'r rhaglen yn 'ymarferwyr arbenigol'. Roedd hyn yn ganlyniad i'r prosesau recriwtio/dethol a fodolai a'r diffyg asesiad diagnostig.

6.102 Cafwyd anghysondeb ac annhegwch ymddangosiadol rhwng darparwyr mewn perthynas ag achrediad academaidd.

7 CRYNODEB O'R CANFYDDIADAU CYFFREDINOL

7.1 Mae CyngACC wedi cynnal y cynllun peilot mewn ffordd effeithlon a chynhwysol. Dylai'r canlyniadau fod yn ddefnyddiol tu hwnt os datblygir y rhaglen AS yng Nghymru yn y dyfodol.

Canlyniadau'r adolygiad o bolisi a thystiolaeth ymchwil

7.2 **Addysgu** o ansawdd da yw'r sail sylfaenol i lwyddiant a chynnydd addysgol ar lefel unigolion, sefydliadau a systemau.

7.3 Mae gan DPP ran fawr i'w chwarae mewn cynhyrchu a chynnal addysgu o ansawdd da ac er mwyn cyflawni hyn mae angen canolbwyntio ar **ddatblygiad proffesiynol cydweithredol**, yn arbennig y datblygiad proffesiynol cydweithredol mewn ysgolion.

7.4 Mae **arweinyddiaeth** ysgolion yn hanfodol bwysig i gynnal addysgu o ansawdd da a datblygiad proffesiynol. Mae ffurfiau newydd o arweinyddiaeth yn dod i'r amlwg mewn ysgolion sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer arweinyddiaeth addysgeg athrawon a datblygiad proffesiynol.

7.5 Mae systemau addysg ar draws y byd, felly, yn adeiladu rolau newydd i **athrawon arbenigol** a all arwain addysgeg athrawon a datblygiad proffesiynol ar lefel yr ysgol. Mae'r rolau hyn wedi'u seilio ar adnabod cyfres o briodoleddau y gellir ystyried eu bod yn enghreifftio addysgu arbenigol.

7.6 Mae rôl **Athrawon Sgiliau Uwch** yn Lloegr yn cynnig un model o sut y gellir gwneud athrawon o'r fath yn weithredol mewn system addysg.

7.7 Mae **Academi Dysgu Athrawon** Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr yn cynnig model o DPP wedi'i seilio ar adfyfyrio/ymholi y gallai arweinwyr addysgeg athrawon a datblygiad proffesiynol mewn ysgolion ei ddefnyddio.

7.8 Mae'r radd **Meistr Dysgu ac Addysgu** yn Lloegr o bosibl yn cynnig system strwythuredig o DPP i'r system a'r proffesiwn cyfan sy'n canolbwyntio ar wella ansawdd ac addysgeg athrawon. Bydd yn caniatáu rôl amlwg i athrawon profiadol fel hyfforddwyr i'r athrawon sy'n dilyn y rhaglen.

7.9 Mae cyflwyno statws Athro Siartredig yn **yr Alban**, er iddo gael ei groesawu'n gyffredinol fel buddsoddiad yn ansawdd athrawon ac mewn datblygiad proffesiynol, hefyd yn codi nifer o gwestiynau sylfaenol mewn perthynas â'r meysydd a grybwyllir uchod. Mae hyn yn cynnwys a yw AS yn llwybr i

athrawon ‘cymwys’ (‘competent’) neu ‘arbenigol’, a pha rôl y gallai AS ei chyflawni yn y proffesiwn addysgu.

7.10 Yng nghyd-destun ehangach diwygio addysg a datblygu’r proffesiwn addysgu a nodir uchod ac yng nghyd-destun penodol y **Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion**, ymddengys fod yna gryn botensial i rôl yr AS yn y system addysg yng Nghymru.

7.11 Ymddengys felly mai’r **cwestiynau hanfodol** y mae angen mynd i’r afael â hwy er mwyn cyflawni hyn yng Nghymru yw:

- Sut ellir sicrhau bod cysyniad AS yn cyd-fynd ag adnabod athrawon arbenigol yn y proffesiwn?

- Sut ellir datblygu rôl i AS fel arweinwyr addysgeg athrawon a datblygiad proffesiynol ar lefel yr ysgol a’r system?

Cynllun peilot y Llwybr Portffolio

7.12 Mae cynllun peilot y Llwybr Portffolio’n awgrymu y gall fod yn **ffordd briodol** o recriwtio AS posibl a’u galluogi i ddangos eu bod yn cyrraedd y Safonau ar gyfer AS. At ei gilydd mae’r athrawon sydd wedi cymryd rhan yn y cynllun peilot wedi’i gael yn brofiad dymunol a boddhaus.

7.13 Ymddengys fod yna broblemau o hyd ynglŷn â’r meini prawf a’r broses ar gyfer **recriwtio** athrawon i’r llwybr hwn. Mae’n rhain yn cynnwys:

- Y priodoleddau a’r profiadau sydd ganddynt.
- Eu hysgogiad dros ymgeisio am statws AS.
- Pa mor briodol yw hi i bobl sydd mewn swyddi uwch arweinyddol neu ymgynghorwyr awdurdodau lleol ymgeisio am statws AS.
- Yr angen am broses ffurfiannol o ymgeisio ac ymbaratoi ar gyfer y llwybr gan gynnwys gwneud modiwl craidd ar Hunanwerthuso ac Adfyfyrio.
- A ddylai athrawon feddu ar gymhwyster lefel Meistr eisoes.
- A ddylai athrawon fod yn ymgymryd ag unrhyw fath arall o gymhwyster proffesiynol ar yr un pryd.

7.14 Mae’r broses o drefnu’r **portffolio** o gwmpas enghreifftio profiadau allweddol yn sylfaen dda ar gyfer dangos y safonau, ond gellid ei chryfhau trwy:

- Fframwaith ar gyfer y profiadau allweddol sy'n adlewyrchu'r priodoleddau allweddol y chwilir amdanynt mewn AS.
- Pwyslais cryfach ar ddangos canlyniadau yn gysylltiedig â chyflawniad myfyrwyr a gwella ysgolion.
- Cyfyngiad ar ddefnyddio un darn o dystiolaeth i enghreifftio safonau.

7.15 Mae'r **safonau ar gyfer AS** yn fframwaith defnyddiol, ond yn y ffordd y cawsant eu defnyddio gan y darparwyr yn ystod y cynllun peilot nid ydynt yn addas i'r diben ar hyn o bryd fel ffordd o gyfarwyddo'r broses o gasglu, enghreifftio ac asesu tystiolaeth.

7.16 Mae'r system **cymorth a chyfarwyddyd** sy'n bodoli wedi bod yn llwyddiannus ar lefel cymorth ymgynghorwyr/aseswyr, ond mae gwerth posibl yr amgylchedd dysgu rhithwir a chymuned ddysgu broffesiynol wedi bod yn llai datblygedig.

7.17 Mae rôl yr **Ymgynghorwyr/Aseswyr** fel y'i cyflawnwyd yn y cynllun peilot yn un briodol ac mae modd ei datblygu ymhellach.

Cynllun peilot y Llwybr Rhaglen

7.18 **Ysgogiad** cyffredinol yr holl athrawon a gymerodd ran yn y cynllun peilot oedd dymuniad i ddatblygu eu profiad a'u cymhwysedd proffesiynol. Roedd mwyafrif (rhyw 75%) yn credu y byddai cymryd rhan yn cynorthwyo â'u dymuniad i gamu ymlaen i uwch arweinyddiaeth ysgol gyfan. Dim ond chwarter yr athrawon oedd yn ystyried bod cymryd rhan yn y cynllun peilot yn gyfle i geisio cael cydnabyddiaeth o statws athro arbenigol ac i ddatblygu cyfleoedd gyrfa yn y dyfodol yn gysylltiedig â hyn.

7.19 Cododd y materion hyn mewn perthynas â **threfniadaeth** y modiwlau:

- Bodolaeth partneriaeth darparwyr gref wedi'i seilio ar ranbarthau rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau addysg uwch.
- Y ffordd yr oeddent yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau dysgu ac addysgu.
- Llwyth gwaith posibl y rhai oedd yn cymryd rhan.
- Gallu'r rhai oedd yn cymryd rhan i ddefnyddio llyfrgelloedd ac amgylcheddau dysgu rhithwir prifysgolion.
- Rôl mentoriaid/hyfforddwyr mewn ysgolion.

7.20 Gellir dod i'r casgliadau canlynol ynglŷn ag effaith y llwybr ar **addysgeg dysgu ac addysgu**'r athrawon a gymerodd ran:

- Mewn nifer o achosion cafodd athrawon eu cyflwyno i feysydd o'r addysgeg fwyaf blaenllaw, sydd wedi herio a dylanwadu ar eu hymarfer.

- Roedd y rhai a gymerodd ran yn gwerthfawrogi'n arbennig y cyfle i ddysgu o brofiad amrywiol eu cydweithwyr.

- Dywedir bod effaith wirioneddol y profiad hwn, oedd at ei gilydd yn gyfoethog, ar eu cymhwysedd addysgu ac ar ddysgu myfyrwyr, yn un gadarnhaol, ond i raddau helaeth mae'r fath dystiolaeth heb ei phrofi a dylid ymchwilio ymhellach iddi mewn unrhyw ymchwil a gwerthusiad a wneir yn y dyfodol ar effaith y rhaglen AS.

7.21 Mae'r potensial i **gymunedau dysgu proffesiynol** gael eu sefydlu fel ffordd o hybu dysgu cydweithredol wedi cael ei hyrwyddo a'i hwyluso i ryw raddau mewn modiwlau ar gynllun peilot y Llwybr Rhaglen. Lle mae hyn wedi bod yn wir maent wedi bod yn llwyddiannus, at ei gilydd, ac wedi cyfrannu'n sylweddol at ansawdd y modiwlau.

7.22 Yn y rhan fwyaf o achosion ymddengys fod gan y modiwlau'r cyfuniad iawn o **ddamcaniaeth ac ymarfer**. Y rhai a sicrhaodd y cydbwysedd hwn oedd y rhai lle'r oedd y bartneriaeth rhwng y brifysgol a'r awdurdod lleol yn gryf. Mae potensial i'r safonau ar gyfer AS chwarae rôl ddefnyddiol mewn dangos sut orau y gellir sicrhau'r cydbwysedd hwn.

7.23 Mae AS yn cynnig potensial sylweddol ar gyfer datblygu **rôl arweinyddol** ar wahân sy'n gysylltiedig ag addysgeg a DPP athrawon ar lefel yr ysgol a'r awdurdod lleol. Er mwyn i'r rôl hon gael ei datblygu, mae angen llawer mwy o eglurder ynglŷn â'r hyn a olygir gan gysyniad 'arweinyddiaeth ganol' mewn perthynas â datblygu mathau mwy gwasgaredig o arweinyddiaeth.

7.24 Roedd y canlynol yn enghreifftiau arwyddocaol o fannau lle'r oedd modiwlau'n cyfrannu at **wella ysgolion ac effeithiolrwydd ysgolion:**

- Athrawon yn rhannu ymarfer effeithiol ar draws cyfnodau a rhwng meysydd pwnc uwchradd.
- Yr ymwybyddiaeth fwy a'r defnydd mwy o addysgeg effeithiol y mae athrawon wedi'u cael o'r rhan fwyaf o'r modiwlau.
- Aseiniadau seiliedig ar ymchwil gweithredol/ystafell ddosbarth sydd wedi arwain at ymyriadau penodol wedi'u cynllunio i sicrhau bod ysgolion yn gwella.

7.25 Canfuwyd bod **aseiniadau**'r modiwlau yn fwyaf addas i'r diben lle'r oedd ganddynt y cydbwysedd iawn rhwng darllen cefndirol a chanolbwyntio ar ymchwil gweithredol/ystafell ddosbarth. Profodd dyddlyfrau dysgu'n ffordd effeithiol i athrawon wneud y gwerthuso a'r adfyfyrio sy'n gysylltiedig â'r fath aseiniadau.

7.26 Gellir dweud y canlynol mewn perthynas â'r **Safonau ar gyfer AS** fel y cawsant eu defnyddio gan y darparwyr yng nghynllun peilot y llwybr:

- Ymddengys nad yw'r safonau presennol yn addas i'r diben.

- Y ffordd fwyaf effeithiol y defnyddiodd y darparwyr y safonau oedd fel:

  - ✓ Ffordd o asesu athrawon yn ddiagnostig ac yn ffurfiannol.
  - ✓ Un o nodweddion canolog amcanion dysgu ac addysgeg pob modiwl.
  - ✓ Sail ar gyfer trafod ac enghreifftio'n gydweithredol gydag athrawon.

7.27 Ar sail y cynllun peilot, gellir dweud y canlynol mewn perthynas ag **achrediad academaidd** modiwlau:

- Ymddangosai fod llawer o'r athrawon ar y rhaglen beilot heb ddiddordeb yn achrediad academaidd y rhaglen, ond roedd nifer sylweddol yn credu y dylai gael ei hachredu.

- Credai'r rhai oedd â diddordeb mewn achrediad academaidd y dylai pob modiwl fod ar lefel 7 gyda 30 credyd ar gael.

- Mae yna gryn dipyn o anghysonderau ac annhegwch ymddangosiadol yn y ffordd y mae sefydliadau addysg uwch wedi dyfarnu credyd.

7.28 **Materion arwyddocaol eraill** sydd wedi codi yw:

- Mae yna ddadl gref dros fodiwlau craidd mewn ymchwil ac ymholi ac addysgeg TGCh.

- Ymddengys y bu anghysondeb yn narpariaeth modiwlau craidd gan ddarparwyr gwahanol, er bod rhywfaint o'r amrywiaeth hon yn rhan fwriadol o'r cynllun peilot.

- Yr angen am lwybr mwy personol gan adeiladu ar asesiad diagnostig o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu sydd gan yr athrawon a gaiff eu recriwtio.

- Yr angen i gymhellion o ran gyrfa ac arian gael eu cynnig er mwyn gwneud statws AS yn ddeniadol.

7.29 **Cryfderau** cyffredinol cynllun peilot y llwybr oedd:

- At ei gilydd mae'r modiwlau wedi darparu profiadau o ansawdd da i'r athrawon a gymerodd ran ac mewn nifer o achosion maent wedi bod o ansawdd eithriadol.

- Nodweddion y modiwlau o'r ansawdd gorau oedd:

  - ✓ Ymdrin ag addysgeg arloesol.
  - ✓ Addysgu medrus.
  - ✓ Gweithio partneriaethol cryf rhwng sefydliadau addysg uwch ac awdurdodau lleol.
  - ✓ Cydbwysedd priodol rhwng ymagweddau damcaniaethol ac ymarferol.
  - ✓ Trefniadaeth oedd yn cyd-fynd yn dda gyda bywydau gwaith yr athrawon ac yn caniatáu amser pwrpasol ar gyfer adfyfyrio ac ymchwil.
  - ✓ Elfen gref o ymchwil gweithredol/ystafell ddosbarth a gynigiodd gyfleoedd ar gyfer arwain cydweithwyr eraill a chyfraniadau i wella ysgolion.

  Roedd nifer o athrawon oedd wedi dilyn cyrsiau 'arweinyddiaeth ganol' o'r blaen yn cymharu'r modiwl/au yr oeddent wedi'i astudio / wedi'u hastudio ar gynllun peilot y Llwybr Rhaglen yn ffafriol iawn.

- Roedd yr athrawon yn croesawu'n arbennig y cyfle i weithio'n gydweithredol gyda chydweithwyr o gyfnodau ac ysgolion eraill.

- Mae rhywfaint o'r gwaith a wnaethpwyd gan yr athrawon wedi bod yn eithriadol, gan ddangos bod rhai athrawon arbenigol wedi cael eu recriwtio i gynllun peilot y Llwybr Rhaglen.

- Oherwydd bod sefydliadau addysg uwch wedi'u cynnwys, bu modd i athrawon ddefnyddio adnoddau academaidd na fyddent wedi gallu eu defnyddio fel arall.

7.30 **Diffygion** cyffredinol cynllun peilot y modiwlau oedd:

- Roedd un modiwl yn anaddas i'r rhaglen AS. Nid oedd hwn a dau fodiwl arall yn dangos y rhan fwyaf o'r rhinweddau a nodir yn 7.29 uchod. Yn benodol, nid oedd dau o'r modiwlau'n cynnwys partneriaeth weithredol darparwr oedd yn awdurdod lleol, yn y ffordd yr oedd y contract gyda CyngACC yn ei mynnu.

- Yn y ffordd y cawsant eu defnyddio gan ddarparwyr yn y cynllun peilot, nid yw'r Safonau ar gyfer AS wedi profi'n addas i'r diben.

- Ymddengys nad oedd nifer sylweddol o'r athrawon a gafodd eu recriwtio i'r rhaglen ym 'ymarferwyr arbenigol'.

- Cafwyd anghysondeb ac annhegwch ymddangosiadol rhwng darparwyr Addysg Uwch mewn perthynas ag achrediad academaidd.

8 ARGYMHELLION

8.1 Er mwyn bwrw ymlaen â datblygu'r rhaglen Athro Siartredig (AS) yng Nghymru, gan adeiladu ar y symbyliad a sicrhawyd yn ystod y cynllun peilot, mae'r gwerthusiad annibynnol hwn o'r farn y dylai CyngACC ystyried a hybu'r argymhellion canlynol

Gweithredu a Chyflenwi

8.2 Dylai **Llywodraeth Cynulliad Cymru**, fel rhan o'i adolygiad cyfredol o raglenni DPP ac arweinyddiaeth, ystyried gweithredu'r Rhaglen AS yn llawn yng Nghymru ar y sail fod ganddi botensial sylweddol ar gyfer:

- Datblygu ymhellach ansawdd addysgu mewn ysgolion.
- Darparu rôl arweinyddol i athrawon arbenigol ar lefel ysgolion ac awdurdodau lleol.
- Cynorthwyo â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Strategaeth Addysgeg.

O gofio'r ansicrwydd ar hyn o bryd ynglŷn â dyfodol y rhaglen AS yng Nghymru, dylid ystyried yr argymhelliad hwn fel mater o frys.

8.3 Dylai **Llywodraeth Cynulliad Cymru**:

- Roi i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru y gwaith o reoli'r rhaglen yn gyffredinol, gan gynnwys ei hyrwyddo gydag athrawon, ysgolion ac awdurdodau lleol, y Safonau ar gyfer AS a dyfarnu statws AS.

- Roi i'r pedwar consortiwm awdurdodau lleol yng Nghymru, wrth iddynt weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau addysg uwch dynodedig yn eu rhanbarth, y gwaith o gyflenwi'r rhaglen, gan gynnwys recriwtio, darparu modiwlau a chynorthwyo athrawon.

8.4 Dylai **Llywodraeth Cynulliad Cymru**, gan gydweithio gyda CyngACC, consortia awdurdodau lleol a sefydliadau addysg uwch, gymryd yr awenau wrth lunio priodoleddau cytunedig athrawon arbenigol a fyddai'n ffurfio'r meini prawf hanfodol ar gyfer dethol athrawon am y rhaglen AS. Dylai'r priodoleddau hyn gael eu seilio ar nodweddion canlynol athrawon arbenigol:

- Rhagoriaeth wrth addysgu yn y dosbarth.
- Arwain cydweithwyr mewn addysgeg a DPP.
- Gwaith a wneir gydag asiantaethau y tu allan i'r ysgol.

Y Safonau ar gyfer Athro Siartredig

8.5 Dylai **Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru**, gan gydweithio gyda'r consortia awdurdodau lleol a sefydliadau addysg uwch, ddiwygio'r Safonau presennol ar gyfer AS er mwyn eu gwneud yn fwy addas i'r diben. Dylai hyn fod er mwyn darparu offeryn diagnostig a ffurfiannol i'w ddefnyddio wrth ddethol athrawon ar gyfer y rhaglen a'r gwaith a wnânt fel rhan ohoni ac fel sylfaen crynodol ar gyfer dyfarnu statws AS.

8.6 Bydd angen i **Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru**, gan gydweithio gyda chonsortia awdurdodau lleol, ystyried sut y dylai athrawon a gafodd statws Athro Siartredig gadw'r statws hwnnw dros amser trwy ddangos eu profiad a'u cyflawniad parhaus mewn perthynas â'r nodweddion a nodir yn 8.4 uchod.

Achrediad Academaidd

8.7 Dylai **Llywodraeth Cynulliad Cymru**, fel rhan o'i hadolygiad cyfredol o DPP a rhaglenni arweinyddiaeth, yn gyson â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ac er mwyn annog athrawon yng Nghymru i geisio cael achrediad academaidd ar gyfer eu gweithgareddau DPP, ystyried sefydlu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer achrediad cenedlaethol ym maes DPP. Dylai'r fframwaith hwn gael ei ddatblygu trwy waith ar y cyd gyda chonsortia awdurdodau lleol a sefydliadau addysg uwch. Wedi hynny dylai'r holl arian a ddyrennir i sefydliadau addysg uwch ar gyfer cyrsiau DPP i athrawon, trwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, gael ei gysoni â'r fframwaith hwn. Y ffordd orau i fwrw ymlaen â'r rhaglen AS yng Nghymru fyddai mewn cyd-destun o'r fath.

8.8 Dylai **consortia awdurdodau lleol a sefydliadau addysg uwch** sy'n ymwneud â chyflenwi'r rhaglen AS fynd ati i hwyluso cael achrediad academaidd gan athrawon sy'n cymryd rhan. Dylid cyflawni hyn fel ymarfer crynodol ar ddiwedd y rhaglen, ar yr un pryd ag asesu athrawon yn erbyn y safonau ar gyfer AS, wedi'i gysoni â'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Achrediad DPP a gynigir yn 8.7 uchod. Drwy hynny, ar yr un pryd byddai'r rhaglen AS:

- I athrawon sydd eisoes â chymhwyster Meistr (yn enwedig ar y Llwybr Portffolio).
- I athrawon sydd eisoes yn ceisio ennill statws Meistr.
- Yn cynorthwyo athrawon oedd yn ceisio ennill statws Meistr, trwy ganiatáu i'w gwaith gael achrediad.

- Ni fyddai, fodd bynnag, yn arwain yn awtomatig at radd Meistr ac ni fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i athrawon ar y Llwybr Rhaglen fynd ar ôl dewis o'r fath pe na baent yn dymuno hynny.

Drwy hynny, byddai'r egwyddor yn glir bod y rhaglen AS wedi'i seilio ar safonau proffesiynol y gellid eu mynegi a'u hachredu yn erbyn safonau academaidd ac nid i'r gwrthwyneb.

Y Llwybrau at statws Athro Siartredig

8.9 Dylai **Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru** barhau i gynnig dau lwybr at ennill statws AS: Llwybr Portffolio a Llwybr Rhaglen. Er efallai y bydd argaeledd y llwybr portffolio yn gyfyngedig o ran amser (efallai hyd 2015), fel sy'n digwydd yn yr Alban, dylai fod yna gyfle o hyd wedi hynny i athrawon ennill statws AS trwy ddull mwy hyblyg na'r llwybr rhaglen.

8.10 Dylai **consortia awdurdodau lleol**, gan gydweithio gyda CyngACC, sefydlu meini prawf sydd, wedi'u cefnogi gan asesiad diagnostig seiliedig ar y safonau diwygiedig, yn pennu a yw athrawon yn cael eu recriwtio a'u dyrannu i'r Llwybr Portffolio neu i'r Llwybr Rhaglen. Yn eu hanfod dylai'r meini prawf hyn ddiffinio:

- *Y Llwybr Portffolio* fel un sy'n briodol i'r athrawon hynny sy'n gallu dangos tystiolaeth gadarn o'u statws fel athro arbenigol, sy'n gyson â'r nodweddion a nodir yn 8.4 uchod ac a ddylai, drwy hynny, allu casglu'r dystiolaeth i gael eu hasesu'n llwyddiannus yn erbyn y safonau ar gyfer AS.

- *Y Llwybr Rhaglen* fel un sy'n briodol i'r athrawon hynny sydd, er eu bod yn gallu dangos digon o dystiolaeth o'u dyhead i gael eu hystyried yn athrawon o statws arbenigol (y dylent fod yn gallu cael achrediad am eu dysgu blaenorol ar gyfer hyd at draean o'r llwybr) y bernir bod arnynt angen yr atgyfnerthiad a'r datblygiad pellach y byddai'r llwybr yn eu cynnig i'w galluogi i gael eu hasesu'n llwyddiannus yn erbyn y safonau ar gyfer statws AS.

8.11 Dylai **Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru**, fel rhan o'r gwaith mae'n ei wneud ar hyn o bryd ar ailgynllunio'r Rhaglen AS, ystyried y posibilrwydd y dylai strwythur cyffredinol y rhaglen AS gynnwys chwe modiwl. Dylid hepgor y gwahanol gategorïau o fodiwlau craidd/dewisol/seiliedig ar waith. Dylai'r chwe modiwl fod fel a ganlyn:

- Hunanwerthuso ac Adfyfyrio
- Ymchwil ac Ymholi.
- Dysgu, Addysgu ac Asesu
- Addysg i Bawb
- Addysgeg TGCh
- Arwain Addysgeg a DPP

Byddai hyn yn caniatáu, ar y Llwybr Rhaglen, ddau fodiwl i gael eu cymryd bob blwyddyn a statws AS i gael ei ennill mewn tair blynedd ar y mwyaf trwy'r llwybr hwn. Byddai hyn yn tawelu pryderon athrawon ar y cynllun peilot ynghylch y llwyth gwaith gormodol pe bai statws AS yn cymryd hyd at chwe blynedd i'w ennill a'r tebygolrwydd y byddai hyn yn atal athrawon priodol rhag ymgeisio. Dylid ystyried y bydd y modiwlau'n gallu bod yn werth 30 credyd academaidd trwy'r Fframwaith DPP Cenedlaethol arfaethedig. Byddai'r athrawon hynny sy'n ceisio cael Achrediad Dysgu Blaenorol (trwy'r Fframwaith Cenedlaethol arfaethedig ar gyfer achrediad DPP) trwy'r Llwybr Rhaglen yn gallu gwneud hynny trwy amnewid hyd at ddau fodiwl, ond nid y rhai ar Hunanwerthuso ac Adfyfyrio ac Ymchwil ac Ymholi, a ddylai gael eu hystyried yn orfodol. Dylai fod yn ofynnol i athrawon ar y Llwybr Portffolio ddilyn y modiwl ar Hunanwerthuso ac Adfyfyrio cyn rhoi eu portffolio at ei gilydd.

8.12 Dylai **consortia awdurdodau lleol**, wrth ddethol athrawon ar gyfer y Llwybr Portffolio, hefyd gymryd i ystyriaeth:

- Pa mor ddymunol ydyw i athrawon feddu ar gymhwyster Meistr eisoes fel arwydd o'u gweithgaredd DPP lefel uchel neu eu bod wedi cyflawni rhyw brofiad arall sydd lefel gymesur o ran her.

- Pa mor annymunol ydyw i athrawon ddilyn unrhyw fath arall o gymhwyster/hyfforddiant proffesiynol ar yr un pryd â dilyn y llwybr.

8.13 Dylai **consortia awdurdodau lleol**, mewn perthynas â defnyddio'r portffolio ar y Llwybr Portffolio:

- Ddefnyddio nodweddion athrawon arbenigol, fel y'u nodir yn 8.4 uchod, fel fframwaith ar gyfer y tri phrofiad allweddol sydd i'w henghreifftio.

- Sicrhau bod athrawon yn rhoi pwyslais cryf ar ddangos canlyniadau sy'n gysylltiedig â chyflawniad myfyrwyr a gwella ysgolion.

- Cyfyngu ar y nifer o weithiau y gall un darn o dystiolaeth gael ei ddefnyddio i enghreifftio safonau.

8.14 Dylai **consortia awdurdodau lleol a'u partneriaid addysg uwch** roi cyngor i'r athrawon sy'n dilyn y Llwybr Portffolio mewn perthynas â datblygu eu portffolio a'u hadolygiad adfyfyriol.

8.15 Dylai **Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru** benodi Aseswyr ar gyfer y Llwybr Portffolio a'r Llwybr Rhaglen i wneud dyfarniadau crynodol ynghylch a yw athrawon wedi cyrraedd y Safonau ar gyfer AS. Dylai'r aseswyr hyn ddod o blith y bobl hynny sydd wedi cymryd rhan mewn cyflenwi'r ddau lwybr ac a ddylai weithio gyda'i gilydd yn gydweithredol i sicrhau cysondeb wrth gymhwyso'r safonau. Er mwyn dangos hygrededd proffesiynol a defnyddioldeb a derbynioldeb y dyfarniad AS, dylai cyfran sylweddol o'r Aseswyr fod yn ymarferwyr rhagorol eu hunain, gan gynnwys, maes o law, Athrawon Siartredig. Dylid penodi Prif Aseswr i fonitro a graddnodi safonau'n gyffredinol. Dylai'r unigolyn hwnnw fod yn annibynnol ar broses gyflenwi'r rhaglen AS yng Nghymru.

8.16 Dylai **consortia awdurdodau lleol a'u partneriaid ym maes addysg uwch**, mewn perthynas â threfnu'r modiwlau ar y Llwybr Rhaglen:

- Sicrhau bod pob modiwl ar gael yn lleol fel nad yw athrawon yn cael anawsterau wrth gael atynt.
- Bod amrywiaeth o ddulliau dysgu ac addysgu ar gael ar draws y modiwlau.
- Bod yr addysgeg dysgu ac addysgu a ddefnyddir yn modelu'r ymarfer arbenigol y gofynnir i athrawon ei enghreifftio a'r enghreifftiau o ansawdd da sydd wedi cael eu hadnabod ar y rhaglen beilot.
- Bod sicrwydd ansawdd cyflenwi'r modiwlau yn cael ei fonitro ar draws darparwyr y consortia.
- Bod yna bartneriaeth gref a gweithgar gyda'r sefydliadau addysg uwch rhanbarthol y maent yn gweithio gyda hwy.
- Ei bod yn rhwydd i'r athrawon ddefnyddio llyfrgelloedd a chyfleusterau dysgu eraill y sefydliadau Addysg Uwch.
- O fewn ac ar draws modiwlau, bod athrawon yn cael eu hannog i gydweithredu a ffurfio cymunedau dysgu proffesiynol.

8.17 Dylai **consortia awdurdodau lleol** ddatblygu rôl mentoriaid/ hyfforddwyr mewn ysgolion fel bod yr holl athrawon hynny sy'n dilyn y rhaglen AS, trwy'r naill lwybr neu'r llall, yn gallu cael eu cynorthwyo gan rywun sydd eisoes yn ymarferydd arbenigol (Athro Siartredig ymhen amser) o'u hysgol eu hunain neu ysgol gyfagos.

Rôl a Statws Athrawon Siartredig

8.18 Bydd angen i **Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid sy'n awdurdodau lleol** roi ystyriaeth i'r cymhellion o ran gyrfa ac arian y dylid eu sefydlu er mwyn i rôl yr AS ddatblygu yn y ffordd sydd wedi cael ei chynnig uchod ac yn arbennig mewn perthynas â gwella ansawdd athrawon a chanlyniadau myfyrwyr mewn ysgolion. Yn hyn o beth, ymddengys fod rôl Athrawon Sgiliau Uwch yn fodel sy'n werth ei ystyried a'i addasu. Yng Nghymru gallai AS gael eu rhyddhau o'u hymrwymiadau addysgu am hyd at draean o'u hamser i weithio gyda chydweithwyr yn eu hysgolion eu hunain, trwy eu hawdurdodau lleol gydag athrawon ac ysgolion mewn mannau eraill yn eu hardal a thrwy eu consortia awdurdodau lleol gydag ysgolion ar draws eu rhanbarth. Mae'n ymddangos bod gan y potensial i AS ar draws Cymru ffurfio Cymuned Ddysgu Broffesiynol ar wahân, y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei droi ati wrth fwrw ymlaen â pholisïau addysg megis y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Gellir ystyried bod datblygiad y fath rôl i AS ar draws y system yn gydnaws â chanfyddiadau'r adolygiad polisi ac ymchwil a'r trafodaethau gyda darparwyr a Chyfarwyddwyr Addysg a gynhaliwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn.

8.19 Dylai **Llywodraeth Cynulliad Cymru** a'i phartneriaid sy'n awdurdodau lleol, cyn rhoi'r gwaith o fwrw ymlaen â'r Rhaglen AS yng Nghymru i CyngACC a'r consortia awdurdodau lleol, roi ystyriaeth i'r materion o ran gweithredu ac ariannu sy'n gysylltiedig â hyfforddi a defnyddio AS yn y ffordd a gynigiwyd uchod. Dylai'r ystyriaeth hon gynnwys:

- Nifer fras yr AS a fyddai yn y system addysg yng Nghymru ar unrhyw adeg.
- A fyddai disgwyl i bob ysgol uwchradd fod ag o leiaf un AS?
- A fyddai disgwyl y gallai grwpiau o ysgolion cynradd droi at AS?
- Pa gyfran o AS a gâi eu cynhyrchu gan y llwybr portffolio a'r llwybr rhaglen?
- Pe bai'r Llwybr Portffolio yn gyfyngedig o ran amser i 2015, a fyddai'r Llwybr Rhaglen, wedi hynny, yn ffordd o ychwanegu at nifer yr AS yn y system? Os felly mae logisteg cynnig y modiwlau, o gofio'r niferoedd tebygol dan sylw, yn awgrymu y byddai angen i'r consortia awdurdodau lleol gydweithredu wrth gyflenwi'r modiwlau yn rhanbarthol/genedlaethol.
- Sut oedd y rhaglen AS i gael ei hariannu?

8.20 Dylai **Llywodraeth Cynulliad Cymru** maes o law gomisiynu ymchwil gwerthusol ar effaith AS ar godi ansawdd a safonau mewn ysgolion.

9. ATODIADAU

9.1 Y Safonau ar gyfer Athro Siartredig yng Nghymru.
9.2 Manylion Modiwlau ar gynllun peilot y Llwybr Rhaglen.
9.3 Templed ar gyfer yr holiadur i gyfranogwyr a ddefnyddir/ddefnyddiwyd yn y gwerthusiad o gynllun peilot y Llwybr Rhaglen.
9.4 Safonau Diwygiedig ar gyfer Athro Siartredig yn yr Alban.

9.1 Y Safonau ar gyfer Athro Siartredig yng Nghymru

9.2 **Manylion modiwlau ar gynllun peilot y Rhaglen Llwybr.**

Teitl y modiwl:	**Datrys wrth Drafod**
Darparwr	Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWI) ac Athrofa Addysg Uwch Abertawe (SIHE) Bydd dwy garfan of 10 o athrawon sy'n cymryd rhan yn dilyn y modiwl peilot hwn, un yn y Gogledd ac un yn y De.
Hyd	Dechrau: yn gynnar ym mis Hydref 2007 Gorffen: Yn hwyr ym mis Ionawr 2008 Yn cynnwys 150 o oriau dysgu
Yr athrawon a dargedir i gymryd rhan	Yn berthnasol i: Arweinwyr canol a / neu athrawon dosbarth Cynradd, uwchradd, arbennig, unedau cyfeirio disgyblion
Cyflenwi	Dysgu cyfunol Caiff ei gyflenwi trwy gyfrwng y Saesneg. Gall cymorth mentor, adnoddau ac asesiadau fod ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg os gofynnir amdanynt
Credyd Addysg Uwch ar ôl ei gwblhau	20 credyd ar Lefel 6 (Diploma i raddedigion)
Crynodeb	Mae'r modiwl hwn wedi cael ei ddatblygu mewn partneriaeth gan NEWI, SIHE a'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol. Bydd y modiwl yn ymchwilio i faterion sy'n ymwneud â siarad a gwrando mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a bydd yn canolbwyntio ar y cysylltiad rhwng datblygiad sgiliau llafaredd a dealltwriaeth disgyblion. Bydd yn nodi'r anawsterau y mae disgyblion yn eu hwynebu yn y maes hwn, ac yn adolygu'r amrywiaeth o strategaethau sydd ar gael ar gyfer codi statws a gwella effaith llafaredd trwy addysgu pynciau ac mewn dulliau ysgol gyfan. Y nod yw i'r athrawon hynny sy'n dilyn y modiwl hwn gynorthwyo disgyblion sy'n tangyflawni yn eu hystafelloedd dosbarth eu hunain, a chyfrannu at ffyrdd o wella'r strategaethau a ddefnyddir gan yr ysgol ar gyfer hybu meddwl a dealltwriaeth trwy lafaredd. Caiff y modiwl ei gyflenwi dros gyfnod sy'n gyfwerth ag un tymor. Bydd yn rhaid mynychu tair sesiwn diwrnod llawn a thiwtorial hanner diwrnod a chwblhau aseiniad i'r modiwl. Bydd profiad yr athro'n cynnwys: • Astudio annibynnol a than gyfarwyddyd, gan gynnwys darlithoedd, gweithdai ymarferol a chymorth tiwtorial; • Trafod gyda chyd-athrawon, adfyfyrio a datrys problemau; • Grwpiau ymddiried; • Arsylwi yn yr ystafell ddosbarth, archwilio, gwerthuso ac ymchwilio; • Gwerthuso'r effaith ar ddysgwyr; • Adfyfyrio beirniadol gyda chymorth grŵp; • Ysgrifennu adroddiad ymchwil; • Gweithredu ar sail ymchwilio a wneir gan athrawon mewn dau gyfnod rhwng sesiynau; • Cymhwyso syniadau a damcaniaethau yng nghyd-destun yr ystafell ddosbarth o ddydd i ddydd; • Modelu amrywiaeth o strategaethau addysgu effeithiol.

Teitl y modiwl:	**Addysg i Bawb**
Darparwr	Prifysgol Cymru Casnewydd a phartneriaid AALl sy'n cydweithredu (AALl Casnewydd ac AALl Torfaen) Bydd un garfan o 10 o athrawon sy'n cymryd rhan yn dilyn y modiwl peilot hwn.
Hyd	Dechrau: Yn hwyr ym mis Ionawr 2008 Gorffen: Yn hwyr ym mis Mehefin 2008 Yn cynnwys 150 o oriau dysgu
Yr athrawon a dargedir i gymryd rhan	Yn berthnasol i: Arweinwyr canol a / neu athrawon dosbarth Cynradd, uwchradd, arbennig, unedau cyfeirio disgyblion
Cyflenwi	Dysgu cyfunol Caiff ei gyflenwi trwy gyfrwng y Saesneg. Gall cymorth mentor ac asesiadau fod ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg os gofynnir amdanynt
Credyd Addysg Uwch ar ôl ei gwblhau	15 credyd ar Lefel 7 (Gradd Meistr)
Crynodeb	Bydd y modiwl hwn yn ymchwilio i faterion yn ymwneud â chydraddoldeb, gwahaniaethu, cyfiawnder cymdeithasol a chynhwysiant. Bydd hefyd yn ystyried ymatebion cadarnhaol i amrywiaeth ym maes addysg, addysgu a dysgu ac yn edrych ar y cyd-destunau gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol y mae'r system addysg yn gweithredu ynddynt yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig. Drwy gydol y modiwl, caiff cysyniad cyffredinol addysg gynhwysol ei archwilio a'i drafod. Caiff y modiwl ei gyflenwi dros gyfnod cyfwerth ag un tymor. Bydd yn rhaid mynychu gweithdy un diwrnod ar y dechrau, wedyn nifer fach o sesiynau a addysgir diwrnod llawn neu hanner diwrnod, y trafodir eu telerau gyda'r garfan athrawon ac a gaiff eu gwasgaru dros y tymor, gyda digon o amser i adfyfyrio a chynllunio gwelliant. Caiff y modiwl ei ategu gan dri thiwtorial unigol awr o hyd neu'r cyfwerth dros y ffôn neu e-bost. Ar gyfer yr asesiad rhaid cyflwyno aseiniad 4000 o eiriau. Bydd profiad yr athro'n cynnwys: • dysgu dan gyfarwyddyd ac annibynnol; • dulliau ymchwil pen desg ac ehangach; • dulliau didactig; • dulliau cydweithredol; • defnyddio MLE (My Learning Environment) ac adnoddau e-ddysgu AAA Llywodraeth Cynulliad Cymru; • gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion, AALlau ac eraill.

Teitl y modiwl:	**Gwella Arfer drwy Ymchwil Gweithredol**
Darparwr	Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd (UWIC) Bydd un garfan o 10 o athrawon sy'n cymryd rhan yn dilyn y modiwl peilot hwn.
Hyd	Dechrau: Canol mis Ionawr 2008 Gorffen: Yn hwyr ym mis Mehefin 2008 Yn cynnwys 150 o oriau dysgu
Yr athrawon a dargedir i gymryd rhan	Yn berthnasol i: Arweinwyr canol a / neu athrawon dosbarth Cynradd, uwchradd, arbennig, unedau cyfeirio disgyblion
Cyflenwi	Dysgu cyfunol Caiff ei gyflenwi trwy gyfrwng y Saesneg. Gall asesiadau fod ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg os gofynnir amdanynt
Credyd Addysg Uwch ar ôl ei gwblhau	15 credyd ar Lefel 7 (Gradd Meistr)
Crynodeb	Bydd y modiwl yn rhoi i athrawon y wybodaeth a'r sgiliau i gymryd rhan mewn ymchwil yn y dosbarth / ysgol er mwyn gwerthuso'n feirniadol effaith ymyriadau mewn dysgu, gan ddatblygu eu galluoedd beirniadol a dadansoddol fel ymarferwyr adfyfyriol. Erbyn diwedd y modiwl, bydd yr athrawon sy'n cymryd rhan: • â dealltwriaeth o amrywiaeth o egwyddorion, methodolegau a thechnegau mewn perthynas ag ymchwil gweithredol; • yn gallu cymhwyso'r fath egwyddorion, methodolegau a thechnegau i agwedd ddewisedig o'u haddysgeg / arweinyddiaeth eu hunain; • yn gallu dadansoddi tystiolaeth a gasglwyd a gwerthuso'n feirniadol effaith neu effeithiolrwydd ymyriadau ar ddysgu a /neu ymddygiadau disgyblion; • yn gallu adfyfyrio'n feirniadol a gwneud argymhellion ar gyfer ymarfer yn y dyfodol; • â dealltwriaeth o sut i ledaenu agweddau ar eu hymchwil i'w cyd-athrawon. Caiff y modiwl ei gyflenwi dros gyfnod cyfwerth ag un tymor. Bydd yn rhaid mynychu tair sesiwn diwrnod llawn. Caiff y modiwl ei ategu gan ddau diwtorial personol pedwar deg pum munud o hyd a'i gynnal gan rith-amgylchedd dysgu, gan ddefnyddio Blackboard. Bydd yr asesu'n golygu cyflwyno adroddiad 3000 o eiriau ynghyd ag atodiad o dystiolaeth (cyfwerth â 4500 o eiriau). Bydd profiad yr athro'n cynnwys: • astudio annibynnol a than gyfarwyddyd, gan gynnwys darlithoedd, gweithdai ymarferol a chymorth tiwtorial; • Seminarau gyda chyd-athrawon, cyflwyniadau poster, trafodaethau a beirniadaeth; • Astudio ar-lein, gan ddefnyddio Blackboard; • Ymchwiliadau, gwerthusiadau ac ymchwil yn y dosbarth / ysgol; • Ysgrifennu adroddiad ymchwil; • Cymorth tiwtorial.

Teitlau'r modiwlau:	**Hunanwerthuso ac Adfyfyrio** **Dysgu, Addysgu ac Asesu**
Darparwr	Yr Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd gan weithio mewn partneriaeth gyda Gwasanaethau i Ysgolion AALl Blaenau Gwent. Bydd un garfan o ddeg o athrawon o leiaf sy'n cymryd rhan yn dilyn y ddau fodiwl peilot.
Hyd	Modiwl 'Hunanwerthuso ac Adfyfyrio' , Ebrill 2008 - Gorffennaf 2008. Modiwl 'Dysgu, Addysgu ac Asesu', Hydref 2008 – Rhagfyr 2008. Yn cynnwys 150 o oriau dysgu i bob modiwl, gan gynnwys rhaglen wyneb yn wyneb ddwys dros 3 diwrnod i bob modiwl.
Yr athrawon a dargedir i gymryd rhan	Yn berthnasol i: Arweinwyr canol a / neu Athrawon dosbarth. Cynradd, uwchradd a lleoliadau addysg arbennig.
Cyflenwi	Bydd y dulliau addysgu yn cynnwys sesiynau wyneb yn wyneb, gweithgareddau gweithdai, dysgu drwy brofiad, hyfforddi unigol ac ymchwil dan arweiniad. Caiff y modiwlau eu cyflenwi trwy gyfrwng y Saesneg.
Credyd Addysg Uwch ar ôl eu cwblhau	Caiff y modiwlau eu hachredu ar lefel 7 (lefel Gradd Meistr) ac, o'u cymryd gyda'i gilydd, bydd ganddynt werth cyfun o 30 credyd yng nghyd-destun Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru.
Crynodeb	**'Hunanwerthuso ac Adfyfyrio'** Diben y modiwl hwn yw annog ymarferwyr hyfedr i archwilio agweddau ar eu hymarfer eu hunain sydd eisoes yn ddatblygedig a nodi meysydd cryfder a meysydd i'w datblygu. Bydd yn gweithredu fel sylfaen ar gyfer modiwlau craidd a dewisol eraill. Yn fras, bydd y meysydd sydd i gael sylw yn y modiwl yn cynnwys: • Ymchwilio i fodiwlau hunanwerthuso yng nghyd-destun gwerthoedd ac ymarfer proffesiynol yr athrawon eu hunain; • Ymchwilio i ddulliau adfyfyrio beirniadol i gynorthwyo â'r broses adfyfyrio bersonol; • Hyrwyddo adfyfyrio ar ymarfer proffesiynol gan gynnwys gwaith rhyngasiantaethol i wella'u profiad eu hunain a phrofiad y dysgwyr; • Dangos hunanwerthuso ac adfyfyrio beirniadol fel elfennau allweddol o ddatblygiad personol a phroffesiynol. **'Dysgu, Addysgu ac Asesu'** Bydd y modiwl hwn yn galluogi ymarferwyr hyfedr i archwilio eu haddysgeg eu hunain, ac i ddatblygu ymhellach eu harbenigedd ym maes dysgu, addysgu ac asesu. Yn fras, bydd y meysydd sydd i gael sylw yn y modiwl yn cynnwys: • Ymchwilio i syniadau allweddol m maes dysgu, addysgu ac asesu; • Hyrwyddo a gwella dysgu myfyrwyr: damcaniaeth ac ymchwil; • Hyrwyddo a gwella dysgu myfyrwyr: adfyfyrio beirniadol ar ymarfer yn y dosbarth; • Dibenion ac egwyddorion asesu; • Asesu ar gyfer dysgu; • 'Gwrando ar' a rhoi adborth i ddysgwyr. **Asesu'r modiwlau** Bydd asesu pob modiwl yn cynnwys: adolygu'r llenyddiaeth, adolygu'r data a pharatoi adroddiad. Bydd y strategaeth asesu hon yn galluogi athrawon, pan fyddant wedi cwblhau'r modiwl, i ddangos eu bod yn cyrraedd y safonau perthnasol ar gyfer Athro Siartredig.

Teitl y modiwl:	**Addysgu, Dysgu ac Asesu**
Darparwr	Gwasanaeth Addysg a Gwella Ysgolion a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe
Hyd	Dechrau: Medi 2008. Gorffen: Ionawr 2009.
Y rhai a dargedir i gymryd rhan	Yn berthnasol i: athrawon dosbarth. Cynradd, uwchradd, arbennig, Unedau Cyfeirio Disgyblion.
Cyflenwi	Dysgu cyfunol. Bydd yn rhaid mynychu tair sesiwn diwrnod llawn, un seminar grŵp hanner diwrnod ac un tiwtorial unigol.
Achrediad Addysg Uwch	20 credyd ar Lefel 6 (Diploma i raddedigion)
Crynodeb	Bydd y modiwl hwn yn ymchwilio i'r berthynas rhwng damcaniaethau dysgu a mentrau dysgu ac addysgu cyfredol yng nghyd-destun ymarfer a phrofiad proffesiynol yr unigolyn ei hun mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Bydd hefyd yn ystyried materion asesu, yn enwedig athroniaeth, damcaniaeth ac ymarfer Asesu ar gyfer Dysgu. Bydd y modiwl yn hwyluso nodi meysydd o ymarfer yr unigolyn sy'n addas i'w datblygu, yn nodi, adolygu ac ymchwilio i amrywiaeth o strategaethau / ymyriadau a'u cysylltu ag anghenion yr ymarferydd, ac yn cynorthwyo â gwerthuso effaith yr ymyriadau a roddir ar waith. Yn sail i'r ymchwil ymarferwyr hwn fydd sesiynau a addysgir a fydd yn canolbwyntio ar ddulliau ymchwil.
Asesiad/Asesu	Caiff y modiwl hwn ei asesu trwy ddwy dasg ryngsesiynol: a. ymchwilio i ffocws ar gyfer ymchwil ymarferwyr, a b. y casglu data wedi hynny, bydd y rhain yn darparu gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad ymchwil 4,000 o eiriau.

Teitl y modiwl:	**Cymhwyso TGCh mewn Dysgu Ac addysgu gyda golwg ar Addysgeg**
Darparwr	CELT ym Mhrifysgol Morgannwg a'r Gwasanaeth Addysg a Gwella Ysgolion
Hyd	Dechrau: Medi 2008. Gorffen: Ionawr 2009.
Y rhai a dargedir i gymryd rhan	Yn berthnasol i: ymarferwyr ystafell ddosbarth ac arweinwyr canol. Cynradd, uwchradd, arbennig, Unedau Cyfeirio Disgyblion. Rhaid i athrawon feddu ar rai sgiliau TG eisoes: defnyddio'r rhyngrwyd; e-bost; rhaglenni MSOffice (o leiaf Word a PowerPoint)
Cyflenwi	Dysgu cyfunol Bydd yn galw am ddau ddiwrnod llawn wyneb yn wyneb, seminar grŵp dau hanner diwrnod, a thiwtorialau personol i bob athro. Bydd yr athrawon hefyd yn cymryd rhan mewn fforymau trafod ar-lein gyda chyd-athrawon ac e-gymedrolwyr.
Achrediad Addysg Uwch	20 credyd ar Lefel 7 (lefel Gradd Meistr)
Crynodeb	Nod y modiwl yw galluogi athrawon i greu amgylchedd dysgu ar-lein effeithiol sy'n briodol i anghenion eu dysgwyr, a gwerthuso'r amgylchedd hwnnw'n feirniadol. Bydd yr athrawon yn nodi yn adfyfyrio ar amrywiaeth o ymagweddau addysgol at ddysgu ar-lein a dysgu cyfunol. Bydd yr athrawon yn datblygu gwybodaeth am yr ymchwil diweddaraf ym maes dysgu ar-lein, yn deall anghenion y dysgwr ac yn gwerthuso adnoddau ar-lein.
Asesu/Asesiad	Bydd asesu'r modiwl yn cynnwys; portffolio o dystiolaeth ac adfyfyrio beirniadol.

Teitl y modiwl:	Arwain y Dysgu
Darparwr	Consortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru (SWAMWAC)
Hyd	Dechrau: Ionawr 2009. Gorffen: Mai 2009.
Y rhai a dargedir i gymryd rhan	Yn berthnasol i: ymarferwyr ystafell ddosbarth ac arweinwyr canol. Cynradd, uwchradd, arbennig, Unedau Cyfeirio Disgyblion.
Cyflenwi	Dysgu cyfunol. Caiff ei gyflenwi'n ddwyieithog trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg Bydd yn galw am ddau/ tri diwrnod o gyflenwi wyneb yn wyneb, a hanner diwrnod gyda mentor yn yr ysgol.
Achrediad Addysg Uwch	20 credyd ar Lefel 6 (Diploma i Raddedigion)
Crynodeb	Diben y modiwl hwn yw rhoi i ymgeiswyr am statws Athro Siartredig y cyfle i fod yn arweinwyr dysgu a gwella agwedd ar ddysgu ac addysgu yn eu hysgol neu eu lleoliad eu hunain. Bydd y sesiynau cyntaf yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau dysgu i alluogi ymgeiswyr i ystyried damcaniaethau dysgu ac arweinyddiaeth, a'u heffaith ar ymagweddau cyfredol at drefnu a rheoli dysgu; ac i ystyried cynllunio gweithredu, ymchwil ymarferwyr ac arweinyddiaeth newid er mwyn adfyfyrio'n feirniadol ar sut y defnyddir y rhain i fireinio gweledigaeth ysgol ar gyfer dysgu. Mae hyn yn gysylltiedig â chysyniadau allweddol personoli'r dysgu, ac arweinyddiaeth sy'n canolbwyntio ar ddysgu. Caiff yr ymgeiswyr eu cynorthwyo wrth ddatblygu model o arwain, mentora neu hyfforddi sy'n berthnasol i'w lleoliad ysgol eu hunain. Yna caiff athrawon eu cynorthwyo yn yr ysgol wrth iddynt gynllunio a gweithredu prosiect graddfa-fach ar 'Arwain y Dysgu' i ddatblygu agwedd ar bersonoli'r dysgu yn eu haddysgu eu hunain neu'n ehangach ar draws yr ysgol. Mae gweithdai adolygu cydweithredol wedi'u cynllunio i gynnal yr athrawon trwy eu prosiectau a darparu cymorth a her gan gyd-athrawon.
Asesu/Asesiad	Caiff y modiwl ei asesu trwy gyflwyno ffeil arweinyddiaeth a dysgu wedi'i seilio ar dystiolaeth a chyflwyniad strwythuredig gydag elfen o asesu gan gyd-athrawon.

Teitl y modiwl:	**Hunanwerthuso ac Adfyfyrio a Chynllunio Datblygiad Proffesiynol**
Darparwr	Consortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru (SWAMWAC) Partneriaeth o Awdurdodau Lleol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys ac Abertawe ac Athrofa Addysg Uwch Abertawe (SIHE), Coleg y Drindod, Caerfyrddin. Un garfan o 10 o athrawon sy'n cymryd rhan.
Hyd	Dechrau: Canol Chwefror 2008 Gorffen: Canol Mehefin 2008 Yn cynnwys 150 o oriau dysgu
Yr athrawon a dargedir i gymryd rhan	Yn berthnasol i: Arweinwyr canol a / neu athrawon dosbarth Cynradd, uwchradd, arbennig, Unedau Cyfeirio Disgyblion a lleoliadau ansafonol
Cyflenwi	Dysgu cyfunol Caiff ei ddarparu'n ddwyieithog trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg
Credyd Addysg Uwch ar ôl ei gwblhau	20 credyd ar Lefel 6 (Diploma i Raddedigion)
Crynodeb	Diben y modiwl hwn yw galluogi ymgeiswyr i asesu eu galluoedd presennol yn erbyn y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Athro Siartredig a chynllunio ar gyfer rhagor o ddysgu proffesiynol Bydd y modiwl yn defnyddio amrywiaeth o offer diagnostig a phrosesau hunanasesu i alluogi'r athrawon sy'n cymryd rhan i ddadansoddi eu hanghenion dysgu. Mae hyn yn cynnwys defnyddio offeryn diagnostig ar-lein, proses 360 gradd ac arsylwi gan gyd-athrawon yn y dosbarth ac adborth oddi wrthynt, a reolir gan yr athro. Pan fyddant wedi cwblhau'r modiwl hwn, bydd athrawon yn gallu: • cymhwyso'r safonau proffesiynol ar gyfer Athro Siartredig i'w hymarfer proffesiynol eu hunain; • rheoli prosesau i gasglu adborth am eu haddysgu eu hunain; • dadansoddi eu sgiliau haddysgu, eu galluoedd a'u harddulliau dysgu eu hunain; • deall cysyniadau allweddol addysgu effeithiol, arweinyddiaeth ysgolion, effeithiolrwydd personol, deallusrwydd emosiynol a dysgu hunan-gyfeiriedig i oedolion; • cymryd rhan mewn dialog proffesiynol gydag eraill am eu galluoedd proffesiynol a chyfrannu at wella'r ysgol; • casglu, dadansoddi a chyflwyno tystiolaeth am eu hymarfer proffesiynol; • asesu'n gywir eu galluoedd proffesiynol a'u hanghenion datblygu;

	• adfyfyrio'n feirniadol ynghylch eu gwerthoedd proffesiynol eu hunain a'r ffordd y mae'r rhain yn dylanwadu ar eu hymarfer dyddiol a'u cyfraniad i fywyd a gwaith yr ysgol; • rhoi cychwyn ar eu dysgu a'u datblygiad proffesiynol eu hunain Caiff y modiwl ei gyflenwi dros gyfnod cyfwerth ag un tymor. Bydd yn rhaid mynychu noson ac yna sesiwn diwrnod llawn a dwy sesiwn gyda'r hwyr (4.30 – 7.30). Bydd asesu'n cynnwys cwblhau proffil arweinyddiaeth a dysgu (3000 o eiriau a thystiolaeth ychwanegol) a chyfweliad strwythuredig o 30 munud. Bydd profiad yr athro yn cynnwys: • Astudio annibynnol a than gyfarwyddyd, gan gynnwys darlithoedd a chymorth gan diwtor / mentor; • Arsylwi gan gyd-athrawon yn y dosbarth ac adborth oddi wrthynt, a reolir gan yr athro; • Cynllunio a chynnal proses adborth 360 gradd; • Proffil effeithiolrwydd personol a dadansoddiad o arddulliau dysgu ar-lein; • Hunanfyfyrio ar ddigwyddiad tyngedfennol sy'n gysylltiedig â gwerthoedd proffesiynol; • Casglu a chyflwyno tystiolaeth ategol am ymarfer proffesiynol; • Cynllunio datblygiad proffesiynol

9.3 Templed ar gyfer yr Holiadur i Gyfranogwyr a ddefnyddiwyd yn y Gwerthusiad o Gynllun Peilot y Llwybr Rhaglen

1. Manylion yr Ymgeisydd

1.1 Enw:
1.2 Ysgol:
1.3 Ysgol cyfrwng Saesneg/Cymraeg:
1.4 AALl:
1.5 Swydd/cyfrifoldebau (gan gynnwys lwfans CAD):
1.6 Modiwl a gwblhawyd:

2. Cyffredinol

2.1 Sut gawsoch chi wybod am y Rhaglen Athro Siartredig yn y lle cyntaf?

2.2 Pam wnaethoch chi benderfynu cymryd rhan yn y cynllun peilot Athro Siartredig?

2.3 Pe baech chi'n cwblhau'r Rhaglen Athro Siartredig, beth fyddai'ch uchelgais yn y pen draw o ran eich gyrfa ym maes addysgu?

2.4 Pa gymwysterau/profiad arwyddocaol eraill ydych chi wedi'u hennill ers i chi gymhwyso i fod yn athro?

3. Gwybodaeth a Dealltwriaeth Proffesiynol

3.1 A wnaeth y modiwl eich galluogi chi i **ddangos** eich gwybodaeth a'ch arbenigedd proffesiynol?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

3.2 Os mai 'Do' oedd eich ateb i 3.1, disgrifiwch yn fyr **sut** y cyflawnwyd hyn.

3.3 A wnaeth y modiwl eich galluogi chi i **ddatblygu** eich gwybodaeth a'ch arbenigedd proffesiynol?

Do
Naddo

Ddim yn gwybod

3.4 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 3.3, disgrifiwch yn fyr **pa** wybodaeth ac arbenigedd ychwanegol a gawsoch a **sut** y cyflawnwyd hyn.

3.5 A wnaeth y modiwl eich galluogi chi i **ddangos** eich gwybodaeth a’ch dealltwriaeth o anghenion dysgu a phriodoleddau datblygiadol y dysgwyr dan eich gofal?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

3.6 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 3.5, disgrifiwch yn fyr **sut** y cyflawnwyd hyn.

3.7 A wnaeth y modiwl eich galluogi chi i **ddatblygu** eich gwybodaeth a’ch dealltwriaeth o anghenion dysgu a phriodoleddau datblygiadol y dysgwyr dan eich gofal?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

3.8 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 3.7, disgrifiwch yn fyr **pa** wybodaeth a dealltwriaeth ychwanegol a gawsoch a **sut** y cyflawnwyd hyn.

3.9 A wnaeth y modiwl eich galluogi chi i **ddangos a hyrwyddo** eich gwybodaeth am strategaethau dysgu ac addysgu effeithiol?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

3.10 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 3.9, disgrifiwch yn fyr **sut** y cyflawnwyd hyn.

3.11 A wnaeth y modiwl eich galluogi chi i **ddatblygu** eich gwybodaeth am strategaethau dysgu ac addysgu effeithiol?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

3.12 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 3.11, disgrifiwch yn fyr **pa** wybodaeth ychwanegol a gawsoch a **sut** y cyflawnwyd hyn.

3.13 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddangos** eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o arweinyddiaeth effeithiol?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

3.14 Os mai 'Do' oedd eich ateb i 3.13, disgrifiwch yn fyr **sut** y cyflawnwyd hyn.

3.15 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddatblygu** eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o arweinyddiaeth effeithiol?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

3.16 Os mai 'Do' oedd eich ateb i 3.15, disgrifiwch yn fyr **pa** wybodaeth a dealltwriaeth ychwanegol a gawsoch chi a **sut** y cyflawnwyd hynny.

3.17 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddangos** eich gwybodaeth o'r cwricwlwm a hyrwyddo ei berthnasedd i ddysgu ehangach?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

3.18 Os mai 'Do' oedd eich ateb i 3.17, disgrifiwch yn fyr **sut** y cyflawnwyd hyn.

3.19 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddatblygu** eich gwybodaeth o'r cwricwlwm a'i berthnasedd i ddysgu ehangach?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

3.20 Os mai 'Do' oedd eich ateb i 3.19, disgrifiwch yn fyr **pa** wybodaeth ychwanegol a gawsoch a **sut** y cyflawnwyd hyn.

3.21 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddangos** eich dealltwriaeth o ddatblygiadau cyfredol ym meysydd polisi, ymchwil ac ymarfer a sut y maent yn effeithio ar ddysgu ac addysgu?

Do

Naddo
Ddim yn gwybod

3.22 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 3.21, disgrifiwch yn fyr **sut** y cyflawnwyd hyn.

3.23 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddatblygu** eich dealltwriaeth o ddatblygiadau cyfredol ym meysydd polisi, ymchwil ac ymarfer a sut y maent yn effeithio ar ddysgu ac addysgu?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

3.24 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 3.28, disgrifiwch yn fyr **pa** ddealltwriaeth ychwanegol a gawsoch a **sut** y cyflawnwyd hyn.

3.25 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddangos** eich gwybodaeth a’ch dealltwriaeth o egwyddorion ac arferion strategaethau cydraddoldeb, cynhwysiant a gwrthwahaniaethu?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

3.26 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 3.25, disgrifiwch yn fyr **sut** y cyflawnwyd hyn.

3.27 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddatblygu** eich gwybodaeth a’ch dealltwriaeth o egwyddorion ac arferion strategaethau cydraddoldeb, cynhwysiant a gwrthwahaniaethu?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

3.28 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 3.27, disgrifiwch yn fyr **pa** wybodaeth a dealltwriaeth ychwanegol a gawsoch a **sut** y cyflawnwyd hyn.

3.29 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddangos** eich gwybodaeth o arferion asesu effeithiol?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

3.30 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 3.29, disgrifiwch yn fyr **sut** y cyflawnwyd hyn.

3.31 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddatblygu** eich gwybodaeth o arferion asesu effeithiol?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

3.32 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 3.31, disgrifiwch yn fyr **pa** wybodaeth ychwanegol a gawsoch a **sut** y cyflawnwyd hyn.

3.33 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddangos** gwybodaeth a dealltwriaeth o gyfrifoldebau proffesiynol?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

3.34 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 3.33, disgrifiwch yn fyr **sut** y cyflawnwyd hyn.

3.35 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddatblygu** eich gwybodaeth a’ch dealltwriaeth o gyfrifoldebau proffesiynol?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

3.36 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 3.35, disgrifiwch yn fyr **pa** wybodaeth a dealltwriaeth ychwanegol a gawsoch a **sut** y cyflawnwyd hyn.

4. Sgiliau ymarferol ar waith

4.1 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddangos** sut yr ydych yn cynghori a chynorthwyo cydweithwyr i gynllunio ar gyfer addysgu effeithiol?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

4.2 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 4.1, disgrifiwch yn fyr **sut** y cyflawnwyd hyn.

4.3 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddatblygu** eich gwybodaeth am y ffordd orau i gynghori a chynorthwyo cydweithwyr i gynllunio ar gyfer addysgu effeithiol?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

4.4 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 4.3, disgrifiwch yn fyr **pa** wybodaeth ychwanegol a gawsoch a **sut** y cyflawnwyd hynny.

4.5 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddangos** sut yr ydych yn cynghori a chynorthwyo cydweithwyr i gynllunio i ddefnyddio strategaethau asesu effeithiol?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

4.6 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 4.5, disgrifiwch yn fyr **sut** y cyflawnwyd hyn.

4.7 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddatblygu** eich gwybodaeth am sut i gynghori a chynorthwyo cydweithwyr i gynllunio i ddefnyddio strategaethau asesu effeithiol?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

4.8 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 4.7, disgrifiwch yn fyr **pa** wybodaeth ychwanegol a gawsoch a **sut** y cyflawnwyd hyn.

4.9 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddangos** sut yr ydych yn cynghori a chynorthwyo cydweithwyr i gynllunio i ddefnyddio technegau adrodd effeithiol?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

4.10 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 4.9, disgrifiwch yn fyr **sut** y cyflawnwyd hyn.

4.11 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddatblygu** eich gwybodaeth am sut i gynghori a chynorthwyo cydweithwyr i gynllunio i ddefnyddio technegau adrodd effeithiol?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

4.12 Os mai 'Do' oedd eich ateb i 4.11, disgrifiwch yn fyr **pa** wybodaeth ychwanegol a gawsoch a **sut** y cyflawnwyd hyn.

4.13 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddangos** sut yr ydych yn cynghori a chynorthwyo cydweithwyr i ddefnyddio'r deilliannau asesu'n effeithiol?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

4.14 Os mai 'Do' oedd eich ateb i 4.13, disgrifiwch yn fyr **sut** y cyflawnwyd hyn.

4.15 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddatblygu** eich gwybodaeth am sut i gynghori a chynorthwyo cydweithwyr i ddefnyddio deilliannau asesu'n effeithiol?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

4.16 Os mai 'Do' oedd eich ateb i 4.15, disgrifiwch yn fyr **pa** wybodaeth ychwanegol a gawsoch a **sut** y cyflawnwyd hyn.

4.17 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddangos** sut yr ydych yn cyfathrebu'n effeithiol gyda dysgwyr?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

4.18 Os mai 'Do' oedd eich ateb i 4.17, disgrifiwch yn fyr **sut** y cyflawnwyd hyn.

4.19 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddatblygu** eich gwybodaeth am sut i gyfathrebu'n effeithiol gyda dysgwyr?

Do

Naddo
Ddim yn gwybod

4.20 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 4.19, disgrifiwch yn fyr **pa** wybodaeth ychwanegol a gawsoch a **sut** y cyflawnwyd hyn.

4.21 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddangos** sut yr ydych yn cyfathrebu’n effeithiol gyda rhieni/gofalwyr?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

4.22 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 4.21, disgrifiwch yn fyr **sut** y cyflawnwyd hyn.

4.23 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddatblygu** eich gwybodaeth am sut i gyfathrebu’n effeithiol gyda rhieni/gofalwyr?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

4.24 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 4.23, disgrifiwch yn fyr **pa** wybodaeth ychwanegol a gawsoch a **sut** y cyflawnwyd hyn.

4.25 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddangos** eich gallu i gymryd rhan mewn cydweithredu a gwaith tîm effeithiol gydag amrywiaeth o gydweithwyr?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

4.26 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 4.25, disgrifiwch yn fyr **sut** y cyflawnwyd hyn.

4.27 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddatblygu** eich gwybodaeth am gydweithredu a gwaith tîm effeithiol gydag amrywiaeth o gydweithwyr?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

4.28 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 4.27, disgrifiwch yn fyr **pa** wybodaeth ychwanegol a gawsoch a **sut** y cyflawnwyd hyn.

4.29 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddangos** sut yr ydych yn cynorthwyo cydweithwyr i ddatblygu a defnyddio strategaethau addysgu?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

4.30 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 4.29, disgrifiwch yn fyr **sut** y cyflawnwyd hyn.

4.31 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddatblygu** eich gwybodaeth am sut i gynorthwyo eich cydweithwyr i ddatblygu a defnyddio strategaethau addysgu?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

4.32 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 4.31, disgrifiwch yn fyr **pa** wybodaeth ychwanegol a gawsoch a **sut** y cyflawnwyd hyn.

4.33 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddangos** sut yr ydych yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau i sicrhau bod y myfyrwyr yn dysgu cymaint ag sy’n bosibl?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

4.34 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 4.33, disgrifiwch yn fyr **sut** y cyflawnwyd hyn.

4.35 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddatblygu** eich gwybodaeth am strategaethau dysgu?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

4.36 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 4.35, disgrifiwch yn fyr **pa** wybodaeth ychwanegol a gawsoch a **sut** y cyflawnwyd hyn.

4.37 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddangos** eich gallu i greu amgylchedd cadarnhaol yn y dosbarth?

Do
Naddo

Ddim yn gwybod

4.38 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 4.37, disgrifiwch yn fyr **sut** y cyflawnwyd hyn.

4.39 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddatblygu** eich gwybodaeth am sut i greu amgylcheddau cadarnhaol yn y dosbarth?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

4.40 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 4.39, disgrifiwch yn fyr **pa** wybodaeth ychwanegol a gafwyd a **sut** y cyflawnwyd hyn.

4.41 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddangos** bod gennych ymagwedd ragweithiol at DPP?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

4.42 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 4.41, disgrifiwch yn fyr **sut** y cyflawnwyd hyn.

4.43 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddatblygu** eich gwybodaeth am bwysigrwydd DPP?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

4.44 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 4.43, disgrifiwch yn fyr **pa** wybodaeth ychwanegol a gawsoch a **sut** y cyflawnwyd hyn.

4.45 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddangos** eich gallu i arwain mentrau ysgol-gyfan?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

4.46 Os mai ‘Do’ yw eich ateb i 4.45, disgrifiwch yn fyr **sut** y cyflawnwyd hyn.

4.47 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddatblygu** eich gwybodaeth am sut i arwain mentrau ysgol-gyfan?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

4.48 Os mai ‘Do’ yw eich ateb i 4.47, disgrifiwch yn fyr **pa** wybodaeth ychwanegol a gawsoch a **sut** y cyflawnwyd hyn.

4.49 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddangos** eich gwaith gydag asiantaethau allanol a chydweithwyr?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

4.50 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 4.49, disgrifiwch yn fyr **sut** y cyflawnwyd hyn.

4.51 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddatblygu** eich gwybodaeth am weithio effeithiol gydag asiantaethau allanol a chydweithwyr?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

4.52 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 4.51, disgrifiwch yn fyr **pa** wybodaeth ychwanegol a gafwyd a **sut** y cyflawnwyd hyn.

5. Ymrwymiad Proffesiynol

5.1 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddangos** eich ymrwymiad i wella’ch ymarfer eich hun?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

5.2 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 5.1, disgrifiwch yn fyr **sut** y cyflawnwyd hyn.

5.3 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddatblygu** eich gwybodaeth am sut i wella’ch ymarfer eich hun?

Do
Naddo

Ddim yn gwybod

5.4 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 5.3, disgrifiwch yn fyr **pa** wybodaeth ychwanegol a gawsoch a **sut** y cyflawnwyd hyn.

5.5 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddangos** eich ymrwymiad i wella ymarfer eich cydweithwyr?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

5.6 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 5.5, disgrifiwch yn fyr **sut** y cyflawnwyd hyn.

5.7 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddatblygu** eich gwybodaeth am y ffordd orau i wella ymarfer eich cydweithwyr?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

5.8 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 5.7, disgrifiwch yn fyr **pa** wybodaeth ychwanegol a gawsoch a **sut** y cyflawnwyd hyn.

5.9 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddangos** sut yr ydych y datblygu a gweithredu gweledigaeth eich ysgol?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

5.10 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 5.9, disgrifiwch yn fyr **sut** y cyflawnwyd hyn.

5.11 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddatblygu** eich gwybodaeth am sut y gall ysgol ddatblygu a gweithredu ei gweledigaeth yn llwyddiannus?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

5.12 Os mai ‘Do’ yw eich ateb i 5.11, disgrifiwch yn fy **pa** wybodaeth ychwanegol a gawsoch a **sut** y cyflawnwyd hyn.

5.13 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddangos** eich agwedd agored at newid?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

5.14 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 5.13, disgrifiwch yn fyr **sut** y cyflawnwyd hyn.

5.15 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddatblygu** eich gwybodaeth am reoli newid?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

5.16 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 5.15, disgrifiwch yn fyr **pa** wybodaeth ychwanegol a gawsoch a **sut** y cyflawnwyd hyn.

5.17 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddangos** eich ymagwedd broffesiynol at ddysgwyr, rhieni a’r gymuned ehangach i feithrin perthnasoedd cadarnhaol?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

5.18 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 5.17, disgrifiwch yn fyr **sut** y cyflawnwyd hyn.

5.19 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddatblygu** eich gwybodaeth am y maes hwn o ymarfer proffesiynol?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

5.20 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 5.19, disgrifiwch yn fyr **pa** wybodaeth ychwanegol a gawsoch a **sut** y cyflawnwyd hyn.

5.21 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddangos** y gwerthoedd craidd proffesiynol fel y’u nodir yn y safonau ar gyfer Athro Siartredig?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

5.22 Os mai ‘Do’ oedd eich ateb i 5.21, disgrifiwch yn fyr **sut** y cyflawnwyd hyn.

5.23 A wnaeth y modiwl eich galluogi i **ddatblygu** eich gwybodaeth am y gwerthoedd craidd hyn?

Do
Naddo
Ddim yn gwybod

5.24 Os mai 'Do' oedd eich ateb i 5.23, disgrifiwch yn fyr **pa** wybodaeth ychwanegol a gawsoch a **sut** y cyflawnwyd hyn.

6. Yn gyffredinol

6.1 Beth yw eich barn chi am ansawdd cyffredinol y modiwl?

Rhagorol
Da
Boddhaol
Anfoddhaol

6.2 Rhestrwch beth oedd cryfderau'r modiwl, yn eich barn chi:

6.3 Rhestrwch beth oedd y meysydd lle mae angen gwella'r modiwl, yn eich barn chi:

6.4 Beth oeddech chi'n ei deimlo am y dull cyflenwi a ddefnyddiwyd ar gyfer y modiwl (h.y. mewn perthynas â'r ffaith ei fod yn brofiad dwys dros 3 diwrnod/dros gyfnod hirach ac ati)?

6.5 Ydych chi'n meddwl y dylai'r modiwl fod naill ai'n fodiwl Craidd neu'n fodiwl Dewisol yn y Rhaglen Athro Siartredig?

6.6 Ydych chi'n teimlo bod gan y modiwl y cyfuniad iawn o ddamcaniaeth ac ymarfer?

6.7 Yn seiliedig ar eich profiad ydych chi'n meddwl bod y model cyfredol ar gyfer Athro Siartredig yng Nghymru yn un y gellir ei weithredu'n llwyddiannus?

Ydw
Nac ydw
Ddim yn gwybod

6.8 Os mai ‘Ydw’ oedd eich ateb i 6.4, pa welliannau/newidiadau ydych chi’n meddwl y dylid eu hystyried cyn i’r model cyfredol gael ei weithredu?

6.9 Os mai ‘Nac ydw’ oedd eich ateb i 6.4, pa gamau y mae eu hangen, yn eich barn chi?

9.4 **Safonau Diwygiedig ar gyfer Athro Siartredig yn yr Alban**